Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BIL PLANT (DIDDYMU AMDDIFFYNIAD COSB RESYMOL) (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

**Mawrth 2019**

# Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), a gyflwynir gennyf i ar 25 Mawrth 2019, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Julie Morgan AC**

Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

25 Mawrth 2019

# TABL CYNNWYS


| | Page |
|---|---|
| **RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL** | **4** |
| **Crynodeb o Ran 1** | **4** |
| **Pennod 1: Disgrifiad** | **6** |
| **Pennod 2: Cymhwysedd Deddfwriaethol** | **7** |
| **Pennod 3: Amcanion a diben y polisi a'r effaith y bwriedir i'r Bil ei chael** | **8** |
| **Pennod 4: Ymgynghori** | **24** |
| **Pennod 5: Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth** | **28** |
| | |
| **RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL** | **30** |
| **Pennod 6: Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol** | **31** |
| **Pennod 7: Yr Opsiynau** | **36** |
| **Cyflwyniad i Benodau 8 a 9** | **37** |
| **Pennod 8: Costau a Manteision** | **39** |
| **Pennod 9: Asesiadau Effaith** | **58** |
| **Pennod 10: Adolygu ar ôl gweithredu** | **63** |
| | |
| **ATODIADDAU** | |
| **Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol** | **64** |
| **Atodiad 2: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog** | **68** |
| **Atodiad 3: Atodlen diwygiadau** | **72** |
| **Atodiad 4: Effeithiau posibl ar unigolion a sefydliadau** | **74** |
| **Atodiad 5: Cofnodion Troseddol a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** | **85** |
| **Atodiad 6: Defnyddio data Seland Newydd fel esiampl ar gyfer amcangyfrifon yng Nghymru** | **92** |
| **Atodiad 7: Amcangyfrif Uned Gyswllt yr Heddlu o'r lefelau presennol o ran adrodd am droseddau** | **97** |

# RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL

## Crynodeb o Ran 1

i. Mae Rhan 1 yn disgrifio'r hyn y bydd Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) ("y Bil") yn ei wneud a pham mae'n cael ei gyflwyno. I grynhoi:

**Beth fydd y Bil yn ei wneud?**

ii. Bydd y Bil yn gwahardd yr arfer o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru drwy ddiddymu amddiffyniad cosb resymol.

iii. Dim ond i riant neu berson sy'n gweithredu in loco parentis (yn lle rhiant) y mae amddiffyniad cosb resymol yn agored. Gwaharddwyd cosbi plant yn gorfforol mewn ysgolion a lleoliadau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg gan adran 47 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 (sydd bellach wedi'i diddymu). Bellach, mae'r manylion hyn wedi'u hamlinellu yn adran 548 o Ddeddf Addysg 1996.

iv. Ers i Ddeddf Plant 2004 ddod i rym[1], cyfyngwyd ymhellach ar gosbi corfforol. Bellach dim ond mewn perthynas ag ymosodiad cyffredin ar blentyn neu ei guro, neu dresmasu yn erbyn plentyn y mae'r amddiffyniad yn agored.

v. Mae canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ei gwneud yn glir mai dim ond lle mae'r anaf yn un pitw, a fydd yn gwella'n syth, ac sy'n gwneud dim mwy na chochi'r croen dros dro y gellir ystyried ymosodiad cyffredin ar blentyn neu ei guro yn ymosodiad cyffredin – byddai anaf mwy difrifol yn dynodi niwed corfforol gwirioneddol o leiaf, ac nid yw'r amddiffyniad yn agored ar gyfer achos felly. At hyn, hyd yn oed lle mae'r amddiffyniad yn bosibl, mae canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn nodi bod yn rhaid ystyried ffactorau ychwanegol er mwyn penderfynu ar ba mor rhesymol yw'r gosb (e.e. natur a chyd-destun ymddygiad yr amddiffynnydd). Ar hyn o bryd, ni fyddai'n arferol i Wasanaeth Erlyn y Goron erlyn achosion os byddant o'r farn y byddai'r amddiffyniad yn llwyddiannus. Felly, mae achosion llys lle eir ymlaen i ddibynnu'n llwyddiannus ar yr amddiffyniad yn gymharol brin.

vi. Nid yw'r Bil yn diffinio camau penodol a gymerir gan rieni mewn perthynas â'u plant a fyddai neu na fyddai'n dderbyniol unwaith y diddymir yr amddiffyniad. Ni fydd dileu'r amddiffyniad yn ymyrryd ag egwyddorion y gyfraith gyffredin, sy'n cydnabod y gall rhiant ymyrryd yn gorfforol, er enghraifft, i gadw plentyn yn ddiogel rhag niwed, neu i'w helpu i wneud gweithgareddau fel glanhau dannedd.

[1] Daeth Deddf 2004 i rym ar 15 Ionawr 2005

**Pam mae'r Bil yn cael ei gyflwyno**

vii. Yn ei Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*[2], aeth Llywodraeth Cymru ati i ailddatgan ei bwriad i ddatblygu, ar sail drawsbleidiol, ddeddfwriaeth a fyddai'n cael gwared ar amddiffyniad cosb resymol.

viii. Nod y Bil yw helpu i amddiffyn hawliau plant drwy wahardd rhieni a'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis rhag cosbi eu plant yn gorfforol. Mae gwahardd cosbi plant yn gorfforol yn gyson ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

ix. Bwriad effaith y Bil, ynghyd ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a chefnogi rhieni, yw lleihau ymhellach ar yr arfer o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru ac ar y graddau y caiff yr arfer ei oddef.

x. Mae gwaith ymchwil ymhlith rhieni plant bach yng Nghymru a gynhaliwyd yn 2015 a 2017 yn awgrymu bod agweddau o ran y ffordd y caiff plant a phobl ifanc eu magu a'u disgyblu eisoes yn newid[3]. Gwelwyd newid mewn agweddau - roedd llai o rieni a gwarcheidwaid i blant ifanc yng Nghymru yn cefnogi'r arfer o gosbi plant yn gorfforol yn 2017. Er enghraifft, roedd 81% o rieni'n anghytuno â'r datganiad "mae angen smacio plentyn drwg weithiau" o'u cymharu â 71% yn 2015.

xi. Mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu nad yw cosbi corfforol yn fwy effeithiol na dulliau anghorfforol o ddisgyblu. Nid oes tystiolaeth gref yn erbyn y cynnig i gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol. Mae'r rhan fwyaf o ymchwilwyr yn y maes o'r farn bod cosbi corfforol o bob math ym mhob sefyllfa yn gallu bod yn niweidiol i blant[4].

[2] https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu
[3] Llywodraeth Cymru (2018) 'Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc 2017', RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 42/2018https://llyw.cymru/agweddau-rhieni-tuag-reoli-ymddygiad-plant-ifanc-2017
[4] https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/parental-physical-punishment-child-outcomes-and-attitudes/

## Pennod 1: Disgrifiad

1.1 Bydd y Bil yn dileu amddiffyniad cosb resymol o dan y gyfraith gyffredin, fel na fydd yr amddiffyniad i ymosod ar blentyn neu ei guro bellach ar gael yng Nghymru i rieni nac i’r rheini sy'n gweithredu in loco parentis.

1.2 Ar hyn o bryd, mae'r amddiffyniad yn berthnasol i gyfraith trosedd a chyfraith sifil. O dan gyfraith trosedd, mae'n berthnasol o ran troseddau ymosod a churo yn y gyfraith gyffredin; ac o dan y gyfraith sifil, mae'n berthnasol o ran camwedd tresmasu yn erbyn y person.

1.3 Mae argaeledd yr amddiffyniad eisoes wedi'i gyfyngu o dan adran 58 o Ddeddf Plant 2004[5]. Nid yw'r amddiffyniad ar gael ar gyfer cyhuddiadau o dan gyfraith trosedd o glwyfo neu o achosi niwed corfforol difrifol, ymosod sy'n achosi gwir niwed corfforol neu greulondeb i bersonau o dan 16 oed, nac mewn perthynas â chyhuddiadau o dan gyfraith sifil o guro plentyn sy'n achosi gwir niwed corfforol.

1.4 Bydd y Bil yn dileu gweddill argaeledd yr amddiffyniad mewn perthynas â'r drosedd o guro neu ymosod cyffredin a chamwedd tresmasu yn erbyn y person.

1.5 Bwriad y Bil yw helpu i amddiffyn hawliau plant gan wahardd defnyddio cosb gorfforol, drwy ddileu'r amddiffyniad hwn.

### Diffiniadau

1.6 Yn y Memorandwm Esboniadol hwn, mae ystyr y termau canlynol wedi'i ddisgrifio isod:

**Cosb gorfforol**: unrhyw achos o guro plentyn/plant a wneir fel cosb, ac y cyfeirir ato yn y Bil yn "gosb gorfforol".

**Rhiant:** unrhyw riant ac unrhyw oedolyn arall (ar yr adeg berthnasol) sy'n gweithredu in loco parentis, sydd â chyfrifoldeb rhiant i ofalu am blentyn / plant.

[5] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/31/section/58

## Pennod 2: Cymhwysedd Deddfwriaethol

2.1 Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) ("y Bil") yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[6] fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017[7].

2.2 Mae Rhan 1 o Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhestru'r materion cyffredinol a gedwir yn ôl rhag cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac mae Rhan 2 yn rhestru'r materion penodol rhag cymhwysedd deddfwriaethol, sydd fel y materion hynny a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 7A yn faterion a gedwir yn ôl. Nid ystyrir y bydd y ddarpariaeth a wneir gan y Bil yn dod o dan y materion a gedwir yn ôl sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 7A. Mae'r mater a gedwir yn ôl a'r eithriad canlynol yn berthnasol:

*Section L12 –Family relationships and children*

*Paragraph 177 Parenthood, parental responsibility, child arrangements and adoption*

*Exceptions*
*…Parental discipline*

*Paragraph 176 of Schedule 7A to the GOWA 2006 reserves "Parenthood, parental discipline, child arrangements and adoption". The exception for "parental discipline" is carved out from this reservation. Paragraph 373 of the explanatory notes to the Wales Act 2017[8] explains that:*

*"The exception for 'parental discipline' carves out from the reservation for parental responsibility, the right of a parent to discipline a child, this includes the right to administer reasonable chastisement to a child, or smacking. The Assembly has competence for the protection of children and young people and so would have the competence to ban smacking."*

2.3 Ystyrir bod y darpariaethau yn gydnaws â Hawliau'r Confensiwn a Chyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE).

---

6 https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/contents
7 http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted
8 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/4/pdfs/ukpgaen_20170004_en.pdf

## Pennod 3: Amcanion a diben y polisi a'r effaith y bwriedir i'r Bil ei chael

### Cyd-destun

3.1 Ar 18 Mai 2016, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ar y pryd fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i ddileu amddiffyniad cosb resymol.

3.2 Ar 27 Mehefin 2017, cadarnhaodd Prif Weinidog Cymru ar y pryd ei ymrwymiad, a dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y cynigion yn ystod ail flwyddyn y rhaglen ddeddfwriaethol (Medi 2017 – Gorffennaf 2018), gyda'r bwriad o gyflwyno Bil yn ystod y drydedd flwyddyn (Medi 2018 – Gorffennaf 2019).

3.3 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y cynnig deddfwriaethol rhwng 9 Ionawr a 2 Ebrill 2018[9], a chyhoeddwyd y crynodeb o'r ymatebion ar 6 Awst 2018[10] (trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 4).

3.4 Yn sgil ymrwymiad Llywodraeth Cymru a’r Cynulliad i hybu hawliau plant, mae dileu amddiffyniad cosb resymol wedi bod yn destun trafodaeth yn y Cynulliad ers ei sefydlu yn y blynyddoedd cynnar.

3.5 Yn 2007, roedd Llywodraeth Cymru wedi cynghori Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn eu bod wedi ymrwymo i gael gwared ar gosb gorfforol, ond ar y pryd nid oedd y cymhwysedd deddfwriaethol ganddynt i newid y gyfraith[11].

3.6 Mae dileu amddiffyniad cosb resymol yn fater sydd wedi'i godi yn y Cynulliad nifer o weithiau. Dros y blynyddoedd diweddar, mae hynny wedi cynnwys yn ystod y broses o basio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

3.7 Ar 9 Ionawr 2018, gwnaeth y cyn-Weinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn a oedd yn cadarnhau ei fod yn "lansio ymgynghoriad i lywio datblygiad y cynnig deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol", a'n bod am "ei gwneud yn glir nad yw cosbi plentyn yn gorfforol yn dderbyniol yng Nghymru mwyach"[12].

---

[9] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/180109-legislation-consultation-cy.pdf

[10] https://beta.llyw.cymru/cynnig-deddfwriaethol-i-ddileu-amddiffyniad-cosb-resymol

[11] Gweler adran 183, Pwyllgor Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ar Hawliau'r Plentyn, Ystyriaeth o Adroddiadau a gyflwynwyd gan Wladwriaethau sy'n Barti o dan Erthygl 44 o'r Confensiwn, Trydydd a Phedwerydd Adroddiad cyfnodol Gwladwriaethau sy'n Barti a gyflwynwyd yn 2007, Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon https://www.qub.ac.uk/research-centres/advancing-childrens-rights/Filestore/Filetoupload,403606,en.pdf

[12] http://record.assembly.wales/Plenary/4893#A10000059

## Y sefyllfa bresennol

3.8 O dan y gyfraith gyfredol, amddiffyniad i'r troseddau ymosod a churo yn y gyfraith gyffredin yw amddiffyniad cosb resymol.

> Gellir olrhain tarddiad y cysyniad o 'gosb resymol' yn ol i oes Fictoria. Yr achos a sefydlodd y diffiniad sy'n cael ei dderbyn yn ôl y gyfraith oedd un R v Hopley[13] (1860). Yn yr achos hwnnw, cafodd bachgen ei guro gan ysgolfeistr gyda chaniatâd gan dad y plentyn. Fel canlyniad i hynny, bu farw'r plentyn. Yn ystod y treial, dywedodd y barnwr llywyddol, sef y Prif Ustus Cockburn:
>
> *“A parent or a schoolmaster, who for this purpose represents the parent and has the parental authority delegated to him, may for the purpose of correcting what is evil in the child inflict moderate and reasonable corporal punishment, always, however, with this condition, that it is moderate and reasonable.”*
>
> Roedd yr achos hwn wedi sefydlu bod cosb resymol yn amddiffyniad dan y gyfraith ar gyfer rhieni, gofalwyr neu oedolion cyfrifol eraill – megis athrawon – a oedd yn cael eu cyhuddo o drosedd o ymosod ar blant.

3.9 Mae adran 58 o Ddeddf Plant 2004 wedi sicrhau nad yw'r amddiffyniad ar gael ar gyfer clwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol; ymosod sy'n achosi gwir niwed corfforol nac ar gyfer cyhuddiad o greulondeb i bersonau o dan 16 oed. Yr hyn y mae hynny'n ei olygu i bob diben yw y gall yr amddiffyniad gael ei ddefnyddio ar lefel ymosod neu guro cyffredin yn unig, os yw'n gymwys yng nghyd-destun cyfraith trosedd ac yng nghyd-destun y gyfraith gamweddau (tresmasu yn erbyn y person).

3.10 Mae adran 58 yn darparu:

*58 Reasonable punishment -*

*(1) In relation to any offence specified in subsection (2), battery of a child cannot be justified on the ground that it constituted reasonable punishment.*

*(2) The offences referred to in subsection (1) are-*
*(a) an offence under section 18 or 20 of the Offences against the Person Act 1861 (c 100) (wounding and causing grievous bodily harm);*
*(b) an offence under section 47 of that Act (Assault occasioning actual bodily harm);*
*(c) an offence under section 1 of the Children and Young Persons Act 1993 (c 12) (cruelty to persons under 16).*

[13] (1860) 2 F & F 202. 175 ER 1024

(3) *Battery of a child causing actual bodily harm to the child cannot be justified in any civil proceedings on the ground that it constituted reasonable punishment.*

(4) *For the purposes of subsection (3) "actual bodily harm" has the same meaning as it has for the purposes of section 47 of the Offences against the Person Act 1861.*

(5) *In section 1 of the Children and Young Persons Act 1993, omit subsection (7).*

**Gweithredu'r amddiffyniad cyfredol**

3.11 Mae'r *Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron*[14] yn cael ei gyhoeddi gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, ac mae'n pennu egwyddorion cyffredinol i Wasanaeth Erlyn y Goron eu dilyn wrth wneud penderfyniadau am achosion. I ategu'r *Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron*, caiff canllawiau ar erlyniadau[15] a ddiweddarir yn rheolaidd eu defnyddio ar y cyd â'r *Cod* i wneud penderfyniadau am achosion troseddol.

3.12 Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn darparu cyngor ar ymdrin â chyhuddiadau ar gyfer achosion mwy difrifol a chymhleth. Mae'r heddlu'n cymhwyso'r un egwyddorion wrth benderfynu a ddylid cyhuddo person o drosedd mewn perthynas â'r achosion hynny y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae penderfynu a yw person yn cael ei gyhuddo o drosedd neu beidio yn dibynnu ar a oes tystiolaeth ddigonol o blaid euogfarn debygol realistig, ac a fyddai erlyniad er lles y cyhoedd.

3.13 Gallwch weld canllawiau ar erlyniadau ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron[16]. Mae'r *Charging Standard on Offences Against the Person* ("y Safon Gyhuddo") [17] yn darparu cyngor mewn perthynas â throseddau yn erbyn y person o ran a ddylid cyhuddo unigolyn o ymosod cyffredin neu o achosi gwir niwed corfforol ac o ran y camau sydd angen eu cymryd os bydd amddiffyniad cosb resymol yn rhywbeth i'w ystyried.

3.14 Caiff y Safon Gyhuddo ei diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu'r newidiadau yn y gyfraith ac mewn arferion. Cafodd ei diwygio yn dilyn y newid yn y gyfraith yn sgil adran 58 o Ddeddf Plant 2004, sy'n amlinellu na fyddai amddiffyniad cosb resymol bellach ar gael ar gyfer cyhuddiadau o wir niwed corfforol neu niwed corfforol difrifol neu greulondeb i blant.

---

[14] https://www.cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors

[15] Mae adran 37A o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn darparu y gallai'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus gyhoeddi canllawiau at ddibenion galluogi swyddogion y ddalfa i benderfynu ar y ffordd y dylid ymdrin â phobl ac ar y math o wybodaeth y dylid ei hanfon at y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

[16] www.cps.gov.uk

[17] Mae canllawiau *Offences Against the Person, incorporating the Charging Standard*, yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, ac maent ar gael yn https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/offences-against-person-incorporating-charging-standard

3.15 Ar y pryd, cafodd y Safon Gyhuddo ei diwygio fel bod pa mor agored i niwed y mae'r dioddefwr – er enghraifft plentyn yr ymosodwyd arno gan oedolyn – yn cael ei drin fel ffactor sy'n gwaethygu'r sefyllfa wrth benderfynu ar y cyhuddiad addas. O ganlyniad, mae anafiadau a fyddai wedi arwain o'r blaen at gyhuddiad o ymosodiad cyffredin, bellach yn gyhuddiad o ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol o dan adran 47 o Ddeddf Troseddau yn erbyn y Person 1861 – nid yw amddiffyniad cosb resymol ar gael ar gyfer y drosedd hon bellach.

3.16 Awgrymodd adolygiad gan Lywodraeth y DU yn 2007[18] ei bod yn ymddangos mai prin iawn yr oedd amddiffyniad cosb resymol yn cael ei ddefnyddio, hynny yw o ran mewn achosion a oedd wedi cyrraedd y cam o gael eu cyfeirio i Wasanaeth Erlyn y Goron neu i gam dwyn achos yn eu blaen mewn llys o leiaf. Gofynnodd Gwasanaeth Erlyn y Goron i wyth o ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron lenwi holiadur am achosion o gam-drin plant, a gofynnwyd i bob un o'r 43 o ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron anfon manylion am achosion lle cafodd amddiffyniad cosb resymol ei ddefnyddio.

3.17 Er nad oedd yr adolygiad yn un hollgynhwysol, dangosodd 12 o achosion rhwng Ionawr 2005 a Chwefror 2007 lle cafodd amddiffyniad cosb resymol ei ddefnyddio – a phob un wedi arwain at ryddfarn neu at ollwng yr achos. O'r 12 achos hynny, gwelwyd y canlynol:

- Pedwar achos lle cafodd yr amddiffyniad ei ddefnyddio'n benodol i amddiffyn cyhuddiad o ymosod cyffredin;
- Pedwar achos lle yr oedd y diffynnydd wedi'i gyhuddo o ymosod cyffredin, ac er nad oedd wedi defnyddio'r amddiffyniad yn benodol, gallai fod wedi bod yn ffactor yn y penderfyniad i'w cael yn ddieuog neu i ollwng yr achosion;
- Pedwar achos lle cafodd cosb resymol ei chynnig o'u plaid er gwaethaf y ffaith nad oedd yn ffurfio amddiffyniad cyfreithiol i'r cyhuddiad o greulondeb i blentyn.

3.18 Casgliad Llywodraeth y DU, yn ei hadolygiad yn 2007, oedd bod tystiolaeth yn awgrymu i amddiffyniad cosb resymol gael ei ddefnyddio pan na ddylai fod wedi bod ar gael.

3.19 Yn sgil hynny, roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cyhoeddi bwletin polisi i bob aelod o'r staff, yn eu hatgoffa o'r newidiadau a gafodd eu cyflwyno gan adran 58 o Ddeddf Plant 2004 a'r Safon Gyhuddo ddiwygiedig. Roedd hefyd wedi atgoffa erlynwyr i hysbysu'r llysoedd, y rheithgorau a chyfreithwyr yr amddiffyniad na fyddai amddiffyniad cosb resymol ar gael oni bai bod y diffynnydd yn rhiant i'r plentyn neu'n oedolyn a oedd yn gweithredu *in loco parentis*, a bod y cyhuddiad yn un o ymosod cyffredin.

[18]https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/344503/Review_of_Section_58_of_the_Children_Act_2004.pdf

3.20 Cafodd diwygiadau pellach i'r Safon Gyhuddo eu cynnwys yn y fersiwn o'r Safon Gyhuddo a gyhoeddwyd ar 13 Mehefin 2018, er mwyn egluro'r modd y gallai cosb resymol fod yn ystyriaeth. Cafwyd fersiynau eraill o'r Safon Gyhuddo[19] ers hynny, a gyhoeddwyd ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac mae'r darpariaethau sy'n berthnasol i gosb resymol wedi'u trosglwyddo i'r fersiwn ddiweddaraf.

3.21 Mae'r Safon Gyhuddo bresennol yn darparu cyngor mewn perthynas â dewis cyhuddiad lle y gallai cosb resymol fod ar gael i'w defnyddio fel amddiffyniad, sef:

> *"In selecting the most appropriate charge, where the likely defence is one of "reasonable punishment" (s58 Children Act 2004), regard must be given to the case of A v UK (1999) 27 EHHR 611. Unless the injury is transient and trifling and amounted to no more than temporary reddening of the skin, a charge of ABH, for which the defence does not apply, should be preferred."*

3.22 Mae'r Safon Gyhuddo hefyd yn darparu cyngor am y ffactorau i'w hystyried i gynorthwyo wrth bennu pa mor rhesymol yw'r gosb:

> *"The Court of Appeal in the case of R v H, The Times 17 May 2001 adopted the guidance set out in the case of A v UK and considered the factor to be taken into account where a defence of reasonable punishment is raised. Therefore, in such a case, limited to common assault by s58, the following factors will assist in determining whether the punishment in question was reasonable and moderate:*
> - *the nature and context of the defendant's behaviour;*
> - *the duration of that behaviour;*
> - *the physical and mental consequences in respect of the child;*
> - *the age and personal characteristics of the child; and*
> - *the reasons given by the defendant for administering the punishment."*

3.23 Diwygiwyd y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn sgil ymgynghoriad yn 2018. Mae'n ailddatgan mai'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yw pennaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron, sef prif wasanaeth erlyn cyhoeddus Cymru a Lloegr, ac mae'n datgan (yn 2.13) bod yn rhaid i erlynwyr, lle mae'r gyfraith yn wahanol yng Nghymru a Lloegr, gymhwyso'r Cod a rhoi sylw i unrhyw bolisi, canllawiau neu safon gyhuddo berthnasol. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ymwybodol o fwriad Llywodraeth Cymru i ddileu amddiffyniad cosb resymol ac yn cytuno os yw'r Bil i ddileu'r amddiffyniad yn cael ei basio, bydd angen i'r Safon Gyhuddo gael ei diwygio er mwyn ei gwneud yn glir nad yw'r amddiffyniad bellach yn berthnasol yng Nghymru.

[19] https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/offences-against-person-incorporating-charging-standard

## Data am achosion o gosbi rhesymol yr ymdriniwyd â nhw gan Wasanaeth Erlyn y Goron

3.24 Roedd cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaed i Wasanaeth Erlyn y Goron ym mis Chwefror 2018[20] yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â'r nifer o weithiau yr oedd amddiffyniad cosb resymol wedi'u codi mewn achosion lle cafodd penderfyniad i gyhuddo unigolyn ei wneud. Yn ystod cyfnod 2009 i 2017, cafodd tri hysbysiad eu cyflwyno – dau yn 2011 ac un yn 2014. Roedd pob achos yn deillio o Loegr; ac nid oedd unrhyw hysbysiadau wedi'u cofnodi o'r defnydd o amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi nodi'r canlynol:

- Mae'n bosibl nad oedd pob achos wedi'u hysbysu i'r gyfarwyddiaeth briodol;
- Mae'n bosibl nad yw nifer yr hysbysiadau'n adlewyrchu'r holl achosion, oherwydd efallai i rai erlynwyr hysbysu'r arweinydd polisi cyfrifol yn uniongyrchol, yn hytrach na'r swyddog cyswllt gweinyddol;
- Roedd y gofyniad i hysbysu yn berthnasol pan oedd penderfyniad wedi'i wneud i gyhuddo'r sawl a oedd wedi cosbi unigolyn – os penderfynwyd peidio â chyhuddo'r unigolyn, yna nid oedd yn ofynnol i hysbysiad gael ei gyflwyno.

## Data am achosion o gosbi rhesymol yr ymdriniwyd â nhw gan yr heddlu

3.25 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.12 uchod, mae'r heddlu'n dilyn yr un egwyddorion â Gwasanaeth Erlyn y Goron wrth benderfynu a ddylid cyhuddo person o drosedd neu beidio: mae hynny'n cynnwys ystyried a oes tystiolaeth ddigonol o blaid euogfarn debygol realistig, ac a fyddai er lles y cyhoedd i gyhuddo'r unigolyn o drosedd.

3.26 Yn sgil hynny, mae amddiffyniad cosb resymol yn berthnasol i benderfyniadau ar gyhuddo unigolion a wnaed gan yr heddlu, yn ogystal â'r rheini a wnaed gan Wasanaeth Erlyn y Goron mewn perthynas ag achosion sy'n cael eu cyfeirio iddynt. Felly, wrth benderfynu a ddylid cyhuddo rhiant o'r drosedd o guro plentyn neu ymosod ar blentyn, fe fyddai'r ffaith fod amddiffyniad cosb resymol ar gael ar gyfer yr ymosodiad a gyflawnwyd yn berthnasol.

3.27 Nid yw'r Heddlu yn casglu data ar y nifer o achosion o ymosod cyffredin gan rieni ar blant a allai gael eu categoreiddio'n gosb resymol. Fodd bynnag, mae'r pedwar o heddluoedd yng Nghymru wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru i nodi achosion o'r fath o edrych yn ôl ar y cyfnod er mwyn cael sylfaen o ddata at ddibenion y memorandwm hwn. Ceir rhagor o fanylion am hynny yn atodiad 7.

[20] https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/foi/2018/Disclosure-3.pdf

**Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael**

3.28 Diben y Bil yw helpu i ddiogelu hawliau plant drwy ddiddymu amddiffyniad cosbi plant yn rhesymol dan y gyfraith gyffredin, fel na all rhieni ddibynnu arno mwyach mewn unrhyw achos troseddol neu achos llys sifil yng Nghymru.

3.29 Mae agweddau rhieni at y ffordd y mae plant yn cael eu magu a'u disgyblu eisoes yn newid. Roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith ymchwil yn 2017[21] ar agweddau rhieni at reoli ymddygiad plant ifanc. Roedd yr arolwg hwnnw wedi gofyn amrediad tebyg o gwestiynau i'r arolwg blaenorol a gynhaliwyd yn 2015[22]. Nododd llai o rieni plant ifanc yng Nghymru eu bod yn smacio eu plant yn 2017 o'u cymharu â rhieni a holwyd yn 2015, a phrin iawn oedd nifer y rhieni a ddywedodd eu bod yn gyfforddus â'r syniad o wneud hynny.

3.30 Bwriad effaith y Bil, ynghyd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth a chymorth i rieni, yw lleihau ymhellach yr arfer o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, a lleihau ymhellach y parodrwydd i oddef yr arfer.

**Gweithredoedd rhieni a fyddai neu na fyddai'n dderbyniol ar ôl i amddiffyniad cosb resymol gael ei ddileu**

3.31 Nid yw'r gweithredoedd a fyddai neu na fyddai'n cyfateb i gosbi corfforol ar ôl i'r amddiffyniad gael ei ddileu wedi'u diffinio yn y Bil.

3.32 A hynny oherwydd bod y gyfraith gyffredin eisoes yn cydnabod ei bod yn angenrheidiol (ac yn gyfreithlon) i rieni neu oedolion eraill ymgymryd ag ymyriadau corfforol penodol wrth arfer awdurdod rhiant mewn perthynas â phlant, hyd yn oed pan fyddai'r ymyriadau (oni bai am y gydnabyddiaeth hon) yn gyfystyr ag ymosod neu guro.

3.33 Nid yw cyfreithlondeb yr ymyriadau hyn yn deillio o fodolaeth amddiffyniad cosb resymol, gan na fwriedir iddynt fod yn gyfystyr â chosb gorfforol. Mae hyn yn golygu y caniateir ymyriadau corfforol penodol gan riant mewn perthynas â phlentyn hyd yn oed pan na chaniateid yr ymyriadau hynny, o angenrheidrwydd, yng nghyd-destun dau oedolyn.

3.34 Un enghraifft bosibl yw'r ymyriad corfforol sy'n angenrheidiol er mwyn cadw plentyn yn ddiogel rhag niwed, megis atal plentyn yn gorfforol rhag rhedeg i'r ffordd (yn hytrach nag unrhyw ymyriad corfforol sydd â'r bwriad o gosbi plentyn am redeg i'r ffordd) neu atal plentyn yn gorfforol i'w gadw rhag niweidio ei hunan neu rhag niweidio eraill. Gallai enghreifftiau eraill gynnwys defnyddio grym rhesymol i wisgo plentyn, neu i frwsio dannedd plentyn.

[21] Llywodraeth Cymru (2018) 'Agweddau rheini tuag at reoli ymddygiad plant ifanc 2017', RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 42/2018 https://llyw.cymru/agweddau-rhieni-tuag-reoli-ymddygiad-plant-ifanc-2017

[22] Llywodraeth Cymru (2015) "Agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant ifanc: Adroddiad Diwygiedig Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15 – Arolwg Ail-gysylltu, RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 9/2018 https://llyw.cymru/agweddau-rhieni-tuag-reoli-ymddygiad-plant-ifanc-2015

3.35 Gall arfer awdurdod rhiant hefyd ei gwneud yn ofynnol defnyddio ymyriadau corfforol sy'n angenrheidiol at ddiben defnyddio dulliau eraill yn lle cosb gorfforol, er mwyn annog ymddygiad cadarnhaol a chadw plant yn ddiogel. Byddai hynny'n cynnwys, er enghraifft, gario plentyn i rywle i gymryd amser i ymdawelu.

**Defnyddio grym rhesymol mewn ysgolion**

3.36 Cafodd cosb gorfforol ei gwahardd mewn ysgolion gwladol drwy Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 (adran 48A) sydd wedi'i diddymu bellach[23] ac mewn ysgolion annibynnol yn 1998[24]. Mae'r gyfraith bresennol sy'n gwahardd y defnydd o gosb gorfforol mewn perthynas â disgyblion sy'n cael addysg wedi'i hamlinellu yn adran 548 o Ddeddf Addysg 1996[25]. Mae'r darpariaethau cyfredol yng Nghymru sy'n ymwneud â'r defnydd o rym rhesymol mewn ysgolion wedi'u pennu yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru 097/2013, 'Ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau'[26]. Drwy ddileu amddiffyniad cosb resymol, ni fwriadwn i hynny gael effaith ar allu athrawon ac aelodau eraill o weithlu'r ysgol i reoli ac atal disgyblion yn unol â'r Canllawiau hynny.

**Nod y polisi a thystiolaeth ategol**

3.37 Prif amcan y Bil yw amddiffyn hawliau plant drwy wahardd rhieni rhag cosbi plant yn gorfforol. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cydnabod bod cosbi plant yn gorfforol, ni waeth pa mor ysgafn, yn anghydnaws â hawliau dynol plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) Erthygl 19, ac maent wedi gofyn iddo gael ei ddiddymu. Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi sylw cyffredinol sy'n cydnabod y dylid parchu hawl y plentyn i gael urddas dynol, uniondeb corfforol a'u diogelu yr un fath ag oedolion o dan y gyfraith[27].

3.38 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Bil yn sicrhau bod Cymru'n gweithredu'n unol ag argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[28]. Mae'r Bil hefyd yn gyson ag argymhellion nifer o gyrff rhyngwladol allweddol eraill, fel Cyngor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol [29] a Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod[30].

---

[23] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1986/61
[24] Adran 131, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/31/pdfs/ukpga_19980031_en.pdf
[25] http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/548
[26] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/ymyriad-diogel-ac-effeithiol-defnyddio-grym-rhesymol-a-chwilio-am-arfau.pdf
[27] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2006): Yr Ail Sesiwn ar Ddeugain. Sylw Cyffredinol Rhif 8: Hawl y plentyn i gael ei ddiogelu rhag cosb gorfforol ac unrhyw fath arall o gosb greulon neu ddiraddiol. Genefa: United Nations https://www.refworld.org/docid/460bc7772.html
[28] https://www.ohchr.org/EN/Countries/ENACARegion/Pages/GBIndex.aspx
[29] https://www.ohchr.org/EN/HRBodies/HRC/Pages/Home.aspx
[30] https://www.ohchr.org/en/hrbodies/cedaw/Pages/CEDAWIndex.aspx

3.39 Mae'r dystiolaeth ymchwil sy'n ymwneud ag effaith bosibl cosb gorfforol ar blant, dulliau eraill yn lle cosb gorfforol, ac agweddau at gosbi plant yn gorfforol wedi'i hystyried. Cafodd crynodeb o'r dystiolaeth berthnasol ei gynnwys at ddibenion yr ymgynghoriad ar dudalennau 12 i 17 o'r ddogfen ymgynghori, a gafodd ei chyhoeddi ar 9 Ionawr 2018[31].

3.40 Mae'r dadansoddiad o'r dystiolaeth yn y ddogfen ymgynghori yn cydnabod bod ymchwil sy'n ymwneud â chosbi corfforol gan rieni yn gymhleth. I bennu effaith cosb gorfforol ar blant mae ffactorau eraill i'w cydnabod, gan gynnwys y dylanwadau allanol niferus eraill ym mywyd y plentyn a allai effeithio ar y canlyniadau; mae nifer o astudiaethau'n dibynnu ar hunan-adroddiadau ôl-weithredol y rhieni; a'r posibilrwydd y gallai rhieni deimlo eu bod dan bwysau i roi barn y maent yn ystyried ei bod yn un dderbyniol yn gymdeithasol.

3.41 Yn sgil y materion hyn, mae canlyniadau'r dadansoddiad yn cydnabod nad yw'n debyg bod unrhyw dystiolaeth ymchwil sy'n dangos yn benodol bod effeithiau smacio ysgafn ac anaml yn niweidiol ar blant. Fodd bynnag, casgliad dadansoddiad yr ymgynghoriad oedd nad oes unrhyw waith ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid wedi dangos gwelliant o ran iechyd datblygiadol fel canlyniad i gosbi corfforol gan rieni. Yn ychwanegol, yr hyn a amlinellwyd oedd bod gwaith ymchwil yn awgrymu bod rhianta cadarnhaol yn gysylltiedig â buddion ar bob cam datblygu ym mywyd plentyn.

3.42 Yn ein crynodeb o'r dystiolaeth yn y ddogfen ymgynghori, roeddem wedi cyfeirio at fetaddadansoddiad 2005 a oedd yn cymharu canlyniadau plant yn sgil cosb gorfforol a dulliau disgyblu eraill[32]. Cafodd hwnnw ei ddyfynnu yn anghywir (tudalen 14). Rydym wedi cydnabod y gwall esgeulus hwnnw wrth aralleirio. O fynd yn ôl i edrych ar y dystiolaeth eto, rydym yn casglu nad yw'n newid yr asesiad cyffredinol a gyflwynwyd.

3.43 Ers i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi, rydym wedi cymryd yr ymatebion i'r ymgynghoriad i ystyriaeth, gan gynnwys ystyried gwaith ymchwil perthnasol ychwanegol sydd wedi'i gyhoeddi. Mae hynny'n cynnwys tri darn o waith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru:

### *(1) __Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc, 2017__*

3.44 Cafodd yr ymchwil hon, a gynhaliwyd gan Beaufort Research, ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'i chyhoeddi ar 11 Gorffennaf 2018[33]. Yn gyffredinol roedd y gwaith hwn yn debyg i waith ymchwil blaenorol a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru gan Wavehill Ltd yn 2015[34]. Er bod rhai cwestiynau

[31] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/180109-legislation-consultation-cy.pdf
[32] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/180109-legislation-consultation-cy.pdf
[33] Llywodraeth Cymru (2018) 'Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc 2017', YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 42/2018 https://llyw.cymru/agweddau-rhieni-tuag-reoli-ymddygiad-plant-ifanc-2017
[34] Llywodraeth Cymru (2015) 'Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc: Adroddiad Diwygiedig Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15 – Arolwg Ail gyswllt, YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 9/2018 https://llyw.cymru/agweddau-rhieni-tuag-reoli-ymddygiad-plant-ifanc-2015

newydd yn arolwg 2017, roedd y rhan fwyaf o gwestiynau arolwg 2015 wedi'u defnyddio, gan gynnwys yr un dulliau a methodoleg. Felly, oherwydd hynny, roedd modd gwneud cymariaethau rhwng astudiaeth 2017 ac astudiaeth 2015.

3.45 Ymhlith prif bwyntiau'r ymchwil hon y mae:

- **Agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant:** Bu newid mewn agweddau ers gwaith ymchwil 2015, a llai o rieni a gwarcheidwaid i blant ifanc yng Nghymru yn cefnogi cosb gorfforol yn 2017. Er enghraifft, yn 2017, roedd 81% o rieni yn anghytuno â’r gosodiad bod angen smacio plentyn drwg weithiau, o'u cymharu â 71% yn 2015.

- **Agweddau tuag at ddeddfwriaeth ar reoli newid ymddygiad plant:** Nid oedd agweddau tuag at ddiwygio'r gyfraith wedi newid yn sylweddol o'u cymharu â'r arolwg yn 2015. Fodd bynnag, roedd 50% o rieni yn arolwg 2017 yn anghytuno y dylai'r gyfraith ganiatáu i rieni smacio eu plant (o'u cymharu â 24% a oedd yn cytuno y dylai). Mewn cwestiwn ychydig yn wahanol, gofynnwyd i rieni a ddylid cael gwaharddiad llwyr ar smacio; roedd 48% yn cytuno y dylid cael gwaharddiad llwyr ar smacio a 39% yn anghytuno.

- **Cyngor a chymorth ar gyfer rheoli ymddygiad plant:** yn arolwg 2017, roedd 40% o rieni wedi adrodd eu bod wedi ceisio cael cyngor neu wybodaeth am reoli ymddygiad eu plant. I'r rhieni hynny, y ffynhonnell fwyaf boblogaidd o ran cyngor a gwybodaeth oedd y rhyngrwyd (52%), wedyn gweithiwr iechyd proffesiynol (35%), ysgol (20%) a ffrind/perthynas (14%). Gofynnwyd cwestiwn tebyg yn arolwg 2015, a dim ond 12% o'r rheini a oedd yn ceisio cael cymorth mewn perthynas â sgiliau rhianta a oedd wedi gwneud hynny ar lein.

- Yn arolwg 2017, roedd 95% o'r rheini a oedd wedi cael cyngor neu wybodaeth am reoli ymddygiad plant wedi adrodd bod hynny wedi cael dylanwad cadarnhaol ar eu sgiliau rhianta neu ar eu hyder: roedd 49% wedi adrodd bod y cyngor a'r wybodaeth wedi helpu llawer, ac roedd 46% wedi adrodd eu bod wedi helpu rhywfaint.

### *(2) Parental Physical Punishment: Child Outcomes and Attitudes, 2018*

3.46 Gofynnodd cyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant i'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru – a elwir bellach yn Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPCC) – gynnal adolygiad o'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag agweddau plant tuag at gosb gorfforol a'r cysylltiad rhwng cosb gorfforol gan rieni a'r effeithiau y mae'n ei chael ar blant. Cyhoeddwyd yr adolygiad ar 19 Gorffennaf 2018[35].

[35] https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/parental-physical-punishment-child-outcomes-and-attitudes/

3.47 Mae'r adolygiad yn dynodi bod y dystiolaeth, ar y cyfan, yn cefnogi'r casgliadau canlynol:

- Mae cosb gorfforol ddifrifol a cham-drin plentyn yn gwneud niwed i ddatblygiad y plentyn;
- Er nad oes tystiolaeth bendant bod cosb gorfforol 'resymol' yn effeithio'n negyddol ar blant, mae yna dystiolaeth ei bod yn gysylltiedig ag effeithiau negyddol;
- Nid oes unrhyw dystiolaeth ddibynadwy sy'n dangos bod manteision o ran datblygiad hirdymor i gosb gorfforol 'resymol', na'i bod yn fwy effeithiol wrth newid ymddygiad yn y tymor byr, o gymharu â dulliau eraill anghorfforol;
- Nid yw cosbi plant heriol yn gorfforol yn fwy effeithiol na ffyrdd eraill o ddisgyblu wrth newid eu hymddygiad yn y tymor byr;
- Mae'r rhan fwyaf o ymchwilwyr yn y maes o'r farn bod cosbi corfforol o bob math ym mhob sefyllfa yn gallu bod yn niweidiol i blant.

3.48 O ran y cysylltiadau rhwng cosbi corfforol a chanlyniadau hynny i blant, mae'r adroddiad yn egluro bod cannoedd ar gannoedd o astudiaethau ac nad yw pob un ohonynt yn dod i'r un casgliadau. Barn awduron yr adolygiad yw:

> *"… the evidence does not definitively show that "reasonable" parental physical punishment causes negative outcomes. But there is evidence of an association with negative outcomes, and no evidence of benefits, either in terms of long-term developmental benefits, or in terms of its efficacy in influencing short-term changes to behaviour relative to other, non-physical means."*

### *(3) Legislating to Prohibit Parental Physical Punishment of Children, 2018*

3.49 Yn ôl cais cyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, roedd y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru wedi cynnal adolygiad am yr hyn y gellir ei ddysgu gan y gwledydd hynny sydd wedi deddfu i wahardd cosbi plant yn gorfforol, ac yn benodol i ystyried effaith y ddeddfwriaeth i wahardd cosb gorfforol a'r ffactorau sy'n gwneud deddfwriaeth o'r fath yn effeithiol neu'n aneffeithiol.

3.50 Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad ar 2 Tachwedd 2018 ac mae'n cynnwys y canfyddiadau canlynol:[36]

- **Mae cysylltiad rhwng deddfu ar gosb gorffol a newid agweddau tuag at ddefnyddio cosb gorffol a nifer yr achosion o gosb gorfforol.** Casgliadau'r adroddiad yw: *"The available evidence supports the view that legislating on physical punishment can contribute to changes in both attitudes towards, and the use of, physical punishment but that sustained information campaigns and support to parents are also needed for legislation to be effective."*

- **Rôl bwysig ymgyrchoedd gwybodaeth:** *"The conclusion drawn by almost all studies is that corporal punishment bans are associated with declining support for and practice of corporal punishment … but that it is often in combination with other factors (such as changing social policies) and direct causal connections cannot be proved. Information campaigns which are sustained and repeated are necessary, not only to raise awareness of the change, but also to allay fears about increased risks of prosecution for 'trivial' smacks and fears of increased compulsory intervention in family life."*

### *(4) Corporal punishment bans and physical fighting in adolescents: an ecological study of 88 countries (2018)*[37]

3.51 Roedd yr astudiaeth honno, a gyhoeddwyd yn BMJ Open, yn cynnwys sampl amrywiol o wledydd ac mae'n un o'r dadansoddiadau cydwladol mwyaf ar drais gan bobl ifanc – yn cynnwys mwy na 400,000 o gyfranogwyr. Defnyddiwyd data o astudiaeth Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol (HSBC) ac Arolwg Byd-eang o Iechyd Plant Ysgol (*Global School based Health Survey* [GSHS]), sy'n arolygon rhyngwladol o'r glasoed sydd wedi'u hen sefydlu.

3.52 Canfu'r astudiaeth:

- Bod cysylltiad rhwng gwahardd cosb gorfforol yn genedlaethol ym mhob lleoliad a llai o achosion o ymladd corfforol gan ferched a bechgyn y glasoed.

- Wrth edrych ar wledydd sydd wedi gwahardd cosbi corfforol yn rhannol, mae'r canlyniadau'n dangos bod gan y gwledydd hynny sy'n gwahardd cosbi corfforol mewn ysgolion ond nid yn y cartref (gan gynnwys Canada, UDA a'r DU) lai o achosion o ymladd na'r gwledydd hynny sydd heb wahardd cosbi corfforol hefyd, ond dim ond mewn perthynas â merched.

- Nid oedd gwahardd cosbi corfforol yn rhannol yn effeithio ar nifer yr achosion o ymladd gan fechgyn y glasoed. Awgrymodd yr ymchwilwyr y gallai hynny fod o ganlyniad i'r ffaith bod bechgyn, o'u cymharu â merched, yn ymwneud â mwy o achosion o drais corfforol y tu allan i leoliad yr ysgol, neu eu bod yn cael eu heffeithio'n wahanol gan gosb gorfforol gan athrawon.

- Mae gan yr astudiaeth rai cyfyngiadau: ni ellid casglu'r cysylltiadau achosol oherwydd y bylchau yn y data a chynllun yr astudiaeth, ac mae'n aneglur a oedd y gwaharddiadau'n achosi newid neu'n adlewyrchu *milieu* cymdeithasol sy'n rhwystro trais gan bobl ifanc.

- Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r canlyniadau'n awgrymu bod cysylltiad graddedig rhwng yr amrywiaeth eang o waharddiadau ar gosbi corfforol a nifer yr achosion o ymladd corfforol aml gan blant 13 oed, a bod y gwaharddiadau sy'n fwy cynhwysfawr yn gysylltiedig â llai o ymladd.

[37] https://bmjopen.bmj.com/content/8/9/e021616

**Cyd-fynd â pholisïau ac egwyddorion Llywodraeth Cymru**

3.53 Roedd y Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*[38] yn cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen, ar sail trawsbleidiol, â deddfwriaeth a fyddai'n dileu amddiffyniad cosb resymol.

3.54 Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn amlinellu nifer o fesurau sy'n anelu at wella iechyd a lles pawb, er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cyflawni eu potensial, bodloni eu dyheadau addysgol a chwarae rhan lawn yn economi a chymdeithas Cymru.

3.55 Wrth ddatblygu'r prif ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, mae *Ffyniant i Bawb* [39] yn pennu gweledigaeth ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys dileu amddiffyniad cosb resymol. Mae'r blynyddoedd cynnar yn un o'r pum maes blaenoriaeth sydd â gweledigaeth "i blant o bob cefndir gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd". Mae hynny hefyd yn gyson â'r farn am Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod. Mae pwysigrwydd sgiliau rhianta da'n cael ei gadarnhau gan y dystiolaeth fod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn gallu cael effaith negyddol a hirdymor ar iechyd, addysg a lles plant.

3.56 Mae *Ffyniant i Bawb* yn cydnabod bod rhianta hyderus, cadarnhaol a chryf yn hanfodol i baratoi plant ar gyfer bywyd, a bod darparu cymorth a chefnogaeth i rieni yn bwysig. Mae'r Bil yn cefnogi mabwysiadu dulliau cadarnhaol o rianta ac yn cyfrannu at nifer o'r nodau cenedlaethol sy'n ymwneud â lles unigolion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[40], gan gynnwys:

- Cymru iachach – mae'r dystiolaeth yn dangos bod rhianta cadarnhaol yn ffactor bwysig o ran sicrhau effeithiau cadarnhaol ar gyfer plant, o ran bod o fudd i'w hiechyd, eu hapusrwydd a'u lles, ac o ran rhoi sylfaen dda iddynt gyflawni eu potensial llawn fel oedolion (Robertson, 2017[41]; O'Connor a Scott, 2007[42]; Katz a Redmond, 2009[43]; Nixon, 2012[44]).

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – mae cyrff rhyngwladol ar hawliau dynol a chytuniadau fel Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r

[38] https://llyw.cymru/symud-cymru-ymlaen
[39] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf
[40] https://gweddill.gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy
[41] Robertson, L. (2017) "Literature review on outcomes of parental discipline styles, evidence on effective parenting styles and the international experience of prohibition of physical punishment in law". Glasgow: Scottish Centre for Crime and Justice Research
[42] O'Connor, T. a Scott, S. (2007) "Parenting and outcomes for children", Caerefrog: Sefydliad Joseph Rowntree
[43] Katz, I a Redmond, G. (2009) "Family income as a protective factor for child outcomes" Social Policy Review 21, Bryste: The Policy Press
[44] Nixon, E. (2012) "Growing Up In Ireland – How Families Matter For Social And Emotional Outcomes Of 9-Year-Old Children", Adran Plant a Materion Ieuenctid, Iwerddon, ISBN 978-1-4064-2646-5

Plentyn[45] a Chyngor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol[46], a Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod[47], wedi argymell rhoi terfyn ar bob math o gosb gorfforol, gan ddadlau ei bod yn treisio hawliau dynol plant. Byddai diwygio deddfwriaeth sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol yn y cartref yn unol ag erthygl 19 *("States Parties shall take all appropriate legislative, administrative, social and educational measures to protect the child from all forms of physical or mental violence...while in the care of parent(s), legal guardian(s) or any other person who has the care of the child.")* o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ( CCUHP)[48].

## Cefnogi'r broses o weithredu'r Bil

### *Cymorth i rieni*

3.57 Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ers tro bod angen cynnig cymorth i rieni yng Nghymru drwy raglenni rhianta sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Darparwyd y cymorth hwnnw'n bennaf drwy raglenni Dechrau'n Deg[49] a Teuluoedd yn Gyntaf[50] Llywodraeth Cymru, sy'n annog rhieni i fabwysiadu dull cadarnhaol o rianta. Mae rhai o'r rhaglenni hynny, fel Triple P a'r Blynyddoedd Rhyfeddol wedi'u gwerthuso'n annibynnol ac yn helaeth dros y 30 mlynedd ddiwethaf gan grwpiau amrywiol o rieni mewn nifer o wahanol wledydd. Dangoswyd mewn astudiaethau eu bod yn effeithiol wrth sicrhau dulliau rhianta gwell a mwy cadarnhaol, wrth leihau'r straen ar rieni, ac wrth leihau'r gwrthdaro ynghylch dulliau magu plant, yn ogystal â gwella ymddygiad plant. (Ceir rhestr o erthyglau ymchwil ar wefannau Triple P[51] ac Incredible Years[52]). Yn ychwanegol, mae Triple P a'r Blynyddoedd Rhyfeddol wedi'u hadolygu gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (EIF), ac wedi'u cynnwys yn eu arweinlyfr am raglenni ymyrryd yn gynnar[53] sydd wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol yn achos plant[54].

3.58 Ochr yn ochr â'r ymrwymiad i'r Bil, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ar amrediad o bynciau sy'n ymwneud â magu plant, gan gynnwys dulliau cadarnhaol y gellir eu defnyddio yn lle cosb gorfforol, a sut i ddelio â phroblemau rhianta cyffredin, fel dysgu defnyddio'r toiled neu'r poti, rheoli strancio ac ymddygiad amser bwyd.

---

45 https://www.ohchr.org/EN/Countries/ENACARegion/Pages/GBIndex.aspx
46 https://www.ohchr.org/EN/HRBodies/HRC/Pages/Home.aspx
47 https://www.ohchr.org/en/hrbodies/cedaw/Pages/CEDAWIndex.aspx
48 https://www.ohchr.org/en/professionalinterest/pages/crc.aspx
49 https://gweddill.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?skip=1&lang=cy
50 https://gweddill.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/families-first/?skip=1&lang=cy
51 https://pfsc-evidence.psy.uq.edu.au/
52 http://www.incredibleyears.com/for-researchers/evaluation/
53 https://guidebook.eif.org.uk/
54 Canfu adolygiad EIF o'r dystiolaeth fod y rhaglenni hynny'n dangos tystiolaeth o effaith gadarnhaol yn y tymor byr mewn o leiaf un gwerthusiad manwl lle gellir cynnig barn am yr achosiaeth.

3.59 Mae Canllawiau Cymorth i Rieni Llywodraeth Cymru[55] yn annog y rheini sy'n darparu cymorth i rieni i addasu'r rhaglenni fel eu bod yn bodloni anghenion ac amgylchiadau penodol rhieni a'r amcanion a nodwyd gan rieni. Dylai cymorth i rieni gael ei ddarparu mewn modd sy'n gwerthfawrogi ac yn defnyddio arbenigedd rhieni, ac sy'n gydnaws â'u credoau a'u gwerthoedd.

3.60 Ar draws Cymru, gall rhieni a gofalwyr gael hyd i amrywiaeth o wasanaethau i'w helpu. Caiff y rhain eu cynnig gan bartneriaid yn llywodraeth leol, yn y meysydd iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, cyfiawnder cymdeithasol ac yn y trydydd sector. Mae'r math o gymorth sydd ar gael yn cynnwys rhaglenni rhianta strwythuredig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer grwpiau; cymorth un-i-un; cymorth anffurfiol strwythuredig i rieni ar gyfer grwpiau; a chymorth anffurfiol galw heibio.

3.61 Mae cymorth yn cael ei roi ar adegau gwahanol yn ystod bywyd plentyn (o'r cyfnod cynenedigol hyd at oedran plentyn yn yr arddegau). Mae'r cymorth hwnnw'n amrywio o fod yn gymorth ar gyfer rhieni ag anghenion lefel isel i lefel uchel o gymorth dwys sydd wedi'i dargedu. Gall pob teulu ddefnyddio ystod o wasanaethau cyffredinol a ddarperir gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae darparwyr gofal plant ac ysgolion yn chwarae rôl hanfodol hefyd, o ran nodi'r plant a'r teuluoedd sydd ag anghenion ychwanegol a chefnogi rhieni er mwyn iddynt allu darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y cartref.

3.62 Dechreuodd ymgyrch Llywodraeth Cymru *Magu plant. Rhowch amser iddo* yn 2015[56]. Roedd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar roi cymorth, gwybodaeth a chyngor i deuluoedd â phlant hyd at 5 oed. Mae'r ymgyrch newydd, a lansiwyd ym mis Hydref 2018, yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni plant hyd at 7 oed. Mae'n hybu negeseuon am fagu plant yn gadarnhaol (rhianta cadarnhaol) drwy gyfryngau cymdeithasol ac argraffu a hysbysebu digidol. Mae gwefan benodedig a thudalen Facebook ar gael sy'n cynnig awgrymiadau i rieni ynghylch materion cyffredin fel strancio, amser mynd i'r gwely, amser bwyta a hyfforddiant poti, maent yn rhoi gwybodaeth a chyngor ac maent yn cyfeirio rhieni at ffynonellau cymorth eraill.

**Codi ymwybyddiaeth o ddarpariaethau'r Bil**

3.63 Bydd angen i rieni a'r rheini sy'n gweithredu â chyfrifoldeb rhiant fod yn ymwybodol o'r newid arfaethedig yn y gyfraith cyn i'r Bil ddod i rym.

3.64 Canfu adroddiad 2018 y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, sef *Legislating to Prohibit Parental Physical Punishment of Children,*[57] os nad oedd ymgyrch cyhoeddusrwydd yn cael ei gynnal ar y cyd â'r newid yn y gyfraith, neu os nad yw'r ymgyrch yn parhau am gyfnod digonol, mae ymwybyddiaeth o'r gyfraith newydd yn llai eang.

---

[55] https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/170519-parenting-in-wales-guidance-cy.pdf
[56] http://giveittime.gov.wales/?skip=1&lang=cy
[57] https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/parental-physical-punishment-child-outcomes-and-attitudes/

3.65 Felly, ochr yn ochr â'r ymgyrch presennol *Magu plant. Rhowch amser iddo*, rydym yn datblygu strategaeth ac ymgyrch cynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith, a fydd yn digwydd yn sgil pasio'r Bil. Caiff hynny ei drafod ymhellach yn Rhan 2 y memorandwm hwn (asesu’r effaith).

3.66 Bydd Llywodraeth Cymru yn meithrin ac yn cynnal cysylltiadau ag amrediad o unigolion a sefydliadau er mwyn helpu i sicrhau bod y partïon hynny sy'n cael eu heffeithio'n deall y newidiadau sy'n digwydd yn y ddeddfwriaeth.

## Pennod 4: Ymgynghori

4.1 Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ei lansio ar 9 Ionawr 2018[58], gyda'r bwriad o gael barn y cyhoedd a rhanddeiliaid a fyddai'n sail i ddatblygu'r Bil ymhellach ac ymdrin ag unrhyw bryderon wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei datblygu. Penderfynwyd peidio ag ymgynghori ar Fil drafft, oherwydd yr unig ddarpariaeth weithredol i Fil o’r fath fyddai gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol. Roeddem wedi ymgynghori ar y materion ehangach a oedd yn ymwneud â gweithredu darpariaeth o’r fath.

4.2 Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnwys saith cwestiwn, gan gynnwys a oedd ymatebwyr yn cytuno y byddai dileu amddiffyniad cosb resymol yn helpu i amddiffyn hawliau plant; yr effeithiau ar randdeiliaid (gan gynnwys rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid, a chyrff cyhoeddus a gweithwyr proffesiynol rheng flaen); deall ystyr y term cosb resymol a'r effaith ar y Gymraeg.

4.3 Roedd yr ymgynghoriad wedi'i ddosbarthu'n eang ar ffurf electronig a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac fe gafodd ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd y dogfennau'n cynnwys fersiwn hawdd i'w darllen a fersiwn i bobl ifanc. Hefyd, cafodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant eu cyhoeddi ar y cyd â'r dogfennau ymgynghori.

4.4 Cynhaliwyd digwyddiadau allanol i feithrin cysylltiadau â chynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid, y cyhoedd, a grwpiau o rieni a phobl ifanc yn ystod y cyfnod ymgynghori. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 2 Ebrill 2018. Cafwyd 1,892 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac roedd 274 o bobl wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau allanol i feithrin cysylltiadau. Cafodd dadansoddiad o'r ymatebion ei baratoi gan gontractiwr annibynnol[59].

4.5 Y prif gwestiwn a ofynnwyd oedd a oedd ymatebwyr yn cytuno y byddai'r cynnig yn helpu i gyrraedd y nod penodol o ddiogelu hawliau plant. Er na all y data a gasglwyd gynrychioli'r boblogaeth ehangach, roedd 50.3% o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai'r cynnig yn helpu i gyrraedd ein nod o ddiogelu hawliau plant; tra bo 48.1% yn anghytuno, a dywedodd 1.5% nad oeddent yn gwybod.

4.6 Er i nifer o ymatebwyr groesawu'r cynnig a rhoi gwybod eu bod o'r farn y byddai'n helpu i gyflawni'r nod o ddiogelu hawliau plant, roedd nifer hefyd wedi codi pryderon, gan gynnwys y posibilrwydd y gallai rhieni gael eu trin fel troseddwyr. Yn ogystal, roedd ymatebwyr wedi nodi y byddai angen codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth, fel bod rhieni'n ymwybodol o'r newid yn y gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol, ac y byddai hefyd angen i rieni allu cael cymorth i ddatblygu sgiliau rhianta. Bu nifer o sylwadau am yr effaith bosibl ar gyrff cyhoeddus, yn ychwanegol at

[58] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/180109-legislation-consultation-cy.pdf
[59] https://llyw.cymru/cynnig-deddfwriaethol-i-ddileu-amddiffyniad-cosb-resymol

y rhai hynny sydd eisoes wedi'u nodi yn y papur ymgynghori, neu a fyddai'n gofyn datblygu'r rheini sydd eisoes wedi'u nodi yn y papur. Codwyd pryderon hefyd am y dystiolaeth a gafodd ei hystyried gan Lywodraeth Cymru, a'r manylion ynghylch sut y byddai'r cynnig yn cael ei weithredu'n ymarferol.

4.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y pwyntiau hynny, ac wedi ymdrin â nhw, neu'n bwriadu ymdrin â nhw, fel a ganlyn:

**Cymorth i rieni**

4.8 Mae darparu gwybodaeth a chymorth i rieni a chodi ymwybyddiaeth o'r newid i'r ddeddfwriaeth yn rhan o'r cynllun i weithredu'r ddeddfwriaeth, ar y cyd â darparu cyngor a chymorth ar ddulliau cadarnhaol eraill yn lle cosbi corfforol. Cynigir y bydd cyfnod rhesymol ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol a chyn i'r trefniadau newydd ddod i rym, er mwyn caniatáu digon o amser i wneud hynny. Mae'r pecyn presennol o gymorth i rieni wedi'i amlinellu ym mharagraffau 3.55 i 3.60. Wrth baratoi ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth, byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru er mwyn ystyried pa gymorth arall sydd ei angen, os o gwbl, sy'n ychwanegol at yr hyn sydd wedi'i amlinellu uchod.

**Yr effaith ar rieni: y posibilrwydd o drin rhieni fel troseddwyr, ymyrraeth â bywydau preifat a hawliau teuluoedd**

4.9 Un o nodau'r strategaeth i godi ymwybyddiaeth fydd sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod rhieni yn ymwybodol o'r newid yn y gyfraith cyn iddi ddod i rym. Bydd hyn yn golygu eu bod mewn sefyllfa i ddewis peidio â chosbi eu plant yn gorfforol, gan osgoi cael eu cyhuddo o drosedd.

4.10 Mae'n bosibl y bydd rhai rhieni sy'n cosbi eu plant yn gorfforol yn cael eu cyhuddo o drosedd, eu herlyn mewn llys a'u cael yn euog, neu gallai datrysiad statudol y tu allan i'r llys gael ei gynnig iddynt a fyddai'n cael ei ddatgelu ar ffurf gwybodaeth am euogfarn pan wneir gwiriad manylach drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – a hynny mewn sefyllfaoedd lle y gallai amddiffyniad cosb resymol fod wedi bod ar gael o'r blaen. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi:

- nad yw'r amddiffyniad sydd eisoes yn bodoli yn amddiffyniad absoliwt: mae safon gyhuddo Gwasanaeth Erlyn y Goron[60] yn egluro'r cyfyngiadau ar argaeledd yr amddiffyniad, ac yn ei gwneud yn glir, hyd yn oed o fewn y cyfyngiadau hynny, fod yn rhaid i'r ymddygiad troseddol fod yn rhesymol ac yn gymedrol, a bod angen ystyried ffactorau fel natur a chyd-destun ymddygiad y diffynnydd, hyd cyfnod yr ymddygiad, y canlyniadau corfforol a meddyliol mewn perthynas â'r plentyn, oedran a nodweddion personol y plentyn, a'r rhesymau a roddir gan y diffynnydd dros gosbi'r plentyn.

[60] Mae canllawiau ar erlyn, sef 'Offences Against the Person, incorporating the Charging Standard' yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac ar gael drwy: https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/offences-against-person-incorporating-charging-standard

- yn dilyn dileu amddiffyniad cosb resymol, caiff ei chydnabod o dan y gyfraith gyffredin o hyd ei bod yn gyfreithlon ac yn angenrheidiol i rieni ymgymryd ag ymyriadau corfforol penodol â'u plant, er y byddai'r ymyriadau hynny yn gyfystyr â churo oni bai am y gydnabyddiaeth honno. Felly, byddai gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd, ac ymyriadau corfforol i ddiogelu'r plentyn neu eraill, o hyd yn gyfreithlon ar ôl dileu amddiffyniad cosb resymol.

4.11 Mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn rhanddeiliaid allweddol wrth weithredu'r newid arfaethedig hwn yn y gyfraith. Rydym wedi ymgynghori a chyfarfod â nhw ac â'r gwasanaethau cymdeithasol i fynd trwy eu prosesau ar gyfer ymdrin â chyhuddiadau o gosbi plant yn gorfforol. Nid yw'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gyrff sydd o fewn ein rheolaeth uniongyrchol, ond mae pob parti'n cytuno bod ymateb cymesur er budd pennaf y plentyn yn hanfodol.

**Yr effaith ar gyrff cyhoeddus**

4.12 I roi ystyriaeth i bryderon sy'n ymwneud â'r effaith bosibl ar gyrff cyhoeddus, rydym wedi meithrin cysylltiadau â chyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys yr heddlu a gwasanaethau cyhoeddus. Ar y cyd, rydym wedi ystyried yr effaith ar adnoddau ac ar y modd y gallent weithio i sicrhau bod prosesau'n cael eu rhoi ar waith yn gyson ar draws Cymru, fel bod gan rieni ddisgwyliad rhesymol o'r modd y bydd cyhuddiadau'n cael eu trin, lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

4.13 Bydd y gwaith hwn yn parhau wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy'r Cynulliad, ac yn benodol yn dilyn cael Cydsyniad Brenhinol (a bwrw bod y Bil yn cael ei basio gan y Cynulliad). I roi ystyriaeth i nifer y rhanddeiliaid a'r cysylltiadau cymhleth rhwng y cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig, mae angen cyfnod rhesymol rhwng cael Cydsyniad Brenhinol a chychwyn gweithredol y ddeddf i ganiatáu i unrhyw newidiadau i brosesau gael eu rhoi ar waith.

**Canllawiau/hyfforddiant i gefnogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen**

4.14 Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu meithrin cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r Bil. Gwneir hynny er mwyn sicrhau, os bydd y Bil yn cael ei basio, eu bod mewn sefyllfa i gyfathrebu am effaith y newid deddfwriaethol â'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw, a'u cefnogi i ddefnyddio dulliau eraill o arwain eu plant a phennu ffiniau. Gallai hynny gynnwys adolygu canllawiau neu hyfforddiant sydd eisoes yn bodoli, neu ddatblygu canllawiau a dulliau hyfforddi newydd.

4.15 Bydd gwaith paratoadol yn dechrau wrth i'r Bil fynd drwy broses ddeddfwriaethol y Cynulliad. Os bydd y Bil yn cael ei basio, caiff gwaith pellach ei wneud rhwng cael Cydsyniad Brenhinol a chychwyn gweithredol y ddeddf, fel bod cysondeb, cyhyd ag sy'n bosibl, mewn perthynas â darparu cyngor a chyfarwyddyd i rieni ar ddulliau eraill yn lle cosbi corfforol, a bod hynny ar waith ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen erbyn i'r

ddeddfwriaeth ddod i rym. Bydd hynny'n caniatáu i newidiadau i weithdrefnau diogelu gael eu cyfathrebu.

**Tystiolaeth**

4.16 Fel sydd wedi'i amlinellu ym mharagraffau 3.39 i 3.50, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried amrywiaeth o waith ymchwil, gan gynnwys gwaith ymchwil pellach a gyhoeddwyd ers i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi. Mae ein safbwyntiau ar yr ymchwil honno wedi'u hamlinellu yn y paragraffau hynny.

**Y manylion am weithredu'r cynnig**

4.17 Fel sydd wedi'i amlinellu uchod, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ymgynghori ac yn cydweithio ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Ym Mhennod 10 ceir gwybodaeth bellach am weithredu'r cynnig.

## Pennod 5: Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae’r Bil yn cynnwys un ddarpariaeth i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â hynny:

(i). y person neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo;

(ii). ar ba ffurf y mae’r pŵer i gael ei arfer;

(iii). priodoldeb y pŵer dirprwyedig;

(iv). y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu dyddiad dwyn darpariaethau yn y Bil i rym drwy orchymyn a wnaed gan offeryn statudol, a gallent wneud darpariaeth drosiannol, darfodol neu arbed mewn perthynas â dwyn darpariaeth yn y Bil i rym. | Dim gweithdrefn | Mae'r gorchymyn hwn yn ymwneud â chychwyn darpariaethau a ystyriwyd ac a basiwyd gan y Cynulliad. |

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil.

Mae Pennod 6 yn cynnwys crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae Pennod 7 yn disgrifio’r opsiynau a ystyriwyd mewn perthynas â’r cynnig i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol.

Mae Pennod 8 yn amlinellu dadansoddiad o’r costau a’r manteision posibl sy’n gysylltiedig â’r opsiynau.

Mae Pennod 9 yn darparu crynodeb o asesiadau effaith perthnasol eraill.

Mae Pennod 10 yn nodi cynlluniau’r adolygiad ar ôl gweithredu.

## Pennod 6: Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae'r tabl a ganlyn yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Bil yn gyfan. Cynlluniwyd y tabl i gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

<table>
<tr><td colspan="3">Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Yr opsiwn a ffefrir: Deddfu i gael gwared ag amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru (tudalennau 43 i 57)<br><br>Mae cyfanswm y gost a amcangyfrifwyd isod yn cael ei ddadansoddi fel a ganlyn:<br><br>Llywodraeth Cymru £1,286,000 - £2,716,000<br>Yr Heddlu £890,000<br>Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi Hyd at £70,000<br>Gwasanaeth Erlyn y Goron £11,000 - £20,000</td></tr>
<tr><td>Cyfnod: Cyflwyno</td><td>Cyfnod gwerthuso: 2019/20 - 2026/27</td><td>Blwyddyn sail brisiau: 2018/19</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm Cost<br>Cyfanswm: £ 2,258,000 - £3,696,000<br><br>Gwerth presennol:<br>£1,988,000 - £3,312,000</td><td>Cyfanswm Manteision<br>Cyfanswm: £0<br>Gwerth presennol: £0</td><td>Gwerth Presennol Net:<br>£-1,988,000 - £-3,312,000</td></tr>
</table>

## Cost weinyddol

<table>
<tr><td colspan="4">Costau:<br><br>Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn darparu safonau cyffredin sy'n rhoi arweiniad i waith amddiffyn plant ar gyfer pob bwrdd diogelu lleol yng Nghymru, ac ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd. Caiff y gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd, a disgwylir y bydd unrhyw newidiadau yn sgil y Bil yn rhan o'r cylch arferol o adolygiadau.<br><br>Nid ydym yn gwybod beth fydd y costau gweinyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid mewn perthynas â diweddaru canllawiau a hyfforddiant i staff, ond disgwylir iddynt fod y lleiaf posibl. Mae’n bosibl y bydd rhywfaint o gost am amser staff, ond mae’n debygol mai dim ond diweddariadau neu fân ddiwygiadau i ganllawiau a hyfforddiant sydd eisoes yn bodoli fydd eu hangen yn y mwyafrif o achosion. Caiff costau sy'n ymwneud â'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol eu hystyried gan y Grŵp Gweithredu.<br><br>Bydd gwaith Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r Bil yn arwain at gost o £1.286m - £2.716m, yn dibynnu ar ba mor ddwys y mae'r ymgyrch fel y'i disgrifir ym mharagraffau 8.23 – 8.27.</td></tr>
<tr><td>Pontio: £1,286,000 - £2,716,000</td><td>Rheolaidd: £0</td><td>Cyfanswm: £1,286,000 - £2,716,000</td><td>Gwerth Presennol: £1,169,000 - £2,486,000</td></tr>
<tr><td colspan="4">Arbedion costau:<br><br>Nid oes unrhyw arbedion ar gyfer costau gweinyddol wedi'u nodi.</td></tr>
<tr><td>Pontio: £0</td><td>Rheolaidd: £0</td><td>Cyfanswm: £0</td><td>Gwerth Presennol:0</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cost gweinyddu net: £1,286,000 - £2,716,000</td></tr>
</table>

## Costau cydymffurfio

| |
|---|
| Mae'r amcangyfrif gorau o gostau a ysgwyddir yn sgil gwasanaethau cyhoeddus a'r system gyfiawnder wedi'i nodi ym mharagraffau 8.28 – 8.42. Mae bodolaeth yr amddiffyniad yn golygu nad oes unrhyw ddata wedi'u cyhoeddi yng Nghymru a fyddai'n darparu llinell sylfaen ar gyfer lefelau presennol o 'gosb resymol'. Felly, bydd angen i'r amcangyfrifon gorau a ddarperir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod yn seiliedig ar waith casglu data a monitro cyn gweithredu'r ddeddfwriaeth ac ar ôl ei gweithredu er mwyn cael yr wybodaeth fwyaf cywir am yr effaith ar wasanaethau cyhoeddus a'r system gyfiawnder.<br><br>Mae cyfanswm y gost isod yn cynnwys yr amcangyfrifon gorau o'r gost i'r heddlu am ymateb i adroddiadau am ymosodiadau ar blant a fyddai ar hyn o bryd yn cael eu hystyried yn 'gosb resymol'; i'r system gyfiawnder ac i Wasanaeth Erlyn y Goron. Y gost a amcangyfrifir i'r heddlu yn ystod y cyfnod arfarnu yw £890,000, y gost i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yw hyd at £70,000, a'r gost i Wasanaeth Erlyn y Goron yw rhwng £11,000 ac £20,000. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pontio: £0** | **Rheolaidd: £971,000 - £980,000** | **Cyfanswm: £962,000 - £976,000** | **Gwerth Presennol: £819,000 - £826,000** |

## Costau eraill

| |
|---|
| Nid oes unrhyw gostau eraill y gellir eu meintioli wedi'u nodi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pontio: £0** | **Rheolaidd: £0** | **Cyfanswm: £0** | **Gwerth Presennol: £0** |

## Costau heb eu meintoli

Mae costau anhysbys yn cynnwys costau posibl ar gyfer y canlynol:

- Gwasanaethau cymdeithasol, o ganlyniad i gynnydd posibl yn nifer yr achosion sy'n cael eu cyfeirio atynt
- Llysoedd Teulu a Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) Cymru, o ganlyniad i gynnydd posibl yn nifer yr honiadau o ymosodiadau cyffredin ar blentyn neu blant rhieni sy'n ymwneud ag achos mewn llys teulu
- Gwasanaeth Erlyn y Goron, o ganlyniad i fwy o geisiadau o bosibl gan yr heddlu iddynt ddarparu cyngor sy'n ymwneud â chyhuddiadau
- Darparu ar gyfer achosion a fyddai'n cael eu datrys y tu allan i'r llys
- Adolygu'r hyfforddiant a'r canllawiau a gynigir gan sefydliadau sy'n ymwneud â diogelu plant, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiweddar

Nid yw wedi bod yn bosibl cyfrifo'r holl gostau posibl a allai godi yn sgil y Bil, oherwydd:

- Tystiolaeth brin neu ddiffyg tystiolaeth y gellir seilio graddau tebygol a realistig yr effaith arni;
- Gallai cost effaith bosibl amrywio yn ôl amgylchiadau unigol.

## Manteision ac anfanteision

.
Dyma rai o'r manteision:

- Helpu i amddiffyn hawliau plant drwy ddileu amddiffyniad cosb resymol
- Sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag cosb gorfforol yn yr un modd ag y mae oedolion
- Sicrhau bod lleoliadau yr ystyrir nad ydynt yn addysgol (lle caniateir i oedolion sy'n gweithredu in loco parentis ddefnyddio amddiffyniad cosb resymol ar hyn o bryd) yn cael eu trin yn yr un modd â lleoliadau addysgol
- Galluogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen i ddarparu cyngor diamwys i rieni am gosbi plant yn gorfforol

Mae anfanteision posibl (trafodir hyn ymhellach ym mharagraffau 9.3 i 9.4, ac Atodiadau 4 a 5) yn cynnwys:

- yr effaith bosibl ar riant sy'n cael ei gyhuddo o drosedd o ymosod cyffredin yn dilyn diddymu amddiffyniad cosb resymol
- yr effaith bosibl ar blentyn rhiant sy'n cael ei arestio neu ei gyhuddo yn y modd hwnnw.

| **Cyfanswm: £0** | **Gwerth Presennol: £0** |
|---|---|

## Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol

Nod y Bil yw helpu i amddiffyn hawliau plant, yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i CCUHP, a galwadau gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a sefydliadau rhyngwladol eraill i ddileu amddiffyniad cosb resymol.

Mae ymchwil a thystiolaeth allweddol a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u cynnwys ym Mhennod 3, paragraffau 3.39 i 3.50. I grynhoi:

- Mae’r rhan fwyaf o ymchwilwyr yn y maes o’r farn bod cosbi corfforol o bob math ym mhob sefyllfa yn gallu bod yn niweidiol i blant[61]
- Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod agweddau rhieni tuag reoli ymddygiad plant yng Nghymru yn newid, ac mae nifer lai o rieni i blant ifanc yn gefnogol o gosbi plant yn gorfforol yn 2017 o'i chymharu â'r nifer yn 2015[62]
- Er nad oes unrhyw dystiolaeth bendant bod cosbi corfforol 'rhesymol' gan rieni yn arwain at ganlyniadau negyddol i blant, mae yna dystiolaeth ei bod yn gysylltiedig â chanlyniadau negyddol[63]
- Nid oes unrhyw dystiolaeth ddibynadwy bod manteision o ran datblygiad hirdymor i gosbi corfforol ‘rhesymol’, na’i fod yn fwy effeithiol o ran newid ymddygiad yn y tymor byr, o gymharu â dulliau anghorfforol[64]
- Gall deddfu ar gosbi corfforol gyfrannu at newid agweddau tuag at gosbi corfforol ac at ddefnyddio cosb gorfforol, ond mae angen ymgyrchoedd gwybodaeth a chymorth y gellir eu cynnal ar gyfer rhieni hefyd er mwyn i'r ddeddfwriaeth fod yn effeithiol. [65]

[61] https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/parental-physical-punishment-child-outcomes-and-attitudes/
[62] https://llyw.cymru/agweddau-rhieni-tuag-reoli-ymddygiad-plant-ifanc-2017
[63] https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/parental-physical-punishment-child-outcomes-and-attitudes/
[64] https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/parental-physical-punishment-child-outcomes-and-attitudes/
[65] https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/deddfwriaethu-i-wahardd-rhiant-rhag-cosbi-plant-yn-gorfforol/

# Pennod 7: Yr Opsiynau

7.1 Dim ond dau opsiwn a gyflwynir at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Nod y polisi yw gwahardd cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru drwy ddiddymu amddiffyniad cosb resymol. Dim ond drwy newid yn y gyfraith y gellir gwneud hyn. Yr unig ddau opsiwn, felly, yw dwyn ymlaen ddeddfwriaeth i newid y gyfraith, neu wneud dim.

**Opsiwn 1: Gwneud dim a chadw amddiffyniad cosb resymol**

7.2 "Gwneud dim". Byddai opsiwn gwneud dim yn golygu na fyddai Llywodraeth Cymru yn diddymu amddiffyniad cosb resymol o'r gyfraith yng Nghymru. Ni fyddai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno a byddai'r trefniadau presennol yn parhau.

**Opsiwn 2: Cyflwyno Bil i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru**

7.3 Byddai'r Bil yn diddymu amddiffyniad cosb resymol, sy'n agored i rieni ar hyn o bryd fel amddiffyniad ar gyfer troseddau o ymosod ar blentyn dan eu gofal neu ei guro. Ni fyddai'n creu trosedd newydd. Effaith y ddeddfwriaeth fyddai gwahardd rhieni yng Nghymru rhag rhoi cosb gorfforol i'w plant.

7.4 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

## Cyflwyniad i Benodau 8 a 9

8.1 Mae Pennod 8 yn ystyried y ddau opsiwn a nodwyd ym Mhennod 7. Bydd y Bil yn cael gwared ag amddiffyniad cosbi plant yn rhesymol, sy'n bodoli o dan y gyfraith drosedd a'r gyfraith sifil, mewn perthynas â Chymru.

8.2 Rydym wedi nodi effeithiau posibl ar nifer o gyrff ac unigolion os caiff y Bil ei basio a dod i rym. Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft[66], ynghyd â'r ymgynghoriad ar y cynnig deddfwriaethol ym mis Ionawr 2018. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed i baratoi ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft, ac mae'n rhoi ystyriaeth i ganlyniad yr ymgynghoriad, gwaith ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid a thystiolaeth ymchwil newydd. O ganlyniad i hynny, datblygwyd dadansoddiad o'r costau, y manteision a'r anfanteision.

8.3 Efallai y bydd costau ynghlwm wrth rai o'r effeithiau posibl, ac mae adran costau a manteision yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym Mhennod 8 yn trafod yr amcangyfrifon gorau o'r costau hyn.

8.4 Drwy gydol y ddogfen, mae'r ffigurau yn rhai blynyddol ac yn berthnasol i Gymru gyfan oni nodir yn wahanol. Mae'r costau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf oni nodir yn wahanol. Efallai na fydd rhai o'r ffigurau yn y tablau yn cyd-fynd yn hollol oherwydd y talgrynnu hwn. Ni ddisgwylir i'r Bil effeithio'n uniongyrchol ar fusnesau yng Nghymru.

8.5 Nid yw'n bosibl meintioli holl effeithiau posibl y Bil neu gyfrifo gwerth ariannol penodol am y rhesymau canlynol:

- Mewn rhai achosion, mae effaith yn ddamcaniaethol bosibl, ond mae'r dystiolaeth sydd ar gael fel sail i fesur graddfa realistig, debygol yr effaith yn gyfyngedig, os oes tystiolaeth o gwbl; er enghraifft, graddfa debygol yr effaith o ran cynnydd yn yr achosion a gyfeirir i'r gwasanaethau cymdeithasol; a/neu
- Gallai cost effaith bosibl amrywio yn ôl yr amgylchiadau unigol; er enghraifft, byddai cost yr effaith ar blentyn yn sgil rhoi rhybuddiad i riant neu ei ddyfarnu'n euog am ymosodiad cyffredin yn dibynnu ar p'un a yw'n gweithio mewn gwaith a reoleiddir neu a allai fod yn dymuno gweithio mewn gwaith a reoleiddir yn y dyfodol.

8.6 Nid ydym wedi ceisio cyfrifo gwerth ariannol mewn perthynas â'r dymuniad i newid diwylliant yn sgil y Bil, gan leihau'r arfer o gosbi plant yn gorfforol ac i ba raddau y caiff hynny ei dderbyn. Rydym wedi cyfrifo gwerth ariannol dau ddull a ddefnyddiwn i geisio sicrhau newid diwylliannol - sef codi ymwybyddiaeth a rhoi cymorth i rieni wrth fagu eu plant.

8.7 Mae Pennod 9 yn crynhoi'r asesiadau effaith ychwanegol a gynhaliwyd gennym.

[66] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/180109-legislation-regulatory-cy.pdf

8.8 Er mwyn rhoi cyd-destun i benodau 8 a 9, rydym wedi rhoi manylion pellach am y prosesau a'r gweithdrefnau perthnasol a ddilynir gan randdeiliaid ar hyn o bryd, ac am yr effaith bosibl ar rieni, yn Atodiad 4. Yr effaith bosibl ar blant yw testun asesiad arall, sef asesiad o'r effaith ar hawliau plant, ac fe'i crynhoir ym Mhennod 9. Yn Atodiad 5, ceir disgrifiad o brosesau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a sut y byddai rhybuddiad, datrys mater y tu allan i'r llys, neu ddyfarnu unigolyn yn euog am ymosod ar blentyn yn cael eu trin at ddibenion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

8.9 Fel yr amlinellir ym Mhennod 10, caiff Grŵp Gweithredu ei sefydlu i ystyried i ba raddau y gallai fod angen diwygio'r prosesau neu'r canllawiau cyfredol, a sut i godi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a fydd yn gysylltiedig â gweithredu'r newid yn y gyfraith.

# Pennod 8: Costau a Manteision

## Opsiwn 1: Gwneud dim

### Disgrifiad

8.10 O dan yr opsiwn hwn, byddai amddiffyniad cosb resymol yn cadw'i le yn y gyfraith yng Nghymru fel ag y mae ar hyn o bryd.

8.11 Wrth ddadansoddi costau a manteision yr opsiwn hwn, rhagdybir y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi ar yr un lefel yn y cymorth eang a roddir ar hyn o bryd i rieni, gofalwyr a theuluoedd dros gyfnod y tymor Cynulliad hwn. Byddai negeseuon allweddol am fanteision rhianta cadarnhaol yn parhau i gael eu rhannu, ond byddai amddiffyniad cosb resymol yn parhau. Byddai cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, felly, o fewn cyfyngiadau adran 58 o Ddeddf Plant 2004, yn dal i fod yn gyfreithlon.

8.12 Caiff y cymorth a roddir ar hyn o bryd ei amlinellu ym mharagraffau 3.55 i 3.60 o'r memorandwm esboniadol hwn. Mae'n cynnwys rhaglenni rhianta sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a chymorth uniongyrchol a ariennir drwy raglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru; gwasanaethau i hyrwyddo rhianta cadarnhaol a ddarperir gan bartneriaid mewn llywodraeth leol ac ym meysydd iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, cyfiawnder cymdeithasol a'r trydydd sector; gwasanaethau cyffredinol a ddarperir gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd; a gwybodaeth a chyngor a ddarperir drwy ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo*[67] Llywodraeth Cymru.

### Costau

8.13 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1 gan mai hwnnw yw opsiwn "gwneud dim".

8.14 O dan opsiwn 1 rydym yn rhagweld y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cymorth i rieni, gofalwyr a theuluoedd yng Nghymru. Mae'r tabl isod yn nodi rhai o'r ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r cymorth hwn.

[67] https://giveittime.gov.wales/?skip=1&lang=cy

| Rhaglen / Gweithgaredd | Cost |
|---|---|
| Gwasanaeth ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol i blant o'u geni hyd nes eu bod yn 7 oed. | Mae’r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod 884.7 o ymwelwyr iechyd cyfwerth ag amser llawn ac 87.1 o nyrsys ysgol cyfwerth ag amser llawn yn gweithio yng Nghymru ar 30 Medi 2017 (StatsCymru[68]). |
| Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant o dan 4 oed sy’n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Yn ychwanegol at gael cymorth mewn perthynas â magu plant, mae gan rieni a gofalwyr yn ardaloedd Dechrau'n Deg yr hawl i ymweliadau iechyd dwys, gofal plant rhan-amser o ansawdd da ar gyfer plant 2-3 oed, a chymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu plant. Mae gan y rhaglen darged i gyrraedd 36,000 o blant (tua 25% o'r boblogaeth o dan 4 oed) - mae wedi rhagori ar y targed hwn yn ystod y pedair blynedd diwethaf. | Yn 2017-18, cyfanswm y gwariant refeniw ar raglen Dechrau'n Deg oedd £75.012m. |
| Mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithredu'n lleol, gyda phob awdurdod lleol yn mynd ati i gomisiynu prosiectau'n strategol i ymateb i anghenion poblogaethau lleol. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi rhieni mewn sawl ffordd - o ddarparu gwybodaeth a chyngor i ddarparu ymyriadau rhianta sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae prosiectau sy'n cynnig mynediad at ymyriadau rhianta neu wasanaethau cymorth i rieni yn cynnwys amrediad o oedrannau, o'r cyfnod cyn geni i blant a phobl ifanc. | Yn 2017-18, cyfanswm y gwariant refeniw ar raglen Teuluoedd yn Gyntaf oedd £38.612m. |

[68] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/Non-Medical-Staff/nonmedicalnhsstaff-bystaffgroup-grade-year

| Rhaglen / Gweithgaredd | Cost |
|---|---|
| Lansiwyd yr ymgyrch “Mae addysg yn dechrau yn y cartref” ym mis Mai 2014 a’i nod yw ceisio annog rhieni a gofalwyr i gymryd diddordeb yn addysg eu plentyn drwy wneud pethau syml, fel darllen gyda’u plentyn a gwneud yn siŵr ei fod yn cael brecwast iach. | Cyfanswm y gwariant ar yr ymgyrch yn 2017-18 oedd £90k. |
| Lansiwyd ymgyrch "Magu Plant. Rhowch amser iddo" ym mis Tachwedd 2015, ac mae'n targedu pawb sy'n gyfrifol am fagu plant hyd at 5 mlwydd oed. Cafodd ei hail-lansio ym mis Hydref 2018, ac estynnwyd yr ystod oedran i 7. Mae'n anelu at sicrhau bod gan rieni'r adnoddau i'w helpu i fod yn gystal rhieni ag y gallant. Gwneir hynny drwy wefan ac ymgyrch ar y cyfryngau sy'n cynnig cynghorion a gwybodaeth am fagu plant.<br><br>Mae 80,000 a mwy o lyfrynnau a chyfres o daflenni gwybodaeth am ystod o bryderon rhianta wedi’u darparu i ymwelwyr iechyd, gweithwyr rhianta proffesiynol a’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd er mwyn eu dosbarthu i rieni. Darparwyd gwybodaeth hefyd drwy leoliadau gofal plant, meddygfeydd teulu a llyfrgelloedd. | Cyfanswm y gwariant ar yr ymgyrch yn 2017/18 oedd £163k. |

**Manteision**

8.15 Nid oes unrhyw newidiadau i’r sefyllfa bresennol. Ni fyddai unrhyw gost ychwanegol i Lywodraeth Cymru, felly.

8.16 Yn yr un modd, ni fyddai unrhyw gost ychwanegol i wasanaethau cyhoeddus a’r system gyfiawnder yn sgil cynnydd yn nifer yr adroddiadau o ymosodiadau cyffredin ar blant yn dilyn cael gwared ag amddiffyniad cosb resymol.

**Anfanteision**

8.17 Dyma rai o'r anfanteision:

- Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r amcan polisi a nodwyd ganddi, sef helpu i ddiogelu hawliau plant drwy ddiddymu cosbi plant yn gorfforol gan eu rhieni. Mae hyn yn anghydnaws â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a bydd yn gadael Cymru, fel rhan o'r DU, yn agored i feirniadaeth bellach gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn am beidio â chyflawni ei rhwymedigaethau o dan Erthygl 19 (diogelu rhag pob math o drais).

- Byddai plant yn parhau i gael eu diogelu'n llai nag oedolion o ran cosb gorfforol.

- Byddai gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn parhau i fethu â rhoi cyngor cwbl glir i rieni ynghylch cosbi plant yn gorfforol oherwydd yr amddiffyniad sy'n bodoli.

- Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r effaith a fwriedir, sef lleihau'r arfer o gosbi corfforol ymhlith rhieni yn y ffordd a awgrymir yn adroddiad y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru ar ddeddfu i wahardd cosbi plant yn gorfforol gan eu rhieni[69].

[69] https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/11/181101_PPIW-REPORT-Legislating-to-Prohibit-Parental-Punishment.pdf

## Opsiwn 2: Deddfu i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol

### Disgrifiad

8.18 O dan opsiwn 2, bydd deddfwriaeth yn diddymu amddiffyniad cosb resymol fel na fydd yn agored i rieni yng Nghymru sy'n wynebu cyhuddiad o ymosod ar blentyn/plant dan eu gofal neu ei guro/eu curo (i gael gwybod mwy, gweler paragraffau ii – v yng Nghrynodeb Rhan 1, a Phennod 3, paragraffau 3.11 i 3.23 ar weithredu'r amddiffyniad cyfredol, a 3.28 i 3.30 ar fwriad ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth).

8.19 Yn sgil diddymu amddiffyniad cosb resymol, bydd angen i unrhyw gorff a gwasanaeth cyhoeddus sy'n ymwneud â diogelu plant adolygu ei ganllawiau a'i hyfforddiant i sicrhau bod ei bolisïau a'i weithdrefnau yn gyfoes. Bydd yn rhaid i'r system gyfiawnder, gwasanaethau cyhoeddus, e.e. rhai gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd, gwasanaethau addysg gan gynnwys ysgolion a rhai cyrff trydydd sector fod yn ymwybodol o'r newid yn y gyfraith. Bydd angen iddynt sicrhau bod eu harferion a'u prosesau yn adlewyrchu'r newid yn y gyfraith yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ymhlith eu cyflogeion drwy hyfforddiant a chanllawiau. Disgwylir i unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant a chanllawiau o'r fath fod yn isel iawn (gweler paragraffau 8.38 i 8.42 i gael rhagor o wybodaeth).

8.20 Y gwasanaethau cyhoeddus a'r heddlu sy'n debygol o weld y prif effeithiau. Ychydig yw'r dystiolaeth a gyhoeddwyd am yr effeithiau ar wasanaethau cyhoeddus mewn gwledydd eraill sydd wedi gwneud newidiadau deddfwriaethol tebyg. Mae yna dystiolaeth o Seland Newydd lle mae'r heddlu wedi cyhoeddi data am niferoedd yr achosion a gofnodwyd yn ystod y tri mis cyn y newid yn y gyfraith ac yn ystod y pum mlynedd wedi hynny[70]. Mae'r data a gyhoeddwyd yn dynodi bod cynnydd yn yr achosion o gosbi corfforol a gofnodir yn debygol yn sgil y newid yn y gyfraith ac ymwybyddiaeth o'r newid hwnnw; ond mae yna wahaniaethau rhwng sefyllfa Seland Newydd a Chymru y mae'n rhaid eu cadw mewn cof wrth gymharu'r ddwy wlad.

### Costau

8.21 Paratowyd yr wybodaeth sydd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drwy drafod gyda'r rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol a phedwar heddlu Cymru, a thrwy ymchwilio i ddata o wledydd eraill ar effaith mesurau y maent wedi'u cymryd i wahardd cosbi plant yn gorfforol. Disgwylir i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol ddechrau 2020, ac felly mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried y costau a'r manteision a fydd yn berthnasol i chwarter olaf 2019-20. Mae'r cyfnod arfarnu yn para tan 2026-27. Ystyrir bod yr amserlen hon yn ddigonol er mwyn mesur y costau sy'n gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth, a'r costau hynny i randdeiliaid yn y cyfnod ar ôl cychwyn y ddeddfwriaeth. Defnyddiwyd cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EM o 3.5% i gyfrifo'r gwerthoedd presennol.

[70] http://www.police.govt.nz/about-us/publication/crimes-substituted-section-59-amendment-act-2007

8.22 Ac eithrio Gorchymyn Cychwyn, ni fydd unrhyw is-ddeddfwriaeth yn deillio o'r Bil, ac felly ni chyfeirir at unrhyw gostau sy'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth.

## Llywodraeth Cymru

8.23 O dan opsiwn 2, byddai costau ychwanegol yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith.

8.24 Fe wnaeth adroddiad gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru ar ddeddfu i wahardd rhieni rhag cosbi eu plant[71] yn gorfforol dynnu sylw at brofiad gwledydd eraill, a oedd yn dangos bod newid yn y gyfraith, ynghyd ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a chynnig cymorth i rieni, yn gallu arwain at leihad mewn cosbi corfforol a newid agweddau. Lle mae ymgyrchoedd wedi bod yn llai dwys, mae yna duedd debyg am i lawr, ond mae'r effaith yn fwy cyfyngedig[72].

8.25 Roedd adroddiad y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru ar ddeddfu i wahardd rhieni rhag cosbi eu plant yn gorfforol yn tanlinellu pwysigrwydd sicrhau bod deddfwriaeth a chyfathrebu yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd wrth gyflawni amcanion polisi. Canfu'r adroddiad hefyd, os nad oedd ymgyrch cyhoeddusrwydd yn cael ei chynnal ar y cyd â newid yn y gyfraith, neu os nad oedd ymgyrch yn parhau am gyfnod digonol, fod ymwybyddiaeth o'r gyfraith newydd yn llai eang. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried codi ymwybyddiaeth dros gyfnod hir, nid dim ond yn ystod y cyfnod cyn cychwyn y ddeddfwriaeth, ond wedi hynny hefyd, er mwyn cadarnhau negeseuon am ddulliau gwahanol i gosbi corfforol ac am ffyrdd cadarnhaol o osod ffiniau i blant[73].

8.26 Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod, felly, bod rhaid i newid yn y gyfraith ddigwydd law yn llaw â phroses o godi ymwybyddiaeth dros gyfnod hir yng Nghymru. Gellir dysgu gwersi am y ffordd orau o wneud hyn o ymgyrchoedd sydd wedi cyd-fynd â deddfwriaeth yma yng Nghymru a thu hwnt:

- Yn Seland Newydd, er enghraifft, mae SKIP ('Strategies with Kids, Information for Parents'), rhaglen a ariennir gan y llywodraeth, yn hyrwyddo rhianta cadarnhaol drwy brosiectau cymunedol, drwy nifer o sianeli cyfryngau a thrwy wefan. Dywedodd rhieni a'r rheini sy'n gofalu am blant a gyfwelwyd fel rhan o adolygiad o raglen SKIP[74] eu bod wedi

---

[71] Public Policy Institute for Wales (2018) 'Legislating to Prohibit Parental Physical https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/11/181101_PPIW-REPORT-Legislating-to-Prohibit-Parental-Punishment.pdf

[72] Heilmann, A., Kelly, Y., a Watt, R. C. (2015) "Equally Protected? A review of the evidence on the physical punishment of children" [ar-lein]. Ar gael o: https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/equally-protected.pdf [Cafwyd mynediad: 12 Rhagfyr 2017]; Bussmann, K D; Erthal, C; Schroth, A (2011) "The Effect of Banning Corporal Punishment in Europe: A Five-Nation Comparison"

[73] Keating, yr Athro Heather (2018), Prifysgol Sussex, "Legislating to Prohibit Parental Physical Punishment of Children," Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Ar gael o: https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/deddfwriaethu-i-wahardd-rhiant-rhag-cosbi-plant-yn-gorfforol/

[74] Y Weinyddiaeth Datblygiad Cymdeithasol (2009), "Strategies with Kids – Information for Parents (SKIP) What it is and why it works", Gweinyddiaeth Datblygiad Cymdeithasol Seland Newydd

ymgorffori egwyddorion disgyblu effeithiol SKIP yn eu perthynas â'u plant a'u bod yn llwyddo i fod yn rhieni/gofalwyr mwy effeithiol a hyderus.

- Parodd yr ymgyrch smygu ail law mewn ceir am 2 flynedd ac 1 mis, o 2012-2015, gan gostio £1.75 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys hysbysebu ar y teledu, radio, yn y cyfryngau print, drwy amrywiaeth o sioeau teithiol a digwyddiadau a gwefan. Lledaenwyd negeseuon ymysg rhwydweithiau sy'n bodoli'n barod hefyd, yn cynnwys Cydgysylltwyr Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, a gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

- Cafodd yr ymgyrch ynghylch y newid yn y gyfraith rhoi organau yng Nghymru ei chynnal dros gyfnod o 6 mlynedd, gyda chyfanswm y gost yn £4.08 miliwn. Dechreuodd gweithgarwch cyfathrebu yn 2013 gyda mwyafrif llethol y gwario'n digwydd yn y cyfnod rhwng cael Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) yn 2013 a phan ddaeth y ddeddf i rym yn 2015. Roedd ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd yn gynhwysfawr a chafodd negeseuon eu lledaenu ar draws amrywiaeth eang o sianeli cyfryngau a thrwy ddogfennau ategol a anfonwyd i bob cartref yng Nghymru. Erbyn i'r ymgyrch gyrraedd ei hanterth, roedd 82% o bobl yn ymwybodol o'r newidiadau a oedd yn digwydd i'r system rhoi organau (o gymharu â man cychwyn o 58%)[75].

8.27 Mae'r tabl isod yn cynrychioli tri opsiwn ar gyfer strategaeth codi ymwybyddiaeth dwysedd isel, canolig ac uchel y gellid eu defnyddio i gefnogi'r ddeddfwriaeth i gael gwared ag amddiffyniad cosb resymol.

| | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Opsiwn A | Byddai ymgyrch dwysedd isel yn caniatáu ar gyfer dau gyfnod o weithgarwch y cytunir arno bob blwyddyn. |
| Opsiwn B | Ymgyrch dwysedd canolig bob blwyddyn, â dau neu dri chyfnod sylweddol o weithgarwch y cytunir arno bob blwyddyn. |
| Opsiwn C | Ymgyrch dwysedd uchel, â chyfnodau sylweddol o weithgarwch y cytunir arno bob chwarter o'r flwyddyn sy'n arwain at gychwyn y ddeddfwriaeth, ac wedi hynny. |

8.28 Mae'r tabl isod yn dangos y costau posibl dros gyfnod o 7 mlynedd ar sail y tri opsiwn gwahanol a nodwyd uchod. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y ceir Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2020; mae blwyddyn 2019/20, felly, ond yn cynnwys cyfnod o ddau neu dri mis. Amcanffigurau yw'r rhain; eir ati i gynllunio'n fanwl yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20. Wrth gynllunio i godi ymwybyddiaeth dros gyfnod, bydd angen ystyried y gwaith ymchwil a gwerthuso.

[75] Llywodraeth Cymru / Ymchwil Beaufort (2016), "Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd ar Roi Organau: Tonnau 10, 11 a 12." Ar gael o: https://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160905-survey-public-attitudes-organ-donation-waves-10-11-12-cy.pdf

8.29 Bydd yna rai costau cyfathrebu yn codi cyn cael Cydsyniad Brenhinol; yn eu plith, staffio, ymchwil a datblygu, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

| **Blwyddyn Ariannol** | **Opsiwn A** | **Opsiwn B** | **Opsiwn C** |
|---|---|---|---|
| 2019/20 | £50,000 | £50,000 | £50,000 |
| 2020/21 | £200,000 | £400,000 | £600,000 |
| 2021/22 | £200,000 | £600,000 | £800,000 |
| 2022/23 | £170,000 | £200,000 | £300,000 |
| 2023/24 | £100,000 | £200,000 | £200,000 |
| 2024/25 | £50,000 | £100,000 | £150,000 |
| 2025/26 | £50,000 | £100,000 | £150,000 |
| 2026/27 | - | - | - |
| Costau Staffio LlC (6 mlynedd a 3 mis) | £466,000 | £466,000 | £466,000 |
| **Cyfanswm** | £1,286,000 | £2,116,000 | £2,716,000 |

*Efallai na fydd y ffigurau yn cyd-fynd yn hollol am eu bod wedi'u talgrynnu. Cyfrifwyd y cyfansymiau gan ddefnyddio ffigurau heb eu talgrynnu.*

8.30 Mae'r costau uchod yn cynnwys cost cytundeb cyfathrebu ag asiantaeth gyfathrebu allanol; caiff y cytundeb a phob gweithgarwch i godi ymwybyddiaeth eu rheoli a'u cydlynu gan staff Llywodraeth Cymru. At ddibenion yr opsiwn hwn rydym yn rhagweld staff sy'n cyfateb i un swydd Swyddog Gweithredol Uwch (HEO) amser llawn ac un swydd Uwch-swyddog Gweithredol (SEO) rhan-amser.

8.31 Cost gros un HEO amser llawn y flwyddyn yw £45,644 a chost gros un SEO amser llawn y flwyddyn yw £57,977, ar sail pwynt canol cyfredol y raddfa gyflog. Felly, y gost staffio gros flynyddol i Lywodraeth Cymru fyddai tua £75,000. Rhagwelir y byddai angen yr adnodd hwn am 6.25 o flynyddoedd (pe bai newid yn y gyfraith) ac, wedi hynny, y byddai'r swyddi'n cael eu defnyddio at ddibenion gweithgareddau busnes arferol y timau.

## Yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r System Gyfiawnder

8.32 Er ein bod yn rhagweld y bydd hyn yn effeithio ar y system gyfiawnder, ac ar yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, mae darogan yr union effaith ar adnoddau a'r gost gysylltiedig yn gymhleth am y rhesymau canlynol:

| | Y data sy'n ofynnol i asesu effaith ar sefydliad | Cyfyngiadau'r data |
|---|---|---|
| 1 | nodi data priodol i greu cofnod o'r achosion a gyfeiriwyd i'r heddlu yng Nghymru | O dan eu harferion adrodd a chofnodi presennol, ni chaiff ymosodiadau honedig ar lefel cosbi plant yn rhesymol eu cofnodi ar wahân. Mae hyn wedi creu heriau wrth geisio gwahanu'r data sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol lle byddai amddiffyniad cosb resymol yn berthnasol.<br><br>Ar hyn o bryd, mae ystadegau'r Swyddfa Gartref ar droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn darparu data ar nifer yr achosion o ymosodiadau cyffredin a churo (o dan gategori bras troseddau Trais heb Anaf, sy'n cynnwys nifer o wahanol droseddau o dan y pennawd hwn). Ni nodir oedran y dioddefwr na pherthynas y troseddwr â'r dioddefwr. Nid yw, felly, yn ein galluogi i ddarparu data ar nifer y troseddau lle gallai rhieni fod wedi defnyddio'r amddiffyniad dan sylw. Mae'r ystadegau hyn hefyd yn darparu data ynghylch troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu o greulondeb i blant (Trais heb Anaf) o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (adran 1). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ymwneud â lles plant, ond nid yw wedi'i chyfyngu i gosb gorfforol. Mae'n cynnwys nifer o droseddau eraill, gan gynnwys esgeulustod ac unrhyw beth a allai achosi dioddefaint neu anaf i iechyd. |
| 2 | nodi data priodol i greu cronfa o achosion a gyfeiriwyd i'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru | Rydym wedi gweithio gyda'n cydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol i geisio sefydlu ffigur sylfaenol. Nid yw awdurdodau lleol, o reidrwydd, yn cofnodi manylion penodol achos a gyfeiriwyd neu adroddiad am achos ar ffurf chwiliadwy yn y lle cyntaf. Fel rheol, caiff manylion pob achos, cofnod neu adroddiad unigol eu sefydlu'n nes ymlaen yn y broses. Mae hyn wedi creu heriau wrth geisio gwahanu'r data sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol lle byddai amddiffyniad cosb resymol yn berthnasol. Mae systemau cofnodi achosion y 22 o awdurdodau lleol yn gwahaniaethu, er enghraifft mae rhai yn cofnodi o dan gategori diogelu plant, eraill o dan gategori lles plant neu gategorïau eraill. |

| | Y data sy'n ofynnol i asesu effaith ar sefydliad | Cyfyngiadau'r data |
|---|---|---|
| 3 | data priodol i greu cronfa o achosion o ymosodiadau ar lefel cosbi plant yn rhesymol a erlynnir yn llysoedd Cymru yn dilyn y newid yn y gyfraith | Cyn mynd ati i erlyn, byddai Gwasanaeth Erlyn y Goron yn asesu honiad o ymosodiad corfforol ar blentyn. Os bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron o'r farn bod yr amddiffyniad yn berthnasol ac nad oes unrhyw sail arall dros erlyn, yn ôl pob tebyg ni fydd yr achos yn mynd i'r llys. Ni chaiff data eu cyhoeddi fel mater o drefn am y nifer o weithiau y defnyddiwyd yr amddiffyniad, ond fel rhan o adolygiad gan Lywodraeth y DU o adran 58 o Ddeddf Plant 2004[76], nodwyd 12 o achosion lle defnyddiwyd yr amddiffyniad rhwng Ionawr 2005 a Chwefror 2007, a lle rhyddfarnwyd y sawl a gyhuddwyd neu lle gollyngwyd yr achos. Mewn ymateb i gais Deddf Rhyddid Gwybodaeth a wnaed ym mis Chwefror 2018[77], cadarnhaodd Gwasanaeth Erlyn y Goron y rhoddwyd gwybod am dri achos, yn ystod y cyfnod rhwng 2009 a 2017, lle codwyd amddiffyniad cosb resymol.<br><br>Fel y nodir ym mharagraff 3.24 o'r memorandwm hwn, nid yw'r data a ryddhawyd mewn ymateb i'r cais Rhyddid Gwybodaeth yn gyflawn o reidrwydd, oherwydd er enghraifft, mae'n bosibl na roddwyd gwybod i'r gyfarwyddiaeth briodol am bob achos. Yn ogystal, pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i beidio â chyhuddo cosbwr (oherwydd, er enghraifft, fod Gwasanaeth Erlyn y Goron o'r farn na fyddai'r erlyniad yn llwyddiannus am fod amddiffyniad cosb resymol yn bodoli), cydnabyddid nad oedd angen rhoi gwybod yn ei gylch. Byddai'r un dadleuon yn debygol o fod yn berthnasol mewn perthynas â nifer yr achosion a nodwyd fel rhan o adolygiad Llywodraeth y DU.<br><br>Nid yw'r data hyn, felly, yn addas fel data sylfaenol at ddibenion amcangyfrif nifer yr achosion o gosb resymol a allai gael eu herlyn yn llysoedd Cymru yn dilyn y newid yn y gyfraith. |

[76] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/344503/Review_of_Section_58_of_the_Children_Act_2004.pdf
[77] https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/foi/2018/Disclosure-3.pdf

| | Y data sy'n ofynnol i asesu effaith ar sefydliad | Cyfyngiadau'r data |
|---|---|---|
| 4 | amcangyfrif y cynnydd posibl yn yr achosion a gyfeirir neu'r baich ychwanegol ar wasanaethau neu system y llysoedd | Nid oes cynsail o fewn y DU i ddiddymu'r amddiffyniad, ac ychydig yw'r data perthnasol sydd ar gael o wledydd eraill i ddynodi'r cynnydd tebygol yn yr achosion a gyfeirir, neu yn yr achosion a erlynnir drwy'r llysoedd yn sgil diddymu'r amddiffyniad.<br><br>Fodd bynnag, mae data ar gael mewn perthynas â Seland Newydd, lle mae yna system gyfreithiol (fel yng Nghymru a Lloegr) sy'n seiliedig ar awdurdodaeth cyfraith gyffredin. Mae Heddlu Seland Newydd wedi cyhoeddi data ynghylch y tri mis cyn deddfu i ddiddymu'r amddiffyniad, ac ar gyfer cyfnod o 5 mlynedd wedyn. Mae'r data hyn yn nodi achosion o smacio a mân-gamau disgyblu corfforol, ac a benderfynwyd erlyn ar ôl ymchwilio i'r achosion hyn. Mae'r data hyn, felly, yn berthnasol (yn amodol ar y cafeatau a esbonnir isod) i'n hystyriaeth o'r effaith bosibl ar yr heddlu ac ar system y llysoedd.<br><br>Mae Gweinyddiaeth Datblygiad Cymdeithasol Llywodraeth Seland Newydd yn cyhoeddi data mewn perthynas â'r achosion a gyfeirir i'w gwasanaethau cymdeithasol ond, yn wahanol i ddata'r heddlu, nid cofnodi achosion o smacio a mân-gamau disgyblu corfforol er mwyn monitro effaith y ddeddfwriaeth ar achosion o'r fath a gyfeirir yw nod penodol data'r Weinyddiaeth. Mae ei hadroddiadau blynyddol yn cynnwys data am adroddiadau sy'n destun pryder sy'n ymwneud â smacio yn unig rhwng 2011 a 2014. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw'n cyhoeddi manylion cynhwysfawr am y rhesymau dros gyfeirio achosion i'r gwasanaethau cymdeithasol o dan gategorïau Cam-drin Corfforol a/neu fathau eraill o gam-drin ac esgeulustod. |

8.33 Yn fras, bydd y cynnydd yn yr achosion o'r fath a gofnodir, ac a erlynnir ymhellach, yn dibynnu ar nifer o ffactorau:

- Agweddau cymdeithas tuag at y ddeddfwriaeth newydd, ei hymwybyddiaeth ohoni a'i hymatebion
- Polisi erlyn a chyfiawnder y Goron mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth newydd

**Nodyn ar ddefnyddio data Seland Newydd i roi syniad o effaith bosibl y ddeddfwriaeth ar wasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r system gyfiawnder**

8.34 Er bod tebygrwydd rhwng Cymru a Seland Newydd, a'r ddwy awdurdodaeth yn seiliedig ar gyfraith gyffredin, mae yna nifer o wahaniaethau hefyd, er enghraifft:

- Gwahaniaethau rhwng Deddfwriaeth Seland Newydd a'r hyn a gynigir yng Nghymru;
- Mae'r ffordd y gorfodir y gyfraith yn Seland Newydd yn wahanol i Gymru;
- Oedran y plant y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol iddynt;
- Gwahaniaethau o ran poblogaeth;
- Cymorth rhianta a chodi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth

8.35 Mae'n fuddiol ystyried yr hyn sydd wedi digwydd yn Seland Newydd ar ôl newid y ddeddfwriaeth i wahardd cosb gorfforol. Fodd bynnag, mae yna ffactorau gwahanol a allai effeithio ar gyfraddau cosbi plant yn gorfforol cyn ac ar ôl deddfu na ellir eu mesur yn llwyr, gan gynnwys: parodrwydd i gofnodi troseddu; a chyfraddau erlyn. Ni chynhaliwyd ymgyrch addysgu benodol nac yn y cyfryngau i esbonio’r newid yn y gyfraith a chodi ymwybyddiaeth yn Seland Newydd. Rydyn ni, ar y llaw arall, yn bwriadu cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth i gyd-fynd â’r newid yn y gyfraith yng Nghymru.

8.36 Gan mai at ddibenion penodol monitro effaith y newid yn y gyfraith yr aeth yr heddlu ati i gasglu data Seland Newydd, rydym wedi defnyddio'r data hynny er mwyn amcangyfrif y cynnydd posibl yn yr achosion a gofnodir i'r heddlu ac a erlynnir yn y llysoedd. Caiff y cafeatau ynghylch defnyddio data Seland Newydd eu hesbonio ymhellach yn Atodiad 6.

8.37 Mewn perthynas â'r gwasanaethau cymdeithasol, mae data Seland Newydd, a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Datblygiad Cymdeithasol, yn llai uniongyrchol berthnasol: mae'r adroddiadau blynyddol yn cynnwys data sy'n ymwneud â cham-drin plant yn gorfforol ac yn fwy cyffredinol, ac am rai blynyddoedd maent hefyd yn cynnwys data ar smacio (ond nid ar gyfer mân-gamau disgyblu corfforol eraill); ond nid yw'r rhain wedi'u casglu at ddibenion monitro effaith y newid yn y ddeddfwriaeth, ac nid oes data cychwynnol penodol ar gael. Nid ydym, felly, wedi defnyddio'r data gwasanaethau cymdeithasol sydd ar gael o Seland Newydd i amcangyfrif effaith bosibl y newid yn y ddeddfwriaeth ar wasanaethau plant yng Nghymru.

**Awdurdodau Lleol - Gwasanaethau Cymdeithasol**

8.38 Er mwyn cyfrifo'r costau ychwanegol posibl i'r gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y pum mlynedd ar ôl deddfu, roedd angen yr wybodaeth ganlynol arnom:

- Cost unedau gwaith gwasanaethau plant wrth ddelio ag achos a gyfeiriwyd
- Data sylfaenol am nifer cyfredol yr achosion a gyfeiriwyd i'r gwasanaethau cymdeithasol yn sgil rhieni yn cosbi plant yn gorfforol ar lefel ymosodiad cyffredin
- Yr amcangyfrif gorau o effaith debygol y newid mewn deddfwriaeth o ran a fyddai cynnydd yn y nifer a gyfeirir ac, os felly, graddfa debygol y cynnydd.

| | |
|---|---|
| Cost unedol | £ 535 fesul achos a gyfeirir.<br><br>Sefydlwyd y gost unedol hon drwy ymgynghori ag awdurdodau lleol. Mae'r gost yn adlewyrchu achos sy'n ymwneud ag ymosodiad corfforol ar blentyn, nad yw'n cael ei gyfeirio ymlaen am ymchwiliad diogelu plant gan y gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu o dan Adran 47. Mae ymchwiliadau Adran 47 yn cael eu cynnal er mwyn penderfynu pa gamau, os o gwbl, y mae angen eu cymryd i hyrwyddo a diogelu lles plentyn, lle ystyrir bod y plentyn mewn perygl o niwed sylweddol.<br><br>Ystyrir mai dyma'r amcan gorau o'r gost unedol, ar y sail nad yw'n debygol y byddai cosb gorfforol ar y lefel y byddai amddiffyniad cosb resymol yn berthnasol iddi ar hyn o bryd yn cael ei chyfeirio i ymchwiliadau Adran 47.<br><br>Gellir dadansoddi’r gost unedol fel a ganlyn:<br>• £60 ar gyfer y costau gweinyddol i gyfeirio achos ac ar gyfer gwiriadau asiantaeth a gwblheir gan Iechyd, Addysg a’r Heddlu (ar sail cyfraddau o £20 yr awr)<br>• £75 ar gyfer uwch-weithiwr cymdeithasol i adolygu’r achos, a rhoi gwybod i’r teulu bod achos wedi’i gyfeirio, a chynnig cymorth (ar sail £20 yr awr am uwch-weithiwr cymdeithasol a £10 yr awr am gymorth gweinyddol)<br>• £100 ar gyfer trafodaeth am strategaeth amlasiantaethol o dan ddeddfwriaeth Diogelwch Cymru gyfan, rhwng yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg<br>• £300 yn dilyn penderfyniad na chymerir camau pellach yn ystod cyfarfod strategaeth, gan gynnig cymorth gan y sector gwirfoddol/ymyriadau cynnar, a dau neu dri ymweliad â’r teulu dros gyfnod o fis |
| Data sylfaenol | Gan fod yr amddiffyniad yn bodoli ar hyn o bryd, nid yw’r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn casglu gwybodaeth am gosbi corfforol yn benodol. Nid oes data, felly, wedi’u cyhoeddi neu ar gael i’w defnyddio fel data sylfaen am achosion a gyfeirir i’r gwasanaethau cymdeithasol o dan gategori cosb resymol. Rydym wedi ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer cael gafael ar ddata perthnasol y gellir eu defnyddio fel amcan ddata sylfaen. Hyd yn hyn, nid ydym wedi gallu dod o hyd i ddata sylfaen digon |

| | |
|---|---|
| | dibynadwy. Rydym wrthi'n gweithio gyda nifer fach o awdurdodau lleol i geisio sefydlu data sylfaen digon cywir ar sail y dull yr oedd yr heddlu yn gallu ei ddefnyddio wrth ddadansoddi eu data eu hunain. |
| Graddfa'r cynnydd | Fel yr amlinellir yn y tabl ym mharagraff 8.28, nid yw data gwasanaethau cymdeithasol Seland Newydd yn addas fel sail i ragweld y cynnydd tebygol yn niferoedd yr achosion a gyfeirir yn dilyn cael gwared â'r amddiffyniad. Os llwyddwn i sefydlu data sylfaen, nid oes data cymharol y gellir eu defnyddio i gyfrifo cynnydd yn y llwyth achosion. Rydym am weithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, felly, i sefydlu system gofnodi, er mwyn gallu monitro'r effaith bosibl. Nid yw'r gost i'r gwasanaethau cymdeithasol yn hysbys eto, felly. |

**Yr heddlu**

| | |
|---|---|
| Cost unedol | £ 650 fesul achos a gyfeirir.<br><br>Sefydlwyd hyn drwy ymgynghori ag Uned Gyswllt yr Heddlu a phedwar heddlu Cymru.<br><br>Nododd yr heddlu y gweithgarwch a fyddai'n cael ei ystyried mewn perthynas ag ymosodiad corfforol ar blentyn lle nad oedd unrhyw ffactorau sy'n cynyddu difrifoldeb y drosedd, neu faterion a fyddai'n galw am adnoddau ychwanegol (ee os oes angen cyfieithwyr, neu os oes anghenion cymhleth sy'n galw am adnodd arbenigol ychwanegol).<br><br>Mae'r gwaith costio yn dechrau ar yr adeg y caiff y digwyddiad ei neilltuo i Dditectif Gwnstabl ac yn parhau tan yr adeg y bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau. Nid yw'n cynnwys creu ffeiliau na chyfraniad Gwasanaeth Erlyn y Goron a fyddai'n cynyddu'r gost. Nid yw'r ffigur yn cynnwys y costau a fyddai'n codi cyn neilltuo'r digwyddiad i'r Ditectif Gwnstabl (ee ystafell reoli'r heddlu, swyddogion ymateb ac ati). |
| Data sylfaenol | 274 o achosion y flwyddyn.<br><br>Aeth pedwar heddlu Cymru ati, drwy gydweithio ag Uned Gyswllt yr Heddlu, i gynnal ôl-archwiliad o droseddau a gofnodwyd sy'n ymwneud ag Ymosodiadau Cyffredin a Chreulondeb i Blant dros gyfnod o 19 mis. Hidlodd yr heddlu yr wybodaeth ar sail ffactorau penodol – trais lle na achoswyd anaf, a chreulondeb i blant, lle roedd y troseddwr yn oedolyn a'r dioddefwr yn blentyn, a lle roedd y bwlch oedran rhwng y ddau yn fwy na thair blynedd.<br><br>Aethant ati i ddadansoddi'n bersonol sampl o'r canlyniadau er mwyn penderfynu pa ganran a oedd yn ymwneud â chosb resymol, a nodwyd bod un o bob saith/wyth yn ymwneud â hyn, yn dibynnu ar yr heddlu dan sylw. Ar sail y sampl hwn, amcangyfrifwyd bod tua 274 o achosion o gosb resymol wedi'u cofnodi gyda'r heddlu yng Nghymru bob blwyddyn. (Gweler atodiad 7 i weld y fethodoleg fanylach.) |

| | |
|---|---|
| | Bydd pedwar heddlu Cymru a Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio i benderfynu ar y data sy’n berthnasol i’w casglu ynghylch ymosodiadau sydd ar hyn o bryd yn dod o dan gategori cosb resymol, er mwyn gallu monitro’r effaith dros gyfnod. Bydd y gwaith o gasglu’r data yn parhau am nifer o flynyddoedd ar ôl cychwyn y ddeddfwriaeth er mwyn monitro effaith y ddeddfwriaeth. Lle bo modd, wrth ehangu’r gweithgarwch presennol neu waith perthnasol arall, bydd y gwaith o gasglu data hefyd yn ehangu. |
| Graddfa'r cynnydd | Cynnydd o 100% - £178,000<br><br>Data Heddlu Seland Newydd yw'r data sylfaenol tebycaf. Aethant ati i gasglu data ar adroddiadau o smacio a chamau disgyblu corfforol eraill dri mis cyn cyflwyno'u gwaharddiad ar gosbi corfforol. Roedd eu data nhw yn dangos, yn ystod y pum mlynedd yn dilyn y gwaharddiad, o gymharu â'r llinell sylfaen, ar gyfartaledd, fod dwywaith cymaint o achosion yn cael eu cofnodi gyda'r Heddlu bob chwarter ynghylch ymosodiadau ar blant, gan gynnwys smacio a mân-gamau disgyblu corfforol, o gymharu â chyn y Bil (cynnydd o 100 y cant). Cynyddodd nifer yr adroddiadau yn gyson yn ystod y pedair blynedd gyntaf, a dechreuodd ostwng yn y bumed. Mae hyn yn seiliedig ar gyfartaledd y cynnydd gan nad oedd y cyfnodau adrodd yn unffurf yn Seland Newydd. Mae ceisio rhagweld y patrwm fesul blwyddyn yn gymhleth felly. |

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder - Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi**

8.39 Rydym wedi ystyried yr effaith bosibl ar y system gyfiawnder, yn enwedig y llysoedd, mewn cydweithrediad â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cyhoeddwyd asesiad llawn o’r effaith ar faes cyfiawnder yn https://llyw.cymru/bil-plant-diddymu-amddiffyniad-cosb-resymol-cymru-asesiad-effaith-integredig. Mae asesiad o’r effaith ar faes cyfiawnder wedi’i grynhoi hefyd ym mharagraffau 9.17 i 9.24.

8.40 Yn absenoldeb data dibynadwy eraill i amcangyfrif nifer yr erlyniadau a allai godi yng Nghymru yn sgil y ddeddfwriaeth, defnyddiwyd data heddlu Seland Newydd[78] fel sail i greu amcangyfrif o niferoedd posibl yr achosion o erlyn yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd yn dilyn cychwyn y ddeddfwriaeth. Mae’r niferoedd a amcangyfrifir ar gyfer Cymru yn seiliedig ar y ffaith bod gan Gymru tua 60% o nifer y plant a’r bobl ifanc 0-14 oed o’i chymharu â Seland Newydd (mae’r ddeddfwriaeth yn Seland Newydd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc 0-14 oed). Cydnabyddir mai amcangyfrifon yn unig yw’r rhain, ac y bydd angen gwaith monitro trwyadl ar ôl cychwyn y ddeddfwriaeth er mwyn mesur y niferoedd yn gywir.

[78] Heddlu Seland Newydd, (2009) “Final results of 2 year review of police activity since enactment of the Crimes (Substituted Section 59) Amendment Act 2007”.

8.41 Gan gadw hyn mewn cof, amcangyfrifir y ceir 38 o achosion dros gyfnod o 5 mlynedd. Mewn perthynas â'r pum mlynedd gyntaf ar ôl i'r newid yn y gyfraith ddod i rym, cytunwyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch yr amcangyfrif o gostau'r achosion llys sy'n ymwneud â throsedd y byddai'r amddiffyniad wedi bodoli mewn perthynas â hi yn flaenorol. Oherwydd sail ein hamcangyfrif, mae yna elfen o ansicrwydd, ac mae'n anodd rhagweld yr hyn sy'n debygol o ddigwydd ar ôl pum mlynedd. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i niferoedd yr achosion a erlynnir lefelu, wrth i ymwybyddiaeth pobl o'r newid yn y gyfraith gynyddu.

8.42 A chymryd y bydd y rhaniad rhwng achosion llysoedd ynadon a llys y Goron yn rhyw 75:25, amcangyfrifir cyfanswm cost o hyd at £70,000 dros gyfnod o 5 mlynedd. (Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar faes Cyfiawnder i gael mwy o fanylion[79]).

8.43 At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym wedi amcangyfrif cost o hyst at £14,000 y flwyddyn ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd.

**Gwasanaeth Erlyn y Goron**

8.44 Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gyfrifol am:

- Gyngor i'r heddlu ynghylch cyhuddo, lle bo angen, mewn perthynas ag achosion o ymosodiadau cyffredin ar blant lle byddai amddiffyniad cosb resymol wedi bod yn bosibl o'r blaen;
- Erlyn mewn perthynas ag unrhyw achosion sy'n cyrraedd y llysoedd.

8.45 Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gostau. Mae'n amcangyfrif y byddai'r gost flynyddol ychwanegol i'r Gwasanaeth yn dilyn gweithredu'r Bil yn dod i gyfanswm o £2,000 i £4,000 y flwyddyn, ac y byddai'r gost yn daladwy o 2022-23. Mae'r gost hon yn ychwanegol i'r costau llysoedd a amcangyfrifwyd ac y cytunwyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn eu cylch. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 8.42 – 8.43.

**Costau trosiannol – cyrff cyhoeddus a'r trydydd sector**

8.46 Disgwylir y bydd rhai costau trosiannol, sy'n ymwneud â diweddaru canllawiau a hyfforddiant i staff, ar gyfer cyrff cyhoeddus (gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol (mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol ac addysg), y sector iechyd, a sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda phlant. Nid yw'r union gost yn hysbys, ond disgwylir iddi fod yn fach iawn, am y rhesymau a nodir a amlinellir isod.

8.47 Mae Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan yn darparu safonau cyffredin ar gyfer gwaith diogelu plant at ddibenion pob bwrdd diogelu lleol yng Nghymru, ac maent yn sail i waith pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio

[79] https://llyw.cymru/bil-plant-diddymu-amddiffyniad-cosb-resymol-cymru-asesiad-effaith-integredig

gyda phlant a theuluoedd. Caiff y gweithdrefnau eu diwygio'n rheolaidd, a disgwylir i unrhyw newidiadau a wneir i'r gweithdrefnau yn sgil y Bil fod yn rhan o'r cylch adolygu arferol.

8.48 Y disgwyl yw y byddai'r staff perthnasol eisoes yn ymwybodol o amddiffyniad cosb resymol ac, felly, drwy roi gwybod iddynt ei fod yn cael ei ddiddymu, dylai fod yn glir na chaniateir i rieni gosbi plant yn gorfforol ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Er y gallai fod cynnydd yn nifer yr achosion a gyfeirir/honiadau a gofnodir o gosbi corfforol, dylai'r broses y bydd gweithwyr proffesiynol yn ei dilyn wrth ddelio ag achosion o gam-drin corfforol barhau'r un fath gan mwyaf.

8.49 Rydym wedi nodi y gallai fod yn ofynnol i rai cyrff/sefydliadau ddiweddaru eu canllawiau eu hunain ar gyfer eu haelodau a/neu eu gweithwyr; mae hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, cyrff y system gyfiawnder, cyrff y trydydd sector a'r sector iechyd. Bydd angen rhoi gwybod i staff am unrhyw newidiadau o'r fath, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith. Byddai Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymchwilio ymhellach i hyn yn y Grŵp Gweithredu y mae'n ei sefydlu ar waith y byddai angen ei wneud pe bai'r Bil yn cael ei weithredu.

8.50 Mae sesiynau ymgyfarwyddo a/neu ddiweddaru yn weithgareddau arferol i'r cyrff perthnasol, ac felly ni ddylai hyn greu costau ychwanegol.

**Tabl crynhoi costau**

8.51 Mae'r tabl isod yn dangos y costau i Lywodraeth Cymru cyn cychwyn y ddeddfwriaeth, o ran codi ymwybyddiaeth, ac yna'r costau i'r prif randdeiliaid ar ôl ei chychwyn am gyfnod o bum mlynedd.

| BA | Llyw Cymru | Heddlu | Awdurdodau Lleo* | Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM | Gwasanaeth Erlyn y Goron | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2019/20 | £50,000 | | - | - | - | £50,000 |
| 2020/21 | £200,000 - £600,000 | | - | - | - | £200,000 - £600,000 |
| 2021/22 | £200,000 - £800,000 | | - | - | - | £200,000 - £800,000 |
| 2022/23 | £170,000 - £300,000 | £178,000 | - | £14,000 | £2,000-£4,000 | £364,000 - £496,000 |
| 2023/24 | £100,000 - £200,000 | £178,000 | - | £14,000 | £2,000-£4,000 | £294,000 - £396,000 |
| 2024/25 | £50,000 - £150,000 | £178,000 | - | £14,000 | £2,000-£4,000 | £244,000 - £346,000 |
| 2025/26 | £50,000 - £150,000 | £178,000 | - | £14,000 | £2,000-£4,000 | £244,000 - £346,000 |
| 2026/27 | - | £178,000 | - | £14,000 | £2,000-£4,000 | £194,000 - £196,000 |
| Codi ymwybyddiaeth staff LlC** | £466,000 | | | | | £466,000 |
| Cyfanswm | £1,286,000 - £2,716,000 | £890,000 | - | £70,000 | £11,000 - £20,000 | £2,258,000 - £3,696,000 |

*Efallai na fydd y ffigurau yn cyd-fynd yn hollol am eu bod wedi'u talgrynnu. Cyfrifwyd y cyfansymiau gan ddefnyddio ffigurau heb eu talgrynnu.*

*Ystyrir ei bod yn debygol y bydd yna gynnydd yn yr achosion a gyfeirir i'r gwasanaethau cymdeithasol, o leiaf yn y tymor byr. Fodd bynnag, fel yr esbonnir yn y tabl ym mharagraff 8.34, ni fu'n bosibl nodi hyd yma ffigurau sylfaen dibynadwy y gellir eu defnyddio fel sail i amcangyfrif cynnydd posibl. Mae'r costau hyn yn anhysbys am y tro, felly.

**Mae'r costau hyn i Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod o chwe blynedd a thri mis o Ionawr 2020 i Fawrth 2027.

### Manteision

8.52 Mae nifer o fanteision yn ymwneud ag opsiwn 2 wedi'u nodi.

- Drwy wahardd cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, byddwn yn helpu i ddiogelu hawliau plant yn unol â'n hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

- Bydd cael gwared ag amddiffyniad cosb resymol yn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu i'r un graddau rhag cosb gorfforol ag oedolion.

- Caiff cosbi plant yn gorfforol ei wahardd mewn rhai lleoliadau sy’n darparu cyfarwyddyd neu hyfforddiant i blant, ond nad yw’r newidiadau cynharach yn y gyfraith sy’n berthnasol i leoliadau addysgol yn berthnasol iddynt. Mae cosb gorfforol wedi'i gwahardd mewn ysgolion ers cryn amser, ond mae amddiffyniad cosb resymol yn dal ar gael i oedolion sy'n gweithredu in loco parentis mewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu hystyried yn lleoliadau addysgol ('non-educational settings' yw'r term Saesneg). Byddai'r Bil hwn yn cael gwared ag amddiffyniad cosb resymol ym mhob sefyllfa.

- Bydd gwahardd cosbi plant yn gorfforol yn caniatáu i weithwyr proffesiynol rheng flaen roi cyngor clir i rieni ynghylch sut i ddisgyblu a llywio eu plant drwy ddulliau anghorfforol.

- Mae adolygiad[80] y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru o’r dystiolaeth am agweddau plant tuag at gosbi corfforol a’r canlyniadau i blant yn cydnabod nad yw’r dystiolaeth yn dangos yn ddigamsyniol fod cosbi corfforol “rhesymol” gan rieni yn arwain at ganlyniadau negyddol, ond daeth i’r casgliad hefyd fod yna dystiolaeth bod yna gysylltiad â chanlyniadau negyddol, ac nad oes unrhyw dystiolaeth o fanteision, boed yn nhermau manteision datblygiad hirdymor na’i effeithiolrwydd wrth ddylanwadu ar newid ymddygiad yn y tymor byr o gymharu â dulliau anghorfforol eraill.

- Ni does unrhyw fanteision amgylcheddol wedi’u nodi.

**Anfanteision**

8.53 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw riant sy’n cosbi plentyn yn gorfforol yng Nghymru yn gallu dibynnu mwyach ar amddiffyniad cosb resymol. Gallai’r heddlu gysylltu ag ef, gan arwain at ystod o bosibiliadau, gan gynnwys arestio’r rhiant neu ei ddyfarnu’n euog o drosedd. Mae'n bosibl y gellid setlo'r achos yn statudol neu'n anstatudol y tu allan i'r llys, ond mae hefyd yn bosibl yr erlynnir y rhiant o ganlyniad i hyn.

8.54 Os dyfernir rhiant yn euog yn dilyn erlyniad am ymosodiad cyffredin, neu os rhoddir rhybudd ynghylch ymosodiad cyffredin ar blentyn, byddai hyn yn rhan o gofnod troseddol yr unigolyn. Ni fyddai'n gymwys ei hidlo ac felly byddai'n ymddangos bob amser mewn gwiriad safonol neu fanylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gallai hyn effeithio ar ragolygon cyflogaeth yr unigolyn, yn dibynnu ar ei faes gwaith, ac ar ei allu i deithio i rai gwledydd. Rhoddir mwy o fanylion ynghylch yr effaith ar rieni a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn Atodiadau 4 a 5.

8.55 Nid oes unrhyw anfanteision amgylcheddol wedi’u nodi.

[80] https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/PPIW-REPORT-Parental-Physical-Punishment-Child-Outcomes-and-Attitudes_fo....pdf

# Pennod 9: Asesiadau Effaith

9.1 Ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae nifer o effeithiau posibl eraill wedi'u hystyried, a chynhaliwyd asesiadau effaith llawn pan fo angen gwneud hynny. Mae crynodeb o'r rheini isod, a gellir gweld yr asesiadau effaith llawn yma https://llyw.cymru/bil-plant-diddymu-amddiffyniad-cosb-resymol-cymru-asesiad-effaith-integredig

### Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

9.2 Mae cosbi plant yn gorfforol yn anghydnaws â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Prif ddiben y cynnig hwn yw helpu i ddiogelu hawliau plant mewn perthynas â'r ddyletswydd sydd wedi'i nodi yn erthygl 19. Byddai hynny'n golygu bod plant yng Nghymru yn cael eu diogelu'n gyfreithiol rhag cosb gorfforol yn yr un ffordd ag oedolion. O'i phasio, bydd y Bil hwn yn gwahardd rhieni yng Nghymru rhag cosbi plant yn gorfforol, gan gynnwys y rheini sy'n ymweld â Chymru.

9.3 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) yn ystyried yr effeithiau cadarnhaol bwriedig ar blant a phobl ifanc ynghyd ag effeithiau negyddol posibl a'r mesurau i leihau'r effeithiau hynny. Mae'r effeithiau cadarnhaol bwriedig yn cynnwys sicrhau gostyngiad pellach yn y lefelau o ddefnydd a goddefgarwch tuag at gosbi plant yn gorfforol. Ymhlith yr effeithiau negyddol posibl fyddai'r posibilrwydd y gallai newid y gyfraith arwain at yr heddlu'n cysylltu â rhiant gydag ystod o ganlyniadau posibl gan gynnwys arestio'r rhiant neu'r rhiant yn derbyn euogfarn droseddol. Gall arestio, rhybuddio neu euogfarnu rhiant gael effeithiau negyddol ar y plentyn fel y nodir yn y CRIA.

9.4 Nid yw'r newid yn y gyfraith ynddo'i hun yn criminaleiddio rhieni. Ymhlith y mesurau i leihau effeithiau negyddol posibl fydd ein strategaeth codi ymwybyddiaeth a fydd yn sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, fod rhieni'n ymwybodol o'r newid yn y gyfraith cyn iddi ddod i rym a'u bod mewn sefyllfa i ddewis peidio â chosbi eu plant yn gorfforol ac osgoi'r risg o gael eu cyhuddo o droseddu. Yn ychwanegol at hynny, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r gwasanaethau cymdeithasol i gael eglurder ynghylch prosesau'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol a sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb i ddigwyddiadau a gofnodwyd o rieni'n ymosod ar blentyn. Os yw'r Bil yn cael ei basio, byddwn yn parhau i weithio â hwy i ystyried unrhyw brosesau neu ganllawiau y mae'n bosib y bydd angen eu rhoi ar waith.

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

9.5 Rydym wedi ystyried effaith y Bil ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rheini sy'n byw ar aelwydydd incwm isel, gan gynnwys sut y bydd yr effeithiau hynny'n cael eu lleihau.

9.6 Effaith gadarnhaol y ddeddfwriaeth arfaethedig yw y bydd yn darparu diogelwch cyfreithiol rhag cosb gorfforol i bob plentyn yng Nghymru, heb roi ystyriaeth i unrhyw nodweddion gwarchodedig.

9.7 Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod defnyddio cosb gorfforol yn gysylltiedig â grwpiau penodol o rieni (e.e. rhieni iau[81] a'r rheini sydd ag iechyd meddwl a chorfforol gwael sy'n gysylltiedig â bod yn fam[82]). Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd yn dangos bod cosbi corfforol yn gysylltiedig â grwpiau penodol o blant (e.e. plant iau, bechgyn[83]). Ond nid yw'n dilyn o reidrwydd y bydd rhieni'n ymddwyn yn unol â'r canfyddiadau ymchwil hynny. Cynhaliwyd rhywfaint o'r ymchwil honno ar genedlaethau blaenorol o rieni mewn gwledydd eraill. Yn aml mae'r dulliau methodolegol a ddefnyddir mewn gwaith ymchwil o'r fath yn gallu creu problemau[84].

9.8 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn edrych ar yr effeithiau cadarnhaol a'r modd y gallai effeithiau negyddol posibl gael eu lleihau. Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod rhieni (gan gynnwys y rheini mewn grwpiau gwarchodedig) yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth ac yn cael eu cyfeirio at y cyngor, cymorth a gwybodaeth berthnasol.

## Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig

9.9 Nid yw cymunedau gwledig a'r unigolion sy'n byw yn y cymunedau hynny wedi'u nodi eu bod yn cael eu heffeithio'n benodol gan y Bil. Bydd y newid arfaethedig yn y ddeddfwriaeth yn berthnasol i'r un graddau i bob unigolyn a chymuned yn ardal ddaearyddol Cymru, ac i'r rheini sy'n ymweld â Chymru. Bydd yr effaith bosibl ar riant sy'n cosbi eu plentyn yn gorfforol ar lefel ymosod neu guro cyffredin, yr un fath ni waeth beth fo'i leoliad yng Nghymru. Felly, penderfynwyd peidio â chynnal asesiad llawn o'r effaith o ran prawfesur gwledig.

## Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd

9.10 Cynhaliwyd asesiad sgrinio o'r effaith ar breifatrwydd mewn perthynas â'r Bil. Ni chaiff unrhyw ddata personol eu prosesu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynnig hwn. Felly, nid oedd angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

---

[81] Halpenny, A.M., Nixon, E. a Watson, D., (2010) Parents' Perspectives on Parenting Styles and Disciplining Children, Swyddfa'r Gweinidog dros Blant a Materion Ieuenctid

[82] Heilman, A., Kelly, Y. a Watt, R. (2015) "Equally Protected? A review of the evidence on the physical punishment of children", a gomisiynwyd gan NSPCC Scotland, Children 1st, Barnado's Scotlant a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban, Tachwedd 2015

[83] Smith, A. B., Gollop, M. M., Taylor, N. J., Marshall, K. A. (2005) *The Discipline and Guidance of Children: Messages from Research*

[84] Er enghraifft, gallai problemau sy'n ymwneud â dulliau methodolegol gynnwys newidynnau a allai ddylanwadu ar y canlyniad (newidynnau eraill sy'n gysylltiedig â chosbau ac sy'n anodd eu gwahanu), adroddiadau ôl-weithredol y rhieni; diffinio'r hyn yw cosb a'r gwahaniaeth rhwng cosb a chosb gorfforol, a'r diffyg o ran gallu cyffredinoli oherwydd y samplau cyfyngedig o boblogaethau.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

9.11 Cafodd effeithiau posibl ar y Gymraeg eu hystyried yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol ar y ddeddfwriaeth arfaethedig. Gofynnwyd y cwestiwn gorfodol am y Gymraeg, sy'n holi am effeithiau cadarnhaol ac andwyol y gallai'r cynigion eu cael ar y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn dangos y bydd y newidiadau a gynigir gan y Bil yn cael effaith niwtral ar y Gymraeg.

## Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth

9.12 Cafodd effaith y Bil ar fioamrywiaeth a rheoliadau'r cynefin ei hystyried, a phenderfynwyd na fydd effaith uniongyrchol ar y naill na'r llall.

## Asesiad o'r Effaith ar y Newid yn yr Hinsawdd

9.13 Roedd Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi ymrwymo Gweinidogion Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru gan o leiaf 80% yn 2050. Mae darpariaethau eraill yn y Ddeddf ac yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn ymdrin ag effaith y newid yn yr hinsawdd ac addasu i'r newid hwnnw. Rydym wedi ystyried effaith y Bil ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac wedi dod i'r casgliad nad oes cysylltiad uniongyrchol, sydd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol. Rydym hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y Bil ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

## Asesiad o'r Effaith ar Adnoddau Naturiol

9.14 Rydym wedi ystyried effaith y Bil ar y Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol a chyfleoedd o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rydym wedi dod i'r casgliad nad oes cysylltiad uniongyrchol, sydd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol.

## Asesu'r Effaith ar Iechyd

9.15 Ystyriwyd effaith y Bil ar benderfynyddion iechyd. Yr effaith a fwriedir wrth ddeddfu i ddileu amddiffyniad cosb resymol yw y bydd plant yn llai tebygol o gael eu cosbi'n gorfforol, ac y byddant felly'n cael eu diogelu rhag rhai o'r canlyniadau negyddol sy'n gysylltiedig â chosb gorfforol. Felly, ystyrir yn gyffredinol bod y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd.

9.16 Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai rhieni yng Nghymru, sy'n cosbi eu plant yn gorfforol yn cael eu cyhuddo o drosedd, eu herlyn mewn llys a'u cael yn euog, neu gallai datrysiad statudol y tu allan i'r llys gael ei gynnig iddynt a fyddai'n cael ei ddatgelu ar ffurf gwybodaeth am euogfarn pan wneir gwiriad manylach drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – a hynny mewn sefyllfaoedd lle y gallai amddiffyniad cosb resymol fod wedi bod ar gael o'r blaen. Mewn sefyllfa o'r fath honno, efallai y bydd effaith andwyol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Ond, byddai effeithiau negyddol yn cael eu lleihau gan strategaeth i godi ymwybyddiaeth, a fyddai'n sicrhau, cyn belled

ag y bo modd, fod rhieni'n ymwybodol o'r newid yn y gyfraith cyn iddi ddod i rym. Bydd ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn cyfeirio rhieni at gyngor, cymorth a gwybodaeth berthnasol. Gallai derbyn gwybodaeth o'r fath helpu i leihau'r perygl o ddefnyddio cosb gorfforol ac o gael cyhuddiad posibl o drosedd. Felly, penderfynwyd peidio â chynnal asesiad llawn o'r effaith o ran iechyd ar hyn o bryd, ond byddwn yn cadw hwn dan sylw wrth i'r ddeddfwriaeth symud ymlaen.

**Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder**

9.17 Mae asesiad o'r effaith ar gyfiawnder wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'n adlewyrchu'r effaith debygol ar y system gyfiawnder. Nid oes modd i ni ragweld yn gwbl sicr yr effaith ar y system gyfiawnder am nad oes cynsail yn y Deyrnas Unedig i ddileu'r amddiffyniad ac oherwydd yr arferion presennol o gofnodi a chadw cofnod.

9.18 Cafwyd problemau wrth nodi data priodol i greu cronfa sylfaenol o achosion cyfredol sy'n cael eu dwyn ger bron y llys. Ar hyn o bryd, mae ystadegau'r Swyddfa Gartref ar droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn darparu data ar nifer yr achosion o ymosodiadau cyffredin a churo (o dan gategori bras troseddau Trais heb Anaf, sy'n cynnwys nifer o wahanol droseddau o dan y pennawd hwnnw). Ni nodir oedran y dioddefwr na pherthynas y troseddwr â'r dioddefwr. Er ein bod wedi gallu cydweithio â'r heddluoedd yng Nghymru i ddod o hyd i'r data gorau posibl o ran nifer y troseddau sy'n ymwneud â chosbi corfforol gan riant ar lefel 'cosb resymol', nid yw'r data hynny'n cyfleu'r nifer debygol o achosion a fyddai'n mynd i'r llys – gan y byddai nifer o'r rheini'n debygol o gael eu datrys y tu allan i'r llys neu drwy roi rhybuddiad.

9.19 Felly, nodwyd yr effaith bosibl ychwanegol ar y system gyfiawnder drwy ddefnyddio Seland Newydd fel man cychwyn. Mae system gyfreithiol Seland Newydd (fel yng Nghymru ac yn Lloegr) yn seiliedig ar awdurdodaeth y gyfraith gyffredin, ac mae data wedi'u cyhoeddi yn dilyn y newid deddfwriaethol mewn perthynas â chosbi corfforol. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau mewn perthynas â defnyddio'r data hynny o ganlyniad i wahaniaethau allweddol rhwng y ddwy wlad. Er enghraifft, mae gwahaniaethau o ran y ddeddfwriaeth arfaethedig, y ffordd y gorfodir y gyfraith, oedran y plant y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol iddynt, gwahaniaethau o ran poblogaethau, ac o ran y cymorth rhianta a chodi ymwybyddiaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth.

9.20 O safbwynt cyfiawnder troseddol, ni ddisgwylid cynnydd mawr yn nifer yr achosion sy'n cael eu dwyn ger bron y llys.

9.21 Mae'r amcangyfrif o 38 achos mewn 5 mlynedd yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn Seland Newydd. Mae'n aneglur fodd bynnag faint o'r achosion hynny yn Seland Newydd na fyddai wedi digwydd oni bai am y newid mewn deddfwriaeth. Ymhellach at hynny, trosedd diannod yn unig ydyw ac mae'n amlwg y byddai'r costau'n fach iawn. Yn ychwanegol, mae'n debygol y byddai gwybodaeth y cyhoedd wedi cynyddu ar ôl pum mlynedd i'r graddau y byddai

rhieni yn ymwybodol fod pob math o gosb gorfforol ar blenyn yn anghyfreithlon ac felly byddai'r nifer o achosion yn debygol o leihau.

9.22 Mewn perthynas â'r incwm o achosion troseddol, mae cyfran yr achosion o ymosodiad cyffredin a churo sy'n arwain at ddirwy mor fach fel na fyddai effaith wirioneddol ar incwm o'r fath. Mewn perthynas â dedfrydu yn unol â'r gyfraith droseddol, nid oes effaith wirioneddol am nad oes unrhyw newid arfaethedig i'r cosbau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

9.23 Mewn perthynas â chyfiawnder sifil, nid oes unrhyw newid yn ofynnol o ran y rheolau na gorfodaeth felly nid oes unrhyw effaith wirioneddol mewn perthynas â gweithdrefn sifil na gorfodaeth.

9.24 Ceir amcanestyniad o gost y system gyfiawnder ar gyfer y pum mlynedd yn dilyn gweithredu'r ddeddfwriaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym Mhennod 8. Bwriedir sefydlu Grŵp Gweithredu a fydd yn monitro effeithiau posibl y ddeddfwriaeth ar ôl iddi ddod i rym, gan gynnwys y goblygiadau o ran adnoddau.

## Pennod 10: Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Mae'r adran hon yn nodi'r hyn y bwriedir ei wneud i fonitro ac adolygu effaith y ddeddfwriaeth.

10.2 Mae'r Bil yn nodi y bydd y ddarpariaeth i ddiddymu amddiffyniad cosbi plant yn gorfforol yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru, gan ganiatáu amser i godi ymwybyddiaeth mewn modd cynhwysfawr o'r hyn y mae diddymu amddiffyniad cosb resymol yn ei olygu.

10.3 Caiff effaith y Bil ei mesur mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy ymchwil a gwerthuso, yn ogystal â thrwy ddatblygu ffyrdd i gasglu data'n rheolaidd ar y cyd â rhanddeiliaid. I fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth, byddwn yn defnyddio arolygon cynrychiadol i gael gwybod am ba mor ymwybodol y mae'r cyhoedd o'r newid yn y gyfraith, am newidiadau mewn agweddau at gosbi plant yn gorfforol, ac am nifer yr achosion o gosbi corfforol a adroddwyd gan rieni.

10.4 Bydd y Grŵp Gweithredu'n cael ei sefydlu i sicrhau y bydd unrhyw newidiadau i brosesau a allai fod angen yn dilyn rhoi'r ddeddfwriaeth mewn grym yn rhoi ystyriaeth i weithdrefnau sydd eisoes mewn bodolaeth.

10.5 Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd ystyried y goblygiadau o ran cyllid ac adnoddau sy'n gysylltiedig â'r Bil mewn adolygiad ôl-weithredu. Byddwn yn cydweithio â'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a’r llysoedd i gytuno ar gasglu data perthnasol am gyfnod cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym er mwyn pennu llinellau sylfaen. Bydd y broses o gasglu data'n parhau yn dilyn rhoi'r ddeddfwriaeth mewn grym er mwyn monitro effaith y Bil. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd y broses o gasglu data'n gyson â gweithgareddau sydd eisoes ar waith neu â gwaith perthnasol arall.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol

# BIL PLANT (DIDDYMU AMDDIFFYNIAD COSB RESYMOL) (CYMRU) 2019

---

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru). Fe'u lluniwyd gan Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil.

2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil ac os ymddengys nad oes angen rhoi unrhyw esboniad neu sylw ar adran unigol, nis rhoddir.

### CEFNDIR POLISI

3. Ar 18 Mai 2016, cyhoeddodd y Prif Weinidog fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn dileu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin (roedd hyn yn ymrwymiad a oedd wedi ei gynnwys ym maniffesto'r Blaid Lafur ar gyfer etholiad y Cynulliad Cenedlaethol a gynhaliwyd ym mis Mai 2016).

4. Bwriad y Bil yw helpu i amddiffyn hawliau plant gan wahardd defnyddio cosb gorfforol, drwy ddileu'r amddiffyniad.

5. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y Bil yn gwneud Cymru yn gyson ag argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sydd wedi datgan bod yr amddiffyniad yn anghydnaws â rhwymedigaethau Cymru o dan erthygl 19 (amddiffyn rhag pob ffurf ar drais) o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig

ar Hawliau'r Plentyn(https://www.ohchr.org/EN/Countries/ENACARegion/Pages/GBIndex.aspx). Mae hefyd yn cyd-fynd ag argymhellion nifer o gyrff rhyngwladol allweddol eraill megis Cyngor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (https://www.ohchr.org/EN/HRBodies/HRC/Pages/Home.aspx) a Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu yn Erbyn Menywod (https://www.ohchr.org/en/hrbodies/cedaw/Pages/CEDAWIndex.aspx).

6. Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i ddiddymu'r amddiffyniad gan y cyn-Weinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant ddydd Mawrth 9 Ionawr 2018; caeodd yr ymgynghoriad ddydd Mawrth 2 Ebrill.

7. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar 6 Awst 2018 (https://beta.llyw.cymru/cynnig-deddfwriaethol-i-ddileu-amddiffyniad-cosb-resymol).

## CEFNDIR CYFREITHIOL

### Y cysyniad cyfreithiol o ymosod a churo

8. Yn y gyfraith trosedd, ffurfiau ar droseddau corfforol yw ymosod a churo. Yn y gyfraith sifil, mae ymosod a churo yn gyfystyr â chamwedd, neu gamwri sifil: camwedd tresmasu yn erbyn y person.

9. Mae'r ymadrodd "ymosod" yn cael ei ddefnyddio yn gyffredin i ddisgrifio gweithredoedd sy'n ymwneud â defnyddio grym yn erbyn person. Ond mae gan y cysyniadau o "ymosod" a "curo" ystyron penodol a gwahanol yng nghyfraith Cymru a Lloegr.

10. At y dibenion hyn, ystyr "curo" yw defnyddio grym anghyfreithlon yn fwriadol neu'n ddi-hid yn erbyn corff person arall. Byddai hyn yn cynnwys oedolyn yn dyrnu oedolyn arall, er enghraifft. Ond gall hefyd gynnwys yr hyn a allai gael ei ystyried yn fân achosion o gyswllt corfforol, megis taro rhywun yn ysgafn ar yr ysgwydd. Byddai pa un a fyddai hyn yn gyfystyr â churo yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.

11. Mae "ymosod" yn digwydd pan fo un person yn achosi i berson arall ofni bod grym anghyfreithlon yn mynd i gael ei ddefnyddio ar unwaith (bygythiad wyneb yn wyneb gan oedolyn i ddyrnu oedolyn arall yn ystod anghytundeb, er enghraifft).

### Amddiffyniad cosb resymol

12. O dan y gyfraith gyfredol, mae amddiffyniad cosb resymol yn golygu y *gallai* gweithredoedd penodol sy'n gyfystyr â churo plentyn neu ymosod ar blentyn fod yn amddiffynadwy mewn achosion cyfreithiol ar y sail bod y gweithredoedd yn rhesymol – ac felly yn gyfreithlon. Mae'r amddiffyniad ar gael ar hyn o bryd i rieni ac yn ddarostyngedig i eithriadau penodol (gweler paragraffau 13 a 14 isod), i bersonau sy'n gweithredu yn rôl y rhiant (*in loco parentis*).

13. Mae argaeledd yr amddiffyniad yn y gyfraith gyfredol yn ddarostyngedig i reolaethau a osodir gan adran 58 o Ddeddf Plant 2004, sef Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

14. Yn rhinwedd adran 58 o Ddeddf 2004, nid yw'r amddiffyniad ar gael pan fo'r niwed a achosir i blentyn yn gyfystyr â gwir niwed corfforol neu'n fwy na hynny (sef niwed y bernir ei fod yn fwy na niwed darfodol neu bitw: niwed sy'n mynd y tu hwnt i gochi croen plentyn dros dro), neu pan fo'r drosedd o dan sylw yn drosedd creulondeb wrth blentyn, o dan adran 1 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933.

15. Yn hanesyddol, roedd amddiffyniad cosb resymol ar gael o dan y gyfraith gyffredin mewn perthynas ag achosion a ddygwyd yn erbyn athrawon neu staff eraill a roddai, wrth addysgu, gosb gorfforol i ddisgyblion. Roedd hyn oherwydd bod y staff yn cael eu trin fel pe baent yn gweithredu *in loco parentis*. Ond dechreuodd Senedd y Deyrnas Unedig, yn adran 47 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 (sydd wedi ei diddymu bellach), broses o wahardd cosb gorfforol mewn ysgolion a lleoliadau eraill sy'n ymwneud ag addysg.

16. Mae'r gyfraith gyfredol sy'n gwahardd defnyddio cosb gorfforol mewn perthynas â disgyblion sy'n cael addysg wedi ei nodi yn adran 548 o Ddeddf Addysg 1996. Nid yw'r Bil yn newid y sefyllfa hon.

**Ymyriadau corfforol eraill gan rieni nad ydynt yn cynnwys cosb gorfforol**

17. Mae'r gyfraith gyffredin yn cydnabod ei bod yn angenrheidiol (ac yn gyfreithlon) i rieni neu oedolion eraill ymgymryd ag ymyriadau corfforol penodol wrth arfer awdurdod rhiant mewn perthynas â phlant, hyd yn oed pan fyddai'r ymyriadau (oni bai am y gydnabyddiaeth hon) yn gyfystyr ag ymosod neu guro.

18. Nid yw cyfreithlondeb yr ymyriadau hyn yn deillio o fodolaeth amddiffyniad cosb resymol, gan na fwriedir iddynt fod yn gyfystyr â chosb gorfforol.

19. Mae hyn yn golygu y caniateir ymyriadau corfforol penodol gan riant mewn perthynas â phlentyn hyd yn oed pan na chaniateid yr ymyriadau hynny, o angenrheidrwydd, yng nghyd-destun dau oedolyn.

20. Gallai un enghraifft fod yr ymyriad corfforol sy'n angenrheidiol er mwyn cadw plentyn yn ddiogel rhag niwed, megis dal plentyn i'w atal rhag rhedeg i'r ffordd (yn hytrach nag unrhyw ymyriad corfforol y bwriedir iddo gosbi plentyn am redeg i'r ffordd) neu atal plentyn i'w gadw rhag ei niweidio ei hunan neu rhag niweidio eraill.

21. Gallai enghreifftiau eraill gynnwys defnyddio grym rhesymol i wisgo plentyn, neu i frwsio dannedd plentyn.

22. Gall arfer awdurdod rhiant hefyd ei gwneud yn ofynnol defnyddio ymyriadau corfforol sy'n angenrheidiol at ddiben defnyddio dulliau eraill yn lle cosb gorfforol, er mwyn cynnal disgyblaeth ac ymdrin ag ymddygiad gwael. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, gario plentyn i fan amser ymdawelu ("gris camfihafio").

**CRYNODEB O'R BIL**

23. Mae'r Bil yn cynnig diddymu amddiffyniad cosb resymol mewn perthynas â rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru; ac yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â diddymu'r amddiffyniad.

**SYLWEBAETH AR ADRAN 1**
*Diddymu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin*

24. Mae adran 1(1) o'r Bil yn diddymu amddiffyniad cosb resymol mewn perthynas â rhoi cosb gorfforol i blentyn sy'n digwydd yng Nghymru.

25. Ystyr "cosb gorfforol" yn y cyd-destun hwn yw unrhyw guro a wneir fel cosb (mae'r diffiniad o'r ymadrodd yn ymddangos yn is-adran (4)).

26. Yn ymarferol, gallai hyn olygu smac a roddir fel cerydd i blentyn (pa un a yw ar ben ôl y plentyn, ar ei goesau neu ar ran arall o'r corff). Ond nid yw'r diffiniad – na chymhwyso'r amddiffyniad yn y gyfraith gyfredol – wedi ei gyfyngu i smacio. Byddai achos pan fo rhiant yn ysgwyd plentyn, neu'n procio plentyn yn y frest, fel cosb am gamymddygiad ymddangosiadol, er enghraifft, hefyd yn cael ei ddal.

27. (Efallai y bydd sefyllfaoedd mwy amwys eraill pan allai ymyriad corfforol penodol a ddisgrifir ym mharagraffau 15 i 20 fod yn gyfystyr â churo a wneir fel cosb. Gallai rhai o'r ymyriadau corfforol a ddisgrifir yn y paragraffau hynny gael eu gwneud mewn ffordd y bwriedir iddi gosbi plentyn; ond bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau mewn achos penodol. Efallai fod y math hwn o achos yn cael ei egluro orau drwy ystyried y gwahaniaethau rhwng defnyddio grym sy'n wirioneddol angenrheidiol er mwyn brwsio dannedd plentyn anfodlon at ddibenion cynnal hylendid deintyddol da a brwsio dannedd mewn ffordd ymosodol y bwriedir iddo achosi poen i'r plentyn fel cosb am fethu â chydweithredu.)

28. Ni fwriedir i ddiddymu'r amddiffyniad effeithio ar y gyfraith bresennol o ran curo ac ymosod mewn perthynas â defnyddio grym ac eithrio fel cosb (gweler paragraffau 15 i 20 uchod).

29. Fel y'i trafodir uchod ym mharagraffau 15 i 20, mae'r gyfraith gyffredin yn cydnabod ei bod yn angenrheidiol i oedolion ymgymryd ag ymyriadau corfforol penodol mewn perthynas â phlant, wrth arfer awdurdod rhiant. Mae hyn yn caniatáu defnyddio grym o dan amgylchiadau sy'n cynnwys rhyngweithiadau corfforol yr ystyrir eu bod yn dderbyniol, ac yn annadleuol, yn ystod bywyd arferol bob dydd. (Gweler er enghraifft yr esiampl ym mharagraff 19 o frwsio dannedd plentyn.)

30. Gallai diddymu amddiffyniad cosb resymol, heb fanylion pellach, agor y posibilrwydd i berson geisio amddiffyn defnyddio'r gosb ar y sail ei bod yn dderbyniol yn gyffredinol yn ystod bywyd arferol. Er enghraifft, gallai person geisio dadlau ei bod yn dderbyniol smacio plentyn yn ystod bywyd bob dydd, yn union fel y mae'n dderbyniol brwsio dannedd plentyn. Mae'r geiriad yn is-adran (3) wedi ei gynnwys er mwyn osgoi'r posibilrwydd hwn.

31. Pan fydd amddiffyniad cosb resymol wedi ei ddiddymu yn unol ag is-adran (1), ni fydd adran 58 o Ddeddf Plant 2004 yn berthnasol mwyach i guro plentyn neu ymosod ar blentyn sy'n digwydd yng Nghymru. O ganlyniad, mae is-adran (5) yn gwneud mân ddiwygiadau i adran 58 er mwyn ei gwneud yn glir y bydd yn gymwys mewn perthynas â phethau a wneir yn Lloegr yn unig.

## Atodiad 2: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau’r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad | Datganiad yr Aelod | Tudalen 2 (Datganiad yr Aelod) a thudalen 7, paragraffau 2.1-2.3 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalen 14, paragraffau 3.28 – 3.30 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu’r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 36, Pennod 7, paragraffau 7.1 – 7.4 |
| 26.6(iv) | Nodi’r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a’r ffyrdd o’u gwireddu;<br>(b) manylion y Bil, a<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu’n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalen 24, paragraffau 4.1 – 4.4 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 24 – 27, paragraffau 4.5 – 4.17 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalen 24, paragraff 4.1 |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau’r Bil ei wneud (i’r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi’r wybodaeth arall sy’n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | Tudalennau 64 |
| 26.6(viii) | Nodi’r amcangyfrifon gorau o’r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a’r costau gros eraill y byddai darpariaethau’r Bil yn arwain atynt;<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai’r costau’n syrthio | Rhan 2 – Asesiad Effaith<br>Penodau 6 ac 8 | Tudalennau 31 – 34, a’r tabl crynhoi costau ar dudalen 56, paragraff 8.51 |
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol | Rhan 2 – Asesiad Effaith<br>Pennod 8 | Tudalennau 56 – 57, Paragraffau 8.52 – 8.55 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(x) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br><br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br><br>(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); | Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tudalennau 28 – 29, paragraff 5.1 |
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn | |
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | Rhan 2 – Asesiad Effaith<br>Penodau 8 a 9 | Tudalen 53 - 54, paragraffau 8.39 – 8:45; Pennod 9, Tudalen 61 - 62, paragraffau 9.17 – 9.24 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B ynghylch Tabl Tarddiadau yn gymwys i'r Bil hwn oherwydd mai darn o ddeddfwriaeth annibynnol yw'r Bil ac nad yw'n tarddu o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi.<br><br>[dileer fel y bo'n briodo] | |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Atodiad 3 – Atodlen o Ddiwygiadau | Tudalennau 72-73 |

## Atodiad 3: Atodlen diwygiadau

**Deddf Plant 2004 (p.31)**

**DIWYGIADAU A WNEIR GAN**
**Y BIL PLANT (DIDDYMU AMDDIFFYNIAD COSB RESYMOL) (CYMRU)**

Nod y ddogfen hon yw dangos sut y bydd y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) (os bydd yn cael ei basio fel y'i cyflwynir ar 25 Mawrth 2019) yn newid darpariaethau Deddf Plant 2004, fel yr oeddent yn berthnasol i Gymru ar 31 Rhagfyr 2018.

Mae yna linell drwy'r testun a fydd yn cael ei ddileu gan y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), e.e ~~mae'r testun sy'n cael ei ddileu yn edrych fel hyn~~. Mae'r testun sy'n cael ei ychwanegu gan y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) wedi ei danlinellu, e.e mae'r testun sy'n cael ei ychwanegu yn edrych fel hyn. Mae cyfeiriadau at ddarpariaethau diwygio perthnasol y Bil i'w gweld yn y golofn ar y dde ar bob tudalen.

Mae nifer o ddarpariaethau cysylltiedig y Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, yn cael eu cynnwys er mwyn gwella dealltwriaeth o'r diwygiadau arfaethedig.

**Rhybudd**
Cafodd y testun hwn ei baratoi gan swyddogion Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Er bod pob ymdrech wedi ei gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf nac o'r Bil.

Unig nod y testun hwn yw helpu pobl i ddeall effaith y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru). Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio at unrhyw ddibenion eraill.

| **Children Act 2004 (2004 c31)** | *Yr adran o'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) sy'n diwygio* |
|---|---|
| **Part 5 Miscellaneous (ss 44-63)/58**<br><br>**58 Reasonable Punishment<u>: England</u>**<br><br>(1) In relation to any offence specified in subsection (2), battery of a child <u>taking place in England</u> cannot be justified on the ground that it constituted reasonable punishment.<br><br>(2) The offences referred to in subsection (1) are—<br>a) an offence under section 18 or 20 of the Offences against the Person Act 1861 (c 100) (wounding and causing grievous bodily harm);<br>b) an offence under section 47 of that Act (assault occasioning actual bodily harm);<br>c) an offence under section 1 of the Children and Young Persons Act 1933 (c 12) (cruelty to persons under 16).<br><br>(3) Battery of a child <u>taking place in England</u> causing actual bodily harm to the child cannot be justified in any civil proceedings on the ground that it constituted reasonable punishment.<br><br>(4) For the purposes of subsection (3) "actual bodily harm" has the same meaning as it has for the purposes of section 47 of the Offences against the Person Act 1861.<br><br>(5) In section 1 of the children and Young Persons Act 1933, omit subsection (7). | **Adran 1(5)**<br><br>**Adran 1(5)**<br><br>**Adran 1(5)** |

# Atodiad 4: Effeithiau posibl ar unigolion a sefydliadau

1. Yn yr atodiad hwn, caiff yr effeithiau posibl ar y prosesau a'r gweithdrefnau perthnasol ynghylch yr unigolion a'r sefydliadau hyn eu hystyried:


| | |
|---|---|
| Rhieni a'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis | Tudalen 74 |
| Y system gyfiawnder (gan gynnwys yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron) | Tudalen 75 |
| Heddlu | Tudalen 76 |
| Gwasanaeth Erlyn y Goron | Tudalen 79 |
| Effeithiau eraill ar y system gyfiawnder | Tudalen 80 |
| Gwasanaethau cymdeithasol | Tudalen 81 |
| Addysg | Tudalen 82 |
| Iechyd | Tudalen 84 |


**Rhieni a'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis**

2. Mae'r effeithiau posib ar rieni yn cynnwys:
   - gallai deddfwriaeth ac ymgyrch codi ymwybyddiaeth annog rhieni sy'n cosbi eu plant yn gorfforol i ystyried dulliau amgen cadarnhaol i gosbi'n gorfforol er mwyn darparu arweiniad a disgyblaeth i'w plant (yn unol â'r dystiolaeth yn adroddiad PPIW[85])
   - bydd rhieni sy'n cosbi eu plant yn gorfforol ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym yn cyflawni trosedd, felly efallai y gallent wynebu cyhuddiad o drosedd o ymosod neu guro. Cafodd hyn ei nodi fel pryder mewn rhai o'r ymatebion i'r hymgynghoriad.

***Cwmpas yr effaith bosib ar rieni o safbwynt y potensial i gyflawni trosedd a derbyn cofnod troseddol***

3. Mae'r amddiffyniad cosb resymol ar gael dim ond i gyhuddiad o ymosodiad cyffredin lle mae'r anaf yn fach a dros dro, ac yn ddim mwy na marc coch dros dro ar y croen[86]. Os yw'r drosedd ar lefel ymosodiad cyffredin bydd y CPS yn ystyried ffactorau eraill wrth benderfynu a oedd y gosb yn rhesymol a chymedrol. Byddent yn ystyried, er enghraifft, natur, cyd-destun ac am ba hyd y parodd ymddygiad yr amddiffynnydd, a'r goblygiadau corfforol a meddyliol i'r plentyn [87]. Gall hyn arwain ar erlyniad.

---

[85] https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/11/181101_PPIW-REPORT-Legislating-to-Prohibit-Parental-Punishment.pdf

[86] Yn ôl canllawiau'r CPS ar y safon gyhuddo ar ymosodiadau yn erbyn y person "…unless the injury is transient and trifling and amounted to no more that temporary reddening of the skin, a charge of ABH, for which the defence *[of reasonable punishment]* does not apply, should be preferred".

[87] Troseddau yn erbyn y Person, yn cynnwys y Safon Gyhuddo https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/offences-against-person-incorporating-charging-standard

***Yr effaith ar riant sy'n cyflawni'r drosedd ac sy'n cael ei gyhuddo o drosedd ymosodiad cyffredin yn erbyn plentyn***

4. Bydd y penderfyniad ynghylch a gaiff yr unigolyn ei gyhuddo ai peidio yn dibynnu ar a oes digon o dystiolaeth fel bod gobaith realistig o ddyfarnu'n euog ac a yw erlyn er budd y cyhoedd[88]. Ar ôl cyhuddo, lle'r CPS yw erlyn wedyn. Os caiff rhiant ei gyhuddo o drosedd ymosodiad cyffredin yn erbyn plentyn, mae potensial i wneud penderfyniad statudol neu anstatudol y tu allan i'r llys yn hytrach nag erlyn. Rydym yn trafod y potensial o wneud penderfyniadau y tu allan i'r llys ymhellach ym mharagraffau 16 i 26 mewn perthynas â phrosesau'r heddlu.

5. Byddai euogfarn neu rybudd am ymosodiad cyffredin ar blentyn yn arwain at gofnod troseddol. Ni fyddai penderfyniad anstatudol y tu allan i'r llys, fel datrysiad cymunedol yn effeithio ar gofnod troseddol y rhiant yn yr un modd, er y byddai angen datgelu'r wybodaeth mewn rhai amgylchiadau, yn ôl y drefn dan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Yn gryno:

- Bydd euogfarn neu rybudd am ymosodiad cyffredin ar blentyn yn cael ei ddatgelu at ddibenion gwiriad safonol neu wiriad manylach, ac ni fydd byth yn gymwys i'w hidlo (h.y. bydd yn dal i gael ei ddangos hyd yn oed os yw'r euogfarn wedi darfod dan ddarpariaethau'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr)

- Gall gwybodaeth arall a gedwir yn lleol yng nghofnodion yr heddlu mewn perthynas ag ymchwilio i ymosodiad cyffredin ar blentyn, gan gynnwys ymchwiliadau a arweiniodd at ddim camau pellach neu benderfyniad anstatudol fel datrysiad cymunedol - gael ei datgelu at ddibenion gwiriad manylach - er nad o reidrwydd.

6. Ceir esboniad llawn o broses a goblygiadau'r DBS yn atodiad 5.

**Y system gyfiawnder (gan gynnwys yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron)**

7. Yn achos y system gyfiawnder, mae'r effeithiau posib yn ymwneud â'r canlynol:

- **Prosesau –** mae'n bosib y bydd angen diwygio'r prosesau ar gyfer ymdrin â honiadau o drosedd ymosodiad cyffredin gan rieni sy'n cosbi eu plant yn gorfforol, lle nad yw'r amddiffyniad cosb resymol ar gael bellach. Bydd angen ystyried pa ran o'r broses sydd angen ei newid pan ddaw'r ddeddfwriaeth i rym, os oes angen newid o gwbl; a
- **Adnoddau**: bydd posibilrwydd y gwelir cynnydd mewn adroddiadau o ymosodiad cyffredin ar blant, a all cael effaith ar adnoddau o fewn y system gyfiawnder. Mae hyn wedi'i ystyried yn rhan o'r asesiad o'r effaith ar gyfiawnder[89].

[88] Mae'r Coleg Heddlua a'r CPS yn darparu cyngor ar ffactorau budd y cyhoedd y dylid eu hystyried wrth benderfynu cyhuddo neu elyn

[89] https://llyw.cymru/bil-plant-diddymu-amddiffyniad-cosb-resymol-cymru-asesiad-effaith-integredig

***Heddlu***

8. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos â'r pedwar heddlu yng Nghymru ond mae'r heddlu'n parhau'n gyfrifoldeb i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig.

***Cofnodion yr heddlu a gweithdrefnau sy'n ymwneud â phlant***

9. Mae Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref (HOCR) yn dweud:

> *"all reports of incidents, whether from victims, witnesses or third parties and whether crime related or not, will result in the registration of an incident report by the police".*

10. Mae'r HOCR yn ei gwneud hi'n ofynnol bod digwyddiad yn cael ei gofnodi fel trosedd (trosedd hysbysadwy) neu 'crimed' os yw'r drosedd yn erbyn dioddefwr hysbys ac os, ar sail cydbwysedd tebygolrwydd:

> "*The circumstances as reported amount to a crime defined by law (the police will determine this, based on their knowledge of the law and counting rules)"*
>
> *"The rules place an obligation on the police to accept what the victim says unless there is "credible evidence to the contrary".*

11. Bydd cofnod ond yn cael ei nodi fel 'non-crimed' os oes tystiolaeth i brofi na ddigwyddodd y drosedd yn y lle cyntaf. Os nad oes tystiolaeth, bydd yn parhau ar y system fel 'heb ei ddatrys'.

12. Mae **Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu (PND)** yn cadw cofnodion am gudd-wybodaeth, trosedd, cystodaeth, cam-drin domestig a cham-drin plant, ac yn caniatáu i ddefnyddwyr (yr heddlu'n gyffredinol) i chwilio cofnodion data holl luoedd y DU mewn perthynas â phobl, gwrthrychau, lleoliadau a digwyddiadau.

13. **Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC)** yw system gyfrifiadurol Cymru a Lloegr a ddefnyddir i gofnodi erlyniadau, rhybuddiadau a cheryddon am unrhyw drosedd sy'n gosbadwy trwy garchariad ac unrhyw drosedd arall a nodir yn y rheoliadau.

14. Bydd **Cronfa Ddata Genedlaethol Gorfodi'r Gyfraith (LEDS)** yn disodli'r PNC a'r PND ac yn cyfuno data o'r systemau hyn i greu un platfform technoleg. Bydd pob trosedd gofnodadwy o'r PND a'r PNC (gan gynnwys gwybodaeth am ddatrysiadau cymunedol) yn cael eu dangos ar y LEDS.

15. Mae'r heddlu wedi tynnu sylw at yr angen am ganllawiau ynghylch y ffordd y caiff adroddiad ar ymosodiad cyffredin yn erbyn plentyn ei gofnodi gan yr heddlu yng Nghymru. Gan fod LEDS yn weithredol yng Nghymru a Lloegr,

bydd angen nodi y byddai adroddiadau am ymosodiadau cyffredin, y gellid eu categoreiddio o dan “cosb resymol” yn Lloegr, yn adroddiadau am droseddau yng Nghymru, yn enwedig er mwyn helpu unedau datgelu i ystyried a ddylid rhyddhau gwybodaeth am adroddiadau na arweiniodd at ddyfarniad euog neu rybuddiad.

***Gwarediadau y tu allan i’r llys***

16. Mae nifer o warediadau y tu allan i’r llys y gall yr heddlu eu defnyddio er mwyn ymateb i droseddau mewn ffordd gymesur a phragmataidd.

17. Mae **Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC)** wedi cyhoeddi strategaeth genedlaethol 2017 -2021 ar gyhuddo a gwarediadau y tu allan i’r llys[90], er mwyn darparu canllawiau ar y defnydd o’r gwarediadau hyn. Mae’n cynnwys sawl nod, gan gynnwys symleiddio’r fframwaith ar gyfer gwarediadau y tu allan i’r llys a chysoni â Gweledigaeth Plismona 2025 sy’n canolbwyntio ar waith partneriaeth ac ymyrraeth gynnar. Mae’n cydnabod y canlynol: “*You cannot address vulnerability solely by way of prosecution, it requires a more sophisticated and effective whole system approach where the Police Service are trusted as professional decision makers who can access a range of services in partnership from early intervention pathways, out of court disposals and where necessary, prosecution*”.

18. At ddiben y drosedd o ymosodiad cyffredin yn erbyn plentyn o ganlyniad i gosb gorfforol gan riant, ar ôl dileu’r amddiffyniad, rydym yn rhagweld y gallai’r gwarediadau y tu allan i’r llys canlynol gael eu cynnig i’r rhiant, yn dibynnu ar amgylchiadau’r achos (mewn rhai achosion, efallai mai atgyfeirio’r achos yn syth at Wasanaeth Erlyn y Goron i’w erlyn fyddai’r dewis gorau).

***Rhybuddiadau***

19. Gellir cynnig rhybuddiad syml neu amodol i rywun sydd wedi cyfaddef cyflawni’r drosedd ac os oes gan yr heddlu ddigon o dystiolaeth i gyhuddo. Yr heddlu sy’n cyflwyno’r rhain yn unol â chanllawiau’r Weinyddiaeth Amddiffyn[91][92].

20. Rhybudd ffurfiol sy’n creu rhan o gofnod troseddol yr unigolyn yw **rhybuddiad syml** (dim sail statudol ar hyn o bryd). Mae strategaeth yr NPCC yn awgrymu symud tuag at fframwaith dwy haen o warediadau y tu allan i’r llys ar gyfer oedolion sy’n troseddu – datrysiadau cymunedol a rhybuddiadau amodol, er ei fod yn rhagweld y bydd rhybuddiad ieuenctid yn parhau fel rhan o’r fframwaith i droseddwyr ifanc.

[90] https://www.npcc.police.uk/Publication/Charging%20and%20Out%20of%20Court%20Disposals%20A%20National%20Strategy.pdf

[91] Simple cautions - https://www.gov.uk/government/publications/simple-cautions-guidance-for-police-and-prosecutors

[92] Conditional cautions - https://www.gov.uk/government/publications/code-of-practice-for-adult-conditional-cautions

21. Mae **rhybuddiad amodol** (adrannau 22 – 27 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003) yn cynnwys amodau atodedig fel mynychu cwrs. Mae'n rhan o gofnod troseddol y person. Gall diffyg cydymffurfio â'r amodau arwain at erlyn rhywun am y drosedd.

22. Nid yw'r sawl sy'n cyflawni'r drosedd yn cael ei erlyn na'i euogfarnu, ond mae'r rhybuddiad yn rhan o'i gofnod troseddol a gellir cyfeirio ato mewn achosion cyfreithiol yn y dyfodol, a gall gael ei ddatgelu fel rhan o wiriad cofnodion troseddol safonol neu fanylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.[93]

23. Lle nad oes modd rhoi rhybuddiad neu rybuddiad amodol, oherwydd e.e. nid yw'r unigolyn yn gwneud y cyfaddefiad gofynnol o euogrwydd neu mae'n gwrthod derbyn y rhybuddiad, yna rhaid ei gyhuddo o drosedd (ar yr amod bod y dystiolaeth yn ddigonol). *(Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron)*

***Datrysiadau cymunedol***

24. Does dim sail statudol i hyn[94]. Nid yw'n rhan o gofnod troseddol yr unigolyn: at ddibenion datgelu, mae'n gyfystyr â data di-euogfarn nad yw'n cael ei ddatgelu'n gyffredinol. Fodd bynnag, gall datrysiad cymunedol gael ei ddatgelu fel rhan o wiriad DBS manylach, os yw prif swyddog yr heddlu yn ystyried bod hynny'n berthnasol i'r cais ac y dylid ei ddatgelu.

25. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â'r heddlu i ystyried y potensial o gynnwys datrysiadau cymunedol fel un o'r gwarediadau y tu allan i'r llys y gellir ei gynnig, yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos, o bosib mewn cydweithrediad â chynllun dargyfeirio, er enghraifft, er mwyn darparu cyngor a chymorth ar ffyrdd cadarnhaol eraill o ddisgyblu plant.

26. Ar y cyfan, mae dulliau cymunedol yn addas ar gyfer troseddau lefel is, ac mae angen derbyn cyfrifoldeb ynghylch hyn. Mae angen cydsyniad y dioddefwr mewn llawer o achosion.

***Tystiolaeth gan blant***

27. Cyflwynwyd llu o fesurau i hwyluso'r broses o gasglu a rhoi tystiolaeth gan dystion agored i niwed ac wedi'u dychryn – plant yn yr achos yma – yn sgil Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (YJCEA).

28. Rhaid ystyried defnyddio Cyfryngwyr Cofrestredig yn y llys ar gyfer pob achos sy'n ymwneud â thyst sy'n blentyn. Arbenigwyr cyfathrebu (e.e. therapyddion iaith a lleferydd, seicolegwyr) yw'r rhain a fydd yn helpu i sicrhau bod atebion yn cael eu cyfleu'n fwy effeithiol yn ystod cyfweliad yr heddlu ac wrth roi tystiolaeth mewn achos. Mae Cyfryngwyr Cyfathrebu yn cael eu recriwtio, eu

[93] Fel yr eglurir ym mharagraff 5 uchod, byddai rhybuddiad neu rybuddiad amodol am ymosodiad cyffredin ar blentyn yn cael ei ddatgelu fel rhan o wiriad DBS safonol neu fanylach.
[94] http://library.college.police.uk/docs/appref/Community-Resolutions-Incorporating-RJ-Final-Aug-2012-2.pdf

hyfforddi a'u hachredu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ni fyddant o reidrwydd yn cael eu defnyddio os oes tystiolaeth glir a diamwys ar gael, fel CCTV neu ddatganiad tyst.

29. Yr heddlu sy'n talu costau Cyfryngwyr Cofrestredig yn ystod y cam ymchwilio, a Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n talu os bydd y mater yn mynd i'r llys. Rydym yn deall bod prinder Cyfryngwyr Cofrestredig ar hyn o bryd a phrin yw'r rhai sy'n siarad Cymraeg. Gallai hyn greu oedi yn y broses.

***Dull amlasiantaeth***

30. Mae'r heddlu'n gweithio ar sail dull amlasiantaeth, gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau perthnasol eraill, mewn perthynas ag achosion posib o amddiffyn plant.

31. Gellir atgyfeirio achosion amddiffyn plant drwy'r gwasanaethau cymdeithasol, neu'n uniongyrchol at yr heddlu; neu drwy Hybiau Diogelu Amlasiantaeth (MASH) os ydynt ar gael.

32. Lle bo modd, bydd yr heddlu'n gwneud penderfyniad ar y cyd â'r gwasanaethau cymdeithasol ar yr ymateb priodol i atgyfeiriad amddiffyn plentyn.

***Effaith ar adnoddau'r heddlu***

33. Gallai nifer yr achosion honedig o ymosodiadau cyffredin ar blant gan rieni sy'n cael eu hadrodd i'r heddlu gynyddu ar ôl dileu'r amddiffyniad. Rydym yn trafod yr amcangyfrif gorau o'r effaith debygol a'r costau posib ym Mhennod 8 (Costau a Manteision).

**<u>Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)</u>**

34. Byddai angen diwygio'r canllawiau sy'n berthnasol i Wasanaeth Erlyn y Goron ledled Cymru a Lloegr er mwyn adlewyrchu'r sefyllfaoedd cyfreithiol gwahanol yn y ddwy wlad, pe bai'r amddiffyniad yn cael ei ddileu yng Nghymru. Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus fyddai'n gyfrifol am unrhyw newidiadau i'r canllawiau hyn.

***Y Safon Gyhuddo ar gyfer troseddau yn erbyn y person***

35. Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) mewn ymgynghoriad â'r heddlu fydd yn penderfynu ar unrhyw ddiwygiadau i'r Safon Gyhuddo ar gyfer Troseddau yn erbyn y Person (Safon Gyhuddo yr Ymosodiad). Er nad oes modd bod yn benodol ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd angen diwygio'r Safon Gyhuddo mewn Achos o Ymosodiad mewn perthynas â'r canllawiau ar gosb resymol, er mwyn pwysleisio'r ffaith ei fod wedi'i ddileu yng Nghymru a goblygiadau hynny. Mater i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r heddlu fydd ystyried union natur y diwygiadau.

*Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron*

36. Mae'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron[95] yn cyflwyno'r egwyddorion cyffredinol y mae angen i erlynwyr y goron eu dilyn wrth benderfynu ar achosion.

37. Mae'r prawf Cod Llawn, a nodir yn y Cod, yn cynnwys dau gam:
- y cam tystiolaeth
- y cam budd cyhoeddus.

38. Mae paragraff 2.6 y Cod yn dweud y dylai'r erlynwyr, wrth gymhwyso'r Cod, ddilyn polisïau a chanllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron a gyflwynwyd ar ran y DPP ac sydd ar gael i'r cyhoedd i'w gweld ar wefan y Gwasanaeth. Maen nhw'n ystyried y bydd canllawiau perthnasol yn cynnwys y Safon Gyhuddo ar gyfer Ymosodiadau a'r Canllawiau ar Gam-drin Domestig i Erlynwyr. Mae'r olaf yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron gymryd pob gofal i ystyried holl ffeithiau unrhyw ymddygiad troseddol, hanes a chefndir perthnasol cyn mynd ati i arestio a/neu gyhuddo'r sawl sydd dan amheuaeth.

## Effeithiau eraill ar y system gyfiawnder

39. Rydym wedi trafod â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a cheir crynodeb o'r asesiad effaith ar gyfiawnder ym Mhennod 9; mae'r asesiad effaith llawn gan gynnwys y costau amcangyfrifedig wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/bil-plant-diddymu-amddiffyniad-cosb-resymol-cymru-asesiad-effaith-integredig.

*Llysoedd troseddol*

40. Er nad ydym yn rhagweld cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion a gaiff eu dwyn gerbron y llysoedd troseddol, bydd angen sicrhau bod cyfreithwyr yn ymwybodol o'r newid yn y gyfraith, yn enwedig gan y bydd gwahaniaeth yn y gyfraith rhwng Cymru a Lloegr.

*Llysoedd teulu*

41. Efallai y bydd effaith ar lysoedd teulu, yng nghyd-destun anghydfod rhwng cyplau sy'n gwahanu. Gallai ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith arwain at gynnydd yn yr honiadau bod rhieni'n cosbi'n gorfforol mewn achosion lle mae'r naill riant yn ceisio cryfhau eu hachos yn erbyn y llall mewn achos sy'n ymwneud â'r teulu; byddai'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn gorfod ymchwilio. Byddai Cafcass Cymru yn gorfod adrodd ar y mater i'r llys (os oedd llys yn rhan o'r broses), a gallai'r llys orfod dyfarnu ar nifer mwy o faterion. Gallai hyn arwain at lwyth gwaith mwy ac oedi posib.

42. Mae angen ystyried materion logisteg hefyd os bydd plant yn dystion: y prinder cyfredol o gyfryngwyr cofrestredig, a'r ffaith bod gan rai llysoedd teulu

[95] https://www.cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors

ystafelloedd penodol er mwyn i blant roi tystiolaeth o bell ac mewn modd sensitif (os oes angen i blant roi tystiolaeth yno), ond nad oes gan eraill.

### *Cafcass Cymru*

43. Mae gan Cafcass Cymru rôl statudol o roi cyngor i'r Llys Teulu ynglŷn â'r hyn sydd er budd pennaf i'r plentyn mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat. Ar ochr breifat y gyfraith h.y. lle nad yw'r rhieni'n gallu cytuno ar drefniadau sy'n ymwneud â'r plentyn ar ôl gwahanu, a'u bod wedi cyflwyno cais i'r llys, mae'n rhaid i Cafcass Cymru gynnal archwiliadau diogelu gyda'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol ynghyd â chyfweliadau diogelu gyda'r rhieni.

44. Mae'n debygol y bydd dileu'r amddiffyniad yn ychwanegu at y wybodaeth sy'n cael ei darparu i'r llysoedd. Wedi'r cam hwn, os yw Cafcass Cymru yn weithgar gyda theulu ac yn dod ar draws problemau o'r fath (neu os oes honiadau) yna bydd dyletswydd arno i sôn wrth y gwasanaethau cymdeithasol a'r llys, a allai arwain at rywfaint o waith ychwanegol.

### <u>Gwasanaethau Cymdeithasol</u>

45. Mae yna wahaniaeth yn y gyfraith eisoes rhwng cosb gorfforol, ac esgeuluso neu gam-drin plentyn. Mae canllawiau statudol a deddfwriaeth gadarn a phenodol, yn ogystal â chyfraith trosedd, ar waith i warchod a diogelu plant rhag cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin. Cyflwynwyd ymagwedd bartneriaeth gadarn, effeithiol a chryfach at ddiogelu yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014).

46. Mae 'plentyn sy'n wynebu risg' eisoes wedi'i ddiffinio yn Rhan 7 o Ddeddf 2014. Mae'n diffinio "plentyn sy'n wynebu risg" fel plentyn:
    a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, a
    b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio).

47. Pan fo rhywun yn hysbysu am blentyn dan adran 130 o Ddeddf 2014, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a oes achos dros gynnal ymchwiliad dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989. Mae adran 47 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, os oes ganddo achos rhesymol dros amau bod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, wneud yr ymholiadau angenrheidiol, neu drefnu bod yr ymholiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud, i'w alluogi i benderfynu a ddylai gymryd unrhyw gamau i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn.

48. Mae canllawiau statudol atodol yn darparu cyfeiriad pellach at beth sy'n gyfystyr ag 'esgeulustod' a 'chamdriniaeth' ac o dan ba amodau y dylid cymryd camau os oes achos rhesymol dros amau bod plentyn yn wynebu risg.

49. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ar gyfer derbyn ac ymateb i adroddiadau o'r fath. Mewn rhai ardaloedd, defnyddir Hybiau Diogelu

Amlasiantaeth (MASH); mewn ardaloedd eraill, gwasanaethau cymdeithasol yw'r pwynt cyswllt ar gyfer atgyfeirio achosion.

### *Effaith ar y broses*

50. Fel ar hyn o bryd, rhagwelir na fydd angen defnyddio'r broses diogelu plant a amlinellir uchod er mwyn mynd i'r afael â chyfran sylweddol o achosion o gosbau corfforol. Fodd bynnag, i ddechrau, efallai y bydd mwy o unigolion yn y gymuned a sefydliadau fel ysgolion ac ati yn adrodd am achosion o gosbi yn sgil y newid arfaethedig yn y gyfraith a dyletswydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar sefydliadau partner i roi gwybod am yr achosion hyn. Gallai hyn gael effaith ar gamau cychwynnol gweithgareddau'r gwasanaethau cymdeithasol mewn ymateb i adroddiadau o'r fath.

51. Os caiff yr amddiffyniad cosb resymol ei ddileu, byddai dyletswydd ar wasanaethau cymdeithasol i adrodd am honiadau o gosb gorfforol wrth yr heddlu fel trosedd bosib. Hefyd, yn dilyn asesiad cymesurol yn unol â gweithdrefnau diogelu plant amlasiantaethol cyfredol, byddai angen cynnal trafodaeth strategol i drafod manylion yr honiadau hyn; asesu risg; a chytuno ai'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, neu'r ddau fydd yn cynnal yr ymchwiliad. Byddai'r drafodaeth strategol yn cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, y maes iechyd a chyrff eraill fel yr asiantaethau atgyfeirio. Efallai y bydd angen cynnal mwy nag un drafodaeth.

52. Bydd angen i ganllawiau statudol Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar 'ymdrin ag achosion unigol' a'r Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd adlewyrchu'r ffaith fod yr amddiffyniad wedi'i ddileu.

53. Mae'r trafodaethau ynghylch y newidiadau y mae angen eu gwneud i'r canllawiau a'r hyfforddiant presennol ar ddiogelu, cefnogi a gofalu am blant yn parhau.

### *Effaith ar adnoddau*

54. Efallai y bydd cynnydd mewn atgyfeiriadau pan ddaw'r ddeddfwriaeth i rym, o leiaf yn y tymor byr. Ar hyn o bryd, does dim modd rhagweld faint yn union o gynnydd welwn ni. Rydym wrthi'n gweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i geisio creu data sylfaenol mewn nifer fach o awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn ymchwilio i ba systemau y gellir eu sefydlu er mwyn casglu a monitro data am niferoedd yr achosion a gyfeirir cyn ac ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth, fel bod modd mesur yr effaith mor gywir â phosibl. Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 8 am gostau a manteision.

## <u>Sector addysg</u>

### *Cyfrifoldebau athrawon ar ddiogelu*

55. Mae Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion, awdurdodau addysg lleol a sefydliadau addysg bellach

drefnu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Bydd cyfrifoldebau unigol yr athrawon yn dibynnu ar eu rôl nhw mewn perthynas â diogelu plant yn eu hysgol.

56. Ar hyn o bryd, os yw plentyn yn dweud wrth athro fod ei riant wedi'i smacio, neu os ydyn nhw'n gweld rhywun yn smacio plentyn, byddai'r athro yn adrodd am hyn yn unol â'r arferion y cytunwyd arnynt. Mater i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu fyddai penderfynu, yn dibynnu ar natur y digwyddiad, a fyddent am ymchwilio a pha gamau i'w cymryd, os o gwbl.

### *Defnydd o rym rhesymol mewn ysgolion*

57. Mae Llywodraeth y DU wedi rhwystro'r defnydd o gosb gorfforol mewn ysgol yn gynyddol ers 1986, gan ei wahardd yn llwyr mewn pob ysgol wladol a gynhelir ym 1987 ac ym mhob ysgol annibynnol ym 1999.

58. Bu rhywfaint o ddryswch pan ddilëwyd yr amddiffyniad cosb resymol am y tro cyntaf i athrawon ym 1986. I ddechrau, roedd athrawon yn ansicr faint o ymyriad corfforol a oedd yn cael ei ganiatáu. Fe olygodd hyn, er enghraifft, bod athrawon weithiau'n amharod i ymyrryd yn gorfforol pan oedd plant mewn perygl o gael eu niweidio.

59. Mae'r gyfraith bresennol sy'n gwahardd y defnydd o gosb gorfforol mewn perthynas â disgyblion sy'n cael addysg wedi'i hamlinellu yn adran 548 o Ddeddf Addysg 1996, a roddodd eglurder pellach ynghylch defnyddio grym rhesymol. Nid yw'r Bil arfaethedig i gael gwared ag amddiffyniad cosb resymol yn newid y sefyllfa hon.

60. Mae darpariaethau cyfredol yng Nghymru sy'n ymwneud â'r defnydd o rym rhesymol mewn ysgolion wedi'u nodi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, 'Ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau'. Mae'r canllawiau'n dweud:

> *"ni ddylai ysgolion byth geisio rhwystro gallu aelodau o staff i ddefnyddio grym drwy fabwysiadu polisi 'dim cyswllt'. Mae'r pŵer i ddefnyddio grym yn helpu i sicrhau diogelwch disgyblion a'r ysgol a'r perygl sy'n gysylltiedig â pholisi dim cyswllt yw y gallai olygu bod aelod o staff yn torri eu dyletswydd gofal tuag at ddisgybl, neu'n eu hatal rhag gweithredu mewn ffordd sydd ei hangen i atal disgybl rhag achosi anafiadau i eraill'"*

### *Effaith ar brosesau – lleoliadau wedi'u rheoleiddio (ysgolion)*

61. Efallai y bydd angen adolygu'r trefniadau diogelu mewn ysgolion er mwyn adlewyrchu dileu'r amddiffyniad.

### *Lleoliadau heb eu rheoleiddio*

62. Er nad yw athrawon yn gallu defnyddio grym fel cosb mewn ysgolion mwyach, mae oedolion sy'n gweithredu *in loco parentis* mewn llefydd a enwir yn 'lleoliadau di-addysg' yn gallu defnyddio'r amddiffyniad cosb resymol. Byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn dileu hyn.

***Effaith ar brosesau – 'lleoliadau di-addysg'***

63. Hwyrach bod protocolau diogelu eisoes ar waith mewn llawer o leoliadau di-addysg. Nid oes gennym dystiolaeth o blant yn cael eu cosbi'n gorfforol mewn lleoliadau di-addysg heb eu rheoleiddio, ond bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â grwpiau perthnasol i sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'r newid yn y gyfraith ac yn gallu cynnwys hynny yn eu prosesau diogelu.

**<u>Iechyd</u>**

64. Ym maes gofal iechyd, bydd gan ymarferwyr, gan gynnwys bydwragedd, ymwelwyr iechyd, nyrsys plant, meddygon teulu a phediatryddon (yn enwedig pediatryddon cymunedol) gyfraniad allweddol o ran darparu cyngor clir a chyson i rieni a gofalwyr am y newid yn y gyfraith.

65. Mae pob aelod o staff gofal iechyd yn derbyn hyfforddiant diogelu i lefel ac amlder sy'n addas i'w rôl, a byddai unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn cael eu cynnwys a'u trafod yn yr hyfforddiant hwnnw.

# Atodiad 5: Cofnodion Troseddol a’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

1. Mae’r **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**[96] (DBS) yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau agored i niwed, yn cynnwys plant.

2. **Rhan V o Ddeddf Heddlu 1997**[97] yw’r ddeddfwriaeth sy’n darparu ar gyfer Gwiriadau o Gofnodion Troseddol.

3. Mae yna 4 math o wiriad:
   - mae **gwiriad sylfaenol** yn dangos euogfarnau heb eu disbyddu ac ar gyfer pawb. Yr unigolyn sy’n gwneud cais ar gyfer hwn, nid y sefydliad;
   - mae **gwiriad safonol** yn dangos euogfarnau wedi’u disbyddu a heb eu disbyddu, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion terfynol ac mae ar gyfer swyddogion diogelwch, wardeiniaid traffig, trwyddedu, milfeddygon, cyfreithwyr ac ati;
   - mae **gwiriad manylach** yn dangos yr un peth â gwiriad safonol ac unrhyw wybodaeth a gedwir yn lleol gan yr heddlu yr ystyrir ei bod yn berthnasol i’r swydd.
   - mae **gwiriad manylach gyda rhestri gwaharddedig** yn dangos yr un fath â gwiriad manylach ac a yw’r ymgeisydd ar un (neu ddwy) o ddwy restr o bobl sydd wedi’u gwahardd rhag gweithio gyda grwpiau agored i niwed: mae un rhestr yn dangos y rhai sydd wedi’u gwahardd rhag gweithio gyda phlant, a’r llall yn dangos y rhai sydd wedi’u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion agored i niwed. Bydd hwn ar gyfer swyddi fel athrawon; meddygon, nyrsys neu fferyllwyr, sy’n cael eu galw’n weithgaredd a reoleiddir.

4. Mae Ffigur 1 (tudalen 5) yn dangos y broses Datgelu a Gwahardd.

5. Trwy **Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974** (ROA)[98] mae modd ystyried pob euogfarn a phob rhybuddiad, cerydd a rhybudd terfynol fel rhai wedi’u disbyddu ar ôl cyfnod penodol. Mae’n rhoi’r hawl gyfreithiol i bobl beidio â’u datgelu wrth wneud cais am y rhan fwyaf o swyddi, y rhan fwyaf o gyrsiau a phob math o yswiriant. Bydd euogfarnau ac achosion o setlo y tu allan i’r llys fel rhybuddiadau bob amser yn cael eu dangos ar gofnodion yr heddlu ond efallai na fyddant yn ymddangos ar wiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd hyn yn dibynnu ar:
   a. Y math o wiriad mae’r person yn gwneud cais amdano;
   b. A yw ei euogfarn wedi disbyddu o dan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr;
   c. A yw ei euogfarn yn gymwys i gael ei hidlo o dystysgrifau safonol neu fanylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

---

[96] https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service
[97] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1997/50/part/V/data.pdf
[98] https://www.gov.uk/government/publications/new-guidance-on-the-rehabilitation-of-offenders-act-1974

6. Ystyr hidlo yw bod rhai mân droseddau'n cael eu dileu neu eu 'hidlo' o wiriadau safonol neu fanylach y DBS[99]. Ni fydd rhaid i ymgeisydd am swyddi sy'n gofyn am wiriadau safonol neu fanylach y DBS ddatgelu troseddau sy'n gymwys i gael eu hidlo. Mae "*any offence of assault or indecent assault on a child"*[100] yn drosedd na fydd yn cael ei hidlo o wiriad cofnod troseddol (h.y. nid yw'n cael ei gwarchod waeth faint o amser sydd wedi mynd heibio). Y rheswm am hyn yw bod y drosedd hon yn cael ei hystyried yn berthnasol yng nghyd-destun diogelu. Os oes gan unigolyn mwy nag un euogfarn neu rybudd, ni fydd hyn yn cael ei hidlo ychwaith. Defnyddir gwiriadau DBS hefyd ar gyfer rhai **cyrsiau addysgol** (fel meddygaeth, deintyddiaeth, addysgu a gwaith cymdeithasol). Gan nad yw rhybudd ynghylch ymosodiad ar blentyn yn cael ei hidlo o wiriad DBS, gall effeithio ar siawns unigolyn o dderbyn cynnig i astudio neu ei effeithio os yw hanner ffordd drwy gwrs yn barod. Gall rhai sydd mewn rolau gwirfoddol ac yn gweithio gyda phlant gael eu heffeithio hefyd, yn dibynnu ar natur eu rôl.

**Gwiriadau manylach**

7. Yn ogystal ag euogfarnau a rhybuddion gall Tystysgrif Fanwl gynnwys y canlynol hefyd:
*"information held on local police records, which does not form part of a person's criminal record. It is often called – 'non-conviction' information. Each Chief Constable decides what, if any, non-conviction information should be released in response to an application for [an Enhanced] disclosure."*[101]

8. Gallai hyn gynnwys:
   - digwyddiadau lle na chafodd yr unigolion eu harestio, eu cyhuddo na'u herlyn;
   - digwyddiadau lle canfuwyd unigolion yn "Ddi-euog" mewn llys barn (o dan rai amgylchiadau);
   - digwyddiadau yr ymdriniwyd â nhw gan gyrff heblaw'r heddlu (fel awdurdodau lleol trwy eu prosesau disgyblu; cyflogwyr; ysgolion; ysbytai ac ati); a
   - gwybodaeth trydydd parti – gwybodaeth am bobl heblaw'r ymgeisydd

9. Yn achos gwiriad manylach y DBS, gall achosion 'Dim Camau Pellach' gan yr heddlu gael eu datgelu, ond nid yw hynny'n digwydd yn awtomatig. Er enghraifft, efallai y bydd patrwm o sawl achos Dim Camau Pellach tebyg yn cael ei ddatgelu, ond efallai na fydd un achos ar ei ben ei hun yn cael ei ddatgelu. Efallai y bydd gwiriad manylach yn nodi bod rhywun yn destun ymchwiliad hefyd.

10. Wrth ddatgelu gwybodaeth a gedwir yn lleol, mae'r heddlu yn dilyn **Fframwaith Sicrhau Ansawdd[102]** a ddatblygwyd gan Gyngor Cenedlaethol

[99] https://www.gov.uk/government/publications/dbs-filtering-guidance
[100] https://www.gov.uk/government/publications/dbs-list-of-offences-that-will-never-be-filtered-from-a-criminal-record-check
[101] Fel y nodwyd yn 2007 Guidance, Safeguarding Children and Safer Recruitment in Education
[102] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/295392/DBS_Applicant_s_introduction_to_QAF_March_2014.pdf

Penaethiaid yr Heddlu (NPCC)[103] a'r DBS. Mae'n rhaid i wybodaeth basio rhai profion (sy'n ymwneud ag ystyriaethau Perthnasedd, Cadarnhad a Chymesuredd ac ystyriaethau agweddau diogelwch ar ddatgelu gwybodaeth). Mae'n rhaid i'r heddlu gofnodi eu proses feddwl (eu "rhesymeg") yn egluro sut/pam y daethant i'w casgliadau a'u penderfyniadau.

11. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hasesu gan y Prif Swyddog i benderfynu a yw hi'n rhesymol credu ei bod yn berthnasol, ac a yw'n barnu y dylid ei datgelu. Dylid ond datgelu gwybodaeth os yw'n bodloni'r ddau ofyniad hyn.

12. Rhoddir ystyriaeth hefyd i effaith Hawliau Dynol datgelu a pheidio â datgelu ar yr ymgeisydd ac ar grŵp/grwpiau agored i niwed sy'n gysylltiedig â'r cais.

13. Mae gan y profion ar gyfer datgelu drothwy is na 'y tu hwnt i bob amheuaeth resymol' sydd ei angen ar gyfer euogfarn mewn llys barn. Yn ôl y gyfraith, nid oes rhaid i wybodaeth sy'n cael ei hystyried ar gyfer datgelu basio'r prawf hwn.

14. Ni all yr Heddlu wneud penderfyniadau addasrwydd nac argymhellion. Mae pob cyflogwr yn ystyried y wybodaeth a ddatgelwyd ac yn penderfynu a yw'r ymgeisydd yn addas ar gyfer rôl benodol ai peidio. Mae'r cyflogwr yn gyfrifol am reoli'r risg honno'n briodol.

15. Mae'n rhaid i'r sefydliadau sy'n defnyddio gwasanaeth gwirio'r DBS gydymffurfio â'r cod ymarfer (**adran 122 o Ran V Deddf Heddlu 1997**[104]). O dan y cod, mae gan sefydliadau ddyletswydd i ddefnyddio'r wybodaeth a ryddhawyd yn deg. Mae'r cod hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth bersonol sensitif, a ddatgelwyd gan y DBS, yn cael ei thrafod a'i storio'n briodol a'i chadw am y cyfnod sydd ei hangen yn unig.

**Addasrwydd i Ymarfer**

16. Os yw'r heddlu'n credu bod unigolyn wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn a bod yr unigolyn hwnnw'n gweithio gyda phlant mewn gweithgaredd a reoleiddir (e.e. nyrs bediatreg, meddyg, athro, gweithiwr gofal plant) bydd yr heddlu yn rhoi gwybod i Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO). Mae'r LADO yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol i reoli a goruchwylio honiadau ar draws y gweithlu plant. Bydd y cyflogwr yn gwneud penderfyniadau ynghylch a yw'r drosedd yn bodloni'r trothwy ar gyfer ymddygiad proffesiynol annerbyniol.

17. Mae gan y rhai sy'n gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir ddyletswydd i ddweud wrth eu cyflogwr a'u corff proffesiynol/rheoleiddiwr annibynnol (e.e. y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Cyngor y Gweithlu Addysg, Gofal Cymdeithasol Cymru), os yn berthnasol, am unrhyw rybudd neu gyhuddiad, neu os ydynt wedi'u dyfarnu'n euog o drosedd (ac eithrio rhybudd neu euogfarn warchodedig).

[103] https://www.npcc.police.uk/
[104] http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1997/50/section/122

18. Os yw’r corff proffesiynol/rheoleiddiwr annibynnol yn derbyn atgyfeiriad gan gyflogwr a’i bod hi’n ymddangos bod yr atgyfeiriad yn cynnwys niwed, neu berygl o niwed i blant neu oedolion agored i niwed dylai anfon yr atgyfeiriad i’r DBS. Gall y DBS benderfynu cynnwys yr unigolyn cofrestredig ar y Rhestr Blant Waharddedig neu’r Rhestr Oedolion Waharddedig.

## Ffigur 1 – Proses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

(Corff anadrannol y Swyddfa Gartref sy'n barti i Ddeddf Heddlu 1997 sy'n ddeddfwriaeth sy'n gwneud darpariaeth yn gysylltiedig â gwiriadau cofnodion troseddol)

**Unigolyn yn cael cynnig swydd**

↓

**Pa fath o swydd yw hi?**

↓

Gwaith mewn ysgol ond nid mewn swydd addysgu – e.e. fel glanhawraig ond heb gysylltiad â'r plant

↓

- Warden traffig, cyfreithiwr, milfeddyg gweithredol cyfreithiol siartredig, stiward pêl-droed, swyddog diogelwch
- Gweithio gyda chleifion heb oruchwyliaeth gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol (e.e. staff derbynfa, arlwywyr, glanhawyr, gwirfoddolwyr – dim ysbyty plant)
- Trwydded gamblo neu loteri
- Aelod o Gymdeithas Prif Seiri Cloeau

↓


- Gweithio mewn ysgol, meithrinfa, canolfan neu gartref plant, gwasanaeth cadw, sefydliad troseddwyr ifanc neu safle gofal plant (yn anaml)
- Rhedeg busnes gofal plant
- Sicrhau safon ystafell sgwrsio ar-lein (llai na 1 mis)
- Cynghorydd mewnfudo rheoleiddiedig

↓

Swydd gweithgaredd a reoleiddir

↓

- Meddyg, nyrs, fferyllydd, optometrydd, neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall neu rywun sy'n cael ei oruchwylio gan un wrth ddarparu gofal iechyd
- Gweithio gyda chleifion heb oruchwyliaeth – staff derbynfa, arlwywyr, glanhawyr, gwirfoddolwyr mewn ysbyty plant (eu symud bob 3 mis)
- Darparu cymorth cyntaf drwy sefydliad cymorth cyntaf
- Gweithio mewn ysgol, meithrinfa, canolfan neu gartref plant, gwasanaeth cadw, sefydliad troseddwyr ifanc neu safle gofal plant (mwy na 3 mis o weithio dros nos)
- Gwarchod plant
- Gweithio mewn ysgol ond nid mewn swydd addysgu (e.e. fel glanhawraig) – gweithio i'r ysgol, dod i gysylltiad â phlant, swydd reolaidd
- Arolygu safleoedd gofal plant
- Gyrru plant (aml – mwy na 3 mis)
- Sicrhau safon ystafell sgwrsio ar-lein
- Trwydded yrru gyrrwr tacsi neu gerbyd preifat



Gwiriad Sylfaenol
Gwiriad Safonol
Gwiriad Manylach
Rhestri gwaharddedig
Person yn cwblhau ffurflen wirio'r DBS ac yn ei gyflwyno i'r DBS
Cyflogwr yn rhoi ffurflen gais DBS i'r unigolyn
Unigolyn yn cwblhau ffurflen wirio'r DBS
Cyflogwr yn cyflwyno'r ffurflen i'r DBS
Cynnal gwiriad DBS
• Dangos euogfarnau heb eu disbyddu
• Dangos euogfarnau wedi'u disbyddu a heb eu disbyddu, rhybuddiadau, ceryddon (ddim yn bodoli bellach), rhybudd terfynol (ddim yn bodoli bellach)
• Yn amodol ar hidlo – mae rhai mân droseddau'n cael eu dileu neu eu 'hidlo'. Nid oes rhaid datgelu troseddau sy'n gymwys i gael eu hidlo mwyach
• Nid yw unrhyw droseddau o ymosod neu ymosod yn anweddus ar blentyn yn cael eu hidlo
Chwilio trwy gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu
• Dangos euogfarnau wedi'u disbyddu a heb eu disbyddu, rhybuddion terfynol
• Yn amodol ar hidlo

Hefyd yn cynnwys gwybodaeth a gedwir ar gofnodion lleol yr heddlu:

- digwyddiadau lle na chafodd yr unigolion eu harestio, eu cyhuddo na'u herlyn
- digwyddiadau lle canfuwyd unigolion yn "Ddi-euog" mewn llys barn o dan rai amgylchiadau
- digwyddiadau yr ymdrinnwyd â nhw gan gyrff heblaw'r heddlu (e.e. awdurdodau lleol trwy eu prosesau disgyblu; cyflogwyr; ysgolion; ysbytai ac ati); a
- gwybodaeth trydydd parti

Mae'r Heddlu'n dilyn **Fframwaith Sicrhau Ansawdd** -

- Mae'n rhaid i wybodaeth basio rhai profion – perthnasedd, cadarnhad a chymesuredd
- Mae'n rhaid i'r heddlu gofnodi eu proses feddwl (eu "rhesymeg") yn egluro sut / pam y daethant i'w casgliadau a'u penderfyniadau
- Mae gwybodaeth yn cael ei hasesu gan y prif swyddog
- Mae gan y profion ar gyfer datgelu drothwy is na 'y tu hwnt i bob amheuaeth resymol' sydd ei angen ar gyfer euogfarn mewn llys barn

- **Rhestr plant gwaharddedig**
- **Rhestr oedolion gwaharddedig**

Gall unigolyn ond cael ei wirio yn erbyn un neu'r ddwy restr waharddedig os ywei swydd wedi'i dosbarthu fel "gweithgaredd a reoleiddir" o dan **Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006**

Mae unigolyn yn cael ei ychwanegu at restr waharddedig os

- yw cyflogwr yn atgyfeirio i'r DBS
- oes ganddo euogfarn o rai troseddau difrifol (ni fyddai ymosodiad cyffredin yn gwahardd unigolyn yn awtomatig) neu
- ar ôl i'r DBS gynnal gwiriad manylach a'u bod yn credu y dylid gwahardd yr unigolyn ar sail y wybodaeth

Gall unigolyn gyflwyno ei achos os yw'n cael ei ychwanegu at y rhestr waharddedig

Mae yna hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau gwahardd – yr eithriad yw os yw'r unigolyn wedi cael rhybudd neu euogfarn o drosedd â gwaharddiad awtomatig

**DBS yn rhoi tystysgrif i'r unigolyn**

**Cyflogwr yn ystyried y wybodaeth a ddatgelwyd ac yn penderfynu a yw'r ymgeisydd yn addas am swydd benodol (cyflogedig, gwirfoddol neu astudio)**

(Mae'n rhaid i sefydliadau gydymffurfio â'r cod ymarfer – adran 122 (rhan o Ddeddf Heddlu 1997) – defnyddio gwybodaeth a ryddhawyd yn deg a storio gwybodaeth bersonol sensitif yn briodol)

# Atodiad 6: Defnyddio data Seland Newydd fel esiampl ar gyfer amcangyfrifon yng Nghymru

## Cefndir

1. Gan nad oes cynsail yn bodoli yn y DU ar gyfer dileu amddiffyniad cosb resymol, mae rhagweld faint o rieni a fyddai'n cael eu herlyn yn dilyn y newid arfaethedig i ddeddfwriaeth yng Nghymru yn anodd.

2. Mae 54 o wledydd bellach wedi cymryd camau i roi diwedd i gosbi plant yn gorffol ym mhob lleoliad, yn cynnwys yn y cartref. Dim ond pedair o'r gwledydd hyn sydd â systemau cyfreithiol sy'n seiliedig ar awdurdodaeth cyfraith gyffredin a dim ond tair o'r gwledydd hyn sydd wedi rhoi terfyn ar gosbi plant yn gorfforol drwy ddefnyddio cyfraith trosedd: Iwerddon, Seland Newydd a Malta.

3. Ym Malta, mae cosbi corfforol yn anghyfreithlon yn y cartref o dan ddiwygiad 2014 i'r Ddeddf Cod Troseddau[105]. Roedd y diwygiad hwnnw wedi gwneud cosbi corfforol yn anghyfreithlon hefyd mewn lleoliadau gofal amgen, ar gyfer gofal dydd, ac mewn ysgolion. Nid oes unrhyw ddata wedi'u cyhoeddi y gwyddys amdanynt sy'n cynnig gwybodaeth am effaith y ddeddfwriaeth honno ym Malta.

4. Mae Iwerddon wedi dileu amddiffyniad cosb resymol cyfraith gyffredin. Mae Rhan 5 (adran 28) o Ddeddf Plant yn Gyntaf 2015[106] yn darparu ar gyfer diwygio Deddf Troseddau Nad Ydynt yn Angheuol yn Erbyn y Person 1997[107]. Ni fydd person sy'n cosbi plentyn yn gorffol bellach yn gallu dibynnu ar amddiffyniad cosb resymol yn y llysoedd. Nid yw Iwerddon wedi cyhoeddi data perthnasol ar ymchwiliadau nac ar y nifer o erlyniadau a gafwyd ers pasio'r ddeddfwriaeth felly ni allwn ddod i gasgliad ynghylch faint o effaith a gafodd newid y ddeddfwriaeth yno.

5. Gellid dysgu gwersi o'r profiad yn Seland Newydd gan fod posibl cymharu'r wlad â Chymru mewn sawl ffordd. Mae'n wlad ddatblygedig fechan, gyda system gyfreithiol a gwleidyddol sy'n deillio o gyfraith gyffredin. Yn wahanol i Iwerddon, cofnododd heddlu Seland Newydd nifer yr ymchwiliadau ac erlyniadau ers newid y ddeddfwriaeth yn 2007.

6. Yn absenoldeb unrhyw ddata arall i gael amcangyfrifon cadarnach, defnyddiwyd Seland Newydd fel esiampl at ddibenion asesu sut mae newid y gyfraith yn effeithio ar y system gyfiawnder a'r heddlu. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod yn ochelgar wrth wneud rhagdybiaethau cadarn ac amcanestyniadau costau ar sail data Seland Newydd: mae yna nifer o gafeatau, fel yr eglurir isod.

---

[105] http://www.justiceservices.gov.mt/DownloadDocument.aspx?app=lp&itemid=25940&l=1
[106] http://www.irishstatutebook.ie/eli/2015/act/36/section/28/enacted/en/html
[107] http://www.irishstatutebook.ie/eli/1997/act/26/enacted/en/html

## Cafeatau

7. Er bod nifer o gymariaethau gyda Chymru, mae'n rhaid pwysleisio bod gan Seland Newydd hanes, diwylliant, gwerthoedd, arferion cymdeithasol a strwythur cymdeithasol unigryw. Mae gan y ddwy wlad ddiffiniadau a threfniadau cyfreithiol, mecanweithiau gorfodi, systemau cyfiawnder troseddol, demograffeg ac amgylchiadau economaidd gwahanol. Mae'r data a gyhoeddwyd yn Seland Newydd yn ddata meintiol ar y cyfan, sy'n darparu cyd-destun diwylliannol neu weithdrefnol cyfyngedig. Wrth wneud cymariaethau, mae'n amhosibl rheoli ar gyfer yr holl ffactorau gwahanol a allai effeithio ar gyfraddau cosbi corfforol; parodrwydd i adrodd am droseddau a chyfraddau erlyn.

## Gwahaniaethau rhwng Deddfwriaeth Seland Newydd a'r hyn a gynigir yng Nghymru

8. Yn 2007, pasiodd Senedd Seland Newydd gyfraith yn diddymu adran 59 o Ddeddf Troseddau 1961[108]. Roedd y ddeddfwriaeth hon yn dileu'r amddiffyniad cyfreithiol o "rym rhesymol" i rieni a'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis sy'n cael eu herlyn am ymosod ar eu plant. Roedd adran 59 yn derbyn i'r amddiffyniad cosb corfforol sydd wedi'i gynnwys yng nghyfraith Cymru a Lloegr. Ar ôl diddymu a disodli adran 59 yn 2007 daeth yn anghyfreithlon i rieni ddefnyddio unrhyw rym yn erbyn eu plant at ddibenion cywiro.

9. Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth yn Seland Newydd yr un fath â'r un a gynigir yng Nghymru ac mae fframwaith deddfwriaethol y ddwy wlad yn wahanol hefyd.

## Mae trefniadau gorfodi'r gyfraith yn Seland Newydd yn wahanol i drefniadau Cymru

10. Mae system cyfiawnder troseddol Seland Newydd yn wahanol i system Cymru a Lloegr, ac efallai y bydd yna wahaniaethau yn y gofynion i gofnodi troseddau gan yr heddlu ac arferion adrodd am droseddau. Mae'r ddeddfwriaeth yn Seland Newydd yn nodi *"Police have the discretion not to prosecute"* gyda "*the offence is considered to be so inconsequential that there is no public interest in proceeding with a prosecution"*. Mae Canllawiau Ymarfer yr Heddlu yn rhoi cyngor ar y bwriad hwnnw[109]. Ymysg pethau eraill mae Canllawiau Ymarfer yr Heddlu yn datgan
"*while smacking may, in some circumstances, be considered inconsequential, a prosecution may be warranted if such actions are repetitive or frequent, and other interventions or warnings to the offender have not stopped such actions."*

---

[108] Crimes (Substituted Section 59) Amendment Act 2007 http://www.legislation.govt.nz/act/public/2007/0018/latest/whole.html#DLM407671

[109] Cyfeirir at y Canllawiau Ymarfer yn y Datganiad i'r Wasg yn dilyn gweithredu'r ddeddfwriaeth yn Seland Newydd yn 2007. http://www.police.govt.nz/news/release/3149.html

11. Mae'n mynd ymlaen i gynghori:
*"In cases where the force used is found to be minor, trivial or inconsequential, it will be appropriate to record the event on a POL400 and forward the file to the Family Violence Co-ordinator. The expected outcome for such events will be one using common sense and of offering guidance and support, dependent on the context following discussion by the Family Violence Co-ordinator."*

12. Nid yw'n glir i ba raddau mae'r heddlu wedi defnyddio'r disgresiwn a ddarparwyd yn y ddeddfwriaeth ac a yw'r Canllawiau Ymarfer ar ddewisiadau yn lle erlyn wedi cael effaith ar y nifer o erlyniadau posibl yn Seland Newydd. Ychydig o dystiolaeth sydd gennym hefyd am sut y gweithredir y system cyfiawnder troseddol yn Seland Newydd ac i ba raddau y penderfynir ar achosion y tu allan i'r llys fel dull arall yn lle erlyn.

**Gwahaniaethau mewn poblogaeth**

13. Nid yw cyfansoddiad poblogaethau Seland Newydd a Chymru'n debyg chwaith. Mae gan Seland Newydd boblogaeth o 4,871,300[110] (31 Mawrth 2018) gyda phoblogaeth Cymru yn 3,125,000[111] (30 Mehefin 2017).

14. Gan fod y ddeddfwriaeth yn effeithio ar rieni'n bennaf, mae angen ystyried cyfran y rhieni a phlant ym mhob gwlad. Rydym wedi cymharu nifer y plant sy'n byw yn y ddwy wlad er mwyn rhoi amcan bras o gyfran y rhai a allai gael eu heffeithio gan y newid arfaethedig mewn deddfwriaeth. Nid yw nifer y plant yn cyfateb i nifer y rhieni o reidrwydd gan y gallai un rhiant fod â mwy nag un plentyn. Mae hwn yn rhoi amcan bras serch hynny. Gan nad ydym yn gallu canfod dadansoddiad o oedrannau plant fesul blynyddoedd ar gyfer Seland Newydd rydym wedi defnyddio cyfanswm y categorïau oedran 0-4, 5-9 a 10-14 ar gyfer y ddwy wlad i helpu i benderfynu cyfran y cyfrifiad hwn. Rydym felly wedi cyfyngu'r gymhariaeth i boblogaeth plant 0-14 oed yn y ddwy wlad. Mae hyn yn cyd-fynd â rhagdybiaeth bod deddfwriaeth Seland Newydd yn berthnasol i'r rhai 14 oed neu iau.

| **Nifer y plant yng Nghymru a Seland Newydd, yn ôl oedran y plentyn** | | |
|---|---|---|
| **Oedran y plentyn** | **Poblogaeth Cymru (Cyfrifiad 2011)[112]** | **Poblogaeth Seland Newydd (Cyfrifiad 2013)[113]** |
| 0-4 | 178,301 | 292,041 |
| 5-9 | 163,079 | 286,758 |
| 10-14 | 177,748 | 286,830 |
| **Cyfanswm** | **519,128** | **865,629** |

[110] https://www.stats.govt.nz/indicators/population-of-nz [darllenwyd ym Mehefin 2018]
[111] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Equality/population-estimates-by-age-year
[112] Data o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Census/2011/UsualResidentPopulation-by-FiveYearAgeBand-Gender [darllenwyd ym Mehefin 2018]
[113] Data o: http://archive.stats.govt.nz/Census/2013-census/data-tables/tables-about-a-place.aspx?request_value=24388&reportid=14&tabname=Ageandsex [darllenwyd ym Mehefin 2018]

15. Er bod y ffigurau poblogaeth hyn yn seiliedig ar y cyfrifiad ar gyfer gwahanol flynyddoedd, dyma'r data gorau sydd ar gael am bob gwlad. Ar sail y ffigurau hyn, mae gan Gymru tua 60% o blant 0-14 oed o gymharu â Seland Newydd.

**Cymorth i rieni a chodi ymwybyddiaeth am y ddeddfwriaeth**

16. Gall parodrwydd y cyhoedd i adrodd am droseddau a lefelau ymwybyddiaeth am newidiadau i'r ddeddfwriaeth ddylanwadu ar nifer yr erlyniadau yn Seland Newydd. Hefyd, efallai bod faint o gymorth mae rhieni'n ei dderbyn i newid eu hymddygiad wedi effeithio ar nifer y troseddau a gyflawnwyd yn y lle cyntaf.

17. Lansiwyd ymgyrch addysgu'r cyhoedd yn Seland Newydd yn 2004 cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth ac mae'r ymgyrch hon yn dal ar waith. Mae ymgyrch *SKIP: Strategies with Kids - Information for Parents* (https://www.skip.org.nz/) yn darparu gwybodaeth a chymorth ar ddulliau rhianta cadarnhaol i rieni a darparwyr gofal plant hyd at bump oed. Darperir cyllid i grwpiau cymunedol hefyd i sefydlu prosiectau rhianta cadarnhaol ac i gynhyrchu adnoddau cenedlaethol i gefnogi'r ymgyrch.

18. Yn ogystal, mae Llywodraeth Seland Newydd yn ariannu amrywiaeth o gymorth rhianta yn cynnwys *Family Start* (gwasanaethau cymorth dwys yn y cartref i deuluoedd plant o dan 5 oed ag anghenion mawr); *Strengthening Families* (rhwydwaith cymorth i deuluoedd sydd angen cymorth aml-asiantaeth); ac *Integrated Service Response* (teuluoedd sydd yn y perygl mwyaf).

19. Nid oedd gan y Llywodraeth unrhyw ymgyrch addysgol a chyfryngau penodol i egluro'r newid yn y gyfraith a chodi ymwybyddiaeth gyda'r rhai yr effeithiwyd arnynt.

20. Ledled Cymru, mae rhieni a gofalwyr yn gallu manteisio ar amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi rhianta cadarnhaol, gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan lywodraeth leol, gwasanaethau iechyd, addysg a chymdeithasol. Mae cefnogi rhieni i fabwysiadu arddulliau rhianta cadarnhaol yn rhan annatod o Dechrau'n Deg (teuluoedd gyda phlant o dan 4 oed) a Teuluoedd yn Gyntaf (rhaglen atal ac ymyrryd yn fuan).

21. Mae'r ymgyrch, 'Magu Plant. Rhowch amser iddo' (http://rhowchamseriddo ), a lansiwyd ym mis Tachwedd 2015, hefyd yn hyrwyddo negeseuon rhianta cadarnhaol drwy'r cyfryngau cymdeithasol a phrint a hysbysebion digidol. Mae gwefan a thudalen Facebook bwrpasol yn darparu awgrymiadau, gwybodaeth a chyngor ar rianta.

22. Mae'n bosibl bod y cymorth ar gyfer rhianta a'r ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth yn Seland Newydd wedi effeithio ar lefelau cosbi corfforol. Efallai ei fod wedi dylanwadu ar y duedd i adrodd am droseddau hefyd a allai fod wedi effeithio ar nifer yr erlyniadau. Er enghraifft, mae cyfraddau cosbi corfforol plant yn ymddangos fel petaent yn gostwng yn Seland Newydd ers newid y ddeddfwriaeth. Fel rhan o Arolwg Iechyd Seland Newydd 2016/17

gofynnwyd i rieni neu brif ddarparwyr gofal a oeddynt wedi cosbi eu plentyn yn gorfforol yn y pedair wythnos diwethaf. Mae'r arolwg yn cynnal cyfweliadau wyneb-yn-wyneb â rhieni neu brif ddarparwyr gofal dros 4000 o blant bob blwyddyn. Roedd canran y plant a gafodd eu cosbi'n gorfforol wedi gostwng o 10.4% yn 2006/07 i 5.4 % yn 2016/17[114]

**Crynodeb**

23. Fel yr amlinellwyd uchod, er bod yna rai pethau'n debyg i Gymru, mae Seland Newydd yn awdurdodaeth wahanol, gyda fframwaith cyfreithiol gwahanol a system cyfiawnder troseddol gwahanol. Er bod Seland Newydd wedi dileu amddiffyniad cosb resymol (grym rhesymol) tebyg, mae'r gyfraith yma'n wahanol i'r hyn a gynigir yng Nghymru ac mae'r holl fecanweithiau sy'n cefnogi gweithredu a gorfodi'n wahanol i'r rhai yng Nghymru.

24. Er ein bod wedi ystyried a defnyddio data heddlu Seland Newydd a'i ddefnyddio fel sail i'r amcangyfrif o effaith bosibl newid y gyfraith ar system cyfiawnder a'r heddlu yng Nghymru, rydym yn ymwybodol o'r gwahaniaethau a amlinellwyd uchod, ac y gallai hyd a lled yr effaith yng Nghymru fod yn wahanol o ganlyniad.

[114] https://www.health.govt.nz/publication/annual-update-key-results-2016-17-new-zealand-health-survey

# Atodiad 7: Amcangyfrif Uned Gyswllt yr Heddlu o'r lefelau presennol o ran adrodd am droseddau

1. Cafodd yr wybodaeth ganlynol ei chyflwyno gan Uned Gyswllt yr Heddlu, yn unol â chytundeb y pedwar Heddlu yng Nghymru, sy’n rhoi amcangyfrif o nifer yr adroddiadau y maent yn eu derbyn ar hyn o bryd sydd ar lefel cosb resymol.

### Cefndir

2. Mae'r Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn cydymffurfio'n gyfan gwbl â Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref ar gyfer Troseddau a Gofnodwyd. Mae'r rheolau hynny'n llywio gwaith datblygu polisi Llywodraeth y DU i leihau troseddau ac i sicrhau effeithiolrwydd polisïau. Ar hyn o bryd, nid yw heddluoedd Cymru'n mesur troseddau sy'n defnyddio amddiffyniad 'cosb resymol', gan nad yw'n ymddangos o dan Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref.

3. Yn ôl cais gan Lywodraeth Cymru roedd Uned Gyswllt yr Heddlu wedi cynnal archwiliad o droseddau a gofnodwyd a oedd yn ymwneud ag Ymosodiadau Cyffredin ar Blant a Chreulondeb i Blant. Roedd y rhain yn ymwneud â throseddau a gofnodwyd yn ardaloedd y pedwar heddlu yng Nghymru. Bydd y data'n cynnig ffigurau sylfaen i Lywodraeth Cymru, er bod yna gafeatau, er mwyn gallu cychwyn cynnal asesiad o'r effaith cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n ymwneud â dileu amddiffyniad cosb resymol ac ar ôl cyflwyno'r ddeddfwriaeth honno.

### Methodoleg

4. Gan nad yw’r data sy’n ofynnol yn ddata a gofnodwyd, a groniclwyd neu a logiwyd mewn ffordd sy’n hawdd dod o hyd iddynt, roedd yr holl heddluoedd wedi cytuno ar fethodoleg er mwyn sicrhau cysondeb a chreu set ddata â chafeat a oedd yn rhoi sylw i'r canlynol:
   - Ymosodiadau Cyffredin a Gofnodwyd (HOC 105/1) lle na fu anaf, gan nad yw amddiffyniad cosb resymol yn cael ei dderbyn os oes anaf amlwg;
   - Troseddau a Gofnodwyd sy'n ymwneud â Chreulondeb i Blant (HOC 11/3), gan y gall ymosodiadau ar blant ymddangos fel 'troseddau cudd' yn ystod ymchwiliad;
   - Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar droseddau lle yr oedd y dioddefwr yn iau na 18 oed a'r troseddwr yn 18 oed neu'n hŷn;
   - Nid yw'r archwiliad yn cynnwys troseddau lle yr oedd y dioddefwyr yn 15-18 oed a'r troseddwyr yn 18-24 oed, gan ei bod yn annhebyg bod perthynas rhiant/plentyn yn bodoli nac un *in loco parentis* o ystyried yr oedrannau a ddisgrifir;
   - Cafodd y troseddau a enwyd uchod eu harchwilio mewn perthynas â throseddau a gofnodwyd yn ystod cyfnod 1 Ebrill 2017 – 31 Hydref 2018 (19 mis)

5. Mae'r ffigurau a gynhyrchwyd yn rhai dangosol gan nad yw amddiffyniad 'cosb resymol' yn cael ei gofnodi neu ei fesur ar hyn o bryd gan yr heddluoedd. Nid oedd yn hawdd i bob un o heddluoedd Cymru gynhyrchu'r ffigurau hyn. Fel rhan o'r ymchwil cafodd prosesau electronig a phapur eu defnyddio i gynhyrchu setiau data cadarn. Defnyddiwyd samplau cynrychiadol yn ystod y broses ddadansoddi oherwydd cyfanswm sylweddol nifer y troseddau a gofnodwyd a'r amserlen dynn.

6. Cafodd sampl gynrychiadol o 100 o droseddau Gwir Niwed Corfforol Adran 47 ei harchwilio hefyd. Canfuwyd dwy drosedd yn unig lle yr oedd cosb gyfreithlon yn bodoli. Fodd bynnag, o wneud gwaith archwilio pellach, daeth i'r amlwg nad oedd unrhyw anafiadau y gellid eu gweld wedi'u cofnodi. Mae hynny'n dynodi bod y troseddau wedi'u cofnodi'n anghywir yn y lle cyntaf (efallai oherwydd meini prawf amrywiol canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyhuddiadau), a dylent fod wedi'u hail-ddosbarthu'n ymosodiadau cyffredin. Felly, mae cafeat ynghlwm wrth hynny hefyd, oherwydd maint y sampl a ddefnyddiwyd a'r ffaith nad oedd 'cosb gyfreithlon' wedi'i chofnodi gan yr heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

7. I bennu'r ffigurau sy'n ymwneud â'r amcangyfrif o ran y cynnydd cyfredol ac arfaethedig yn y galw ar bob un o'r heddluoedd, defnyddiwyd y cyfrifiadau canlynol:
   - Cafodd cyfanswm nifer y troseddau dros y cyfnod o 19 mis ei rannu â 19, a oedd yn rhoi cyfanswm nifer y troseddau fesul mis;
   - Cafodd cyfanswm misol nifer y troseddau ei luosi â 12 i roi'r cyfanswm blynyddol;
   - Cafodd y cyfanswm blynyddol ei rannu â 7 neu 8 (yn ddibynnol ar bob heddlu). Y rhifau hynny yw cymhareb yr achosion o gosb gyfreithlon sy'n ymwneud â throseddau a gofnodwyd o dan y meini prawf. Roedd hynny'n cynhyrchu amcangyfrif a ffigurau bras ar gyfer y galw blynyddol ar bob un o'r heddluoedd yn sgil troseddau.
   - Mae cafeat ynghlwm wrth y rhif hwn, ac unwaith eto mae'r ffigurau'n rhai dangosol.

**Canlyniadau**

8. Mae ffigurau troseddu **Heddlu Dyfed-Powys** (ar sail y fethodoleg uchod) yn awgrymu bod tua un o bob wyth trosedd a gofnodwyd a oedd yn ymwneud ag Ymosodiadau Cyffredin ar Blant a Chreulondeb i Blant wedi'u nodi; a bod y rheini'n droseddau lle y defnyddiwyd cosb gyfreithlon fel amddiffyniad neu fe'i hystyriwyd yn y broses o wneud penderfyniad. *Mae hynny'n cyfateb i amcangyfrif o 39 trosedd y flwyddyn; sy'n torri ar draws y ddau gategori o droseddau. O dan y ddeddfwriaeth newydd, felly, byddai hyn yn golygu hyd at 39 o ymchwiliadau ychwanegol y flwyddyn i'r heddlu.

9. Mae ffigurau troseddu **Heddlu Gwent** yn dangos bod un o bob saith trosedd a gofnodwyd a oedd yn ymwneud ag Ymosodiadau Cyffredin ar Blant a Chreulondeb i Blant wedi'u nodi; a bod y rheini'n droseddau lle y defnyddiwyd cosb gyfreithlon fel amddiffyniad neu fe'i hystyriwyd yn y broses o wneud penderfyniad. *Mae hynny'n cyfateb i amcangyfrif o 56 trosedd y flwyddyn;

sy'n torri ar draws y ddau gategori o droseddau. O dan y ddeddfwriaeth newydd, felly, byddai hyn yn golygu hyd at 56 o ymchwiliadau ychwanegol y flwyddyn i’r heddlu.

10. Mae ffigurau troseddu **Heddlu Gogledd Cymru** yn dangos bod tua un o bob wyth trosedd a gofnodwyd a oedd yn ymwneud ag Ymosodiadau Cyffredin ar Blant a Chreulondeb i Blant wedi'u nodi; a bod y rheini'n droseddau lle y defnyddiwyd cosb gyfreithlon fel amddiffyniad neu fe'i hystyriwyd yn y broses o wneud penderfyniad. *Mae hynny'n cyfateb i amcangyfrif o 57 trosedd y flwyddyn; sy'n torri ar draws y ddau gategori o droseddau. O dan y ddeddfwriaeth newydd, felly, byddai hyn yn golygu hyd at 57 o ymchwiliadau ychwanegol y flwyddyn i’r heddlu.

11. Mae ffigurau troseddu **Heddlu De Cymru** yn dangos bod tua un o bob saith trosedd a gofnodwyd a oedd yn ymwneud ag Ymosodiadau Cyffredin ar Blant a Chreulondeb i Blant wedi'u nodi; a bod y rheini'n droseddau lle y defnyddiwyd cosb gyfreithlon fel amddiffyniad neu fe'i hystyriwyd yn y broses o wneud penderfyniad. *Mae hynny'n cyfateb i amcangyfrif o 122 trosedd y flwyddyn; sy'n torri ar draws y ddau gategori o droseddau. O dan y ddeddfwriaeth newydd, felly, byddai hyn yn golygu hyd at 122 o ymchwiliadau ychwanegol y flwyddyn i’r heddlu.

**Sylwadau**

12. Ymddengys fod cysondeb ymhlith y pedwar heddlu yng Nghymru mewn perthynas â'r categorïau o droseddau a gofnodwyd. Nodwyd bod cosb gyfreithlon wedi'i defnyddio fel amddiffyniad neu wedi'i hystyried yn y broses o wneud penderfyniad mewn tua 12% o'r categorïau o droseddau a gofnodwyd ac a enwyd. Roedd themâu trawsbynciol a oedd yn ymwneud ag adroddiadau maleisus gan gyn-bartneriaid yn gyffredin. Rhoddwyd sylw blaenllaw i faterion fel mynediad cyfreithiol a materion a oedd yn ymwneud â chymorth ariannol. Yn ogystal, mae'n bosibl bod y troseddau hyn yn creu mwy o alw ar dimau gwasanaethau cymdeithasol y tu allan i oriau swyddfa oherwydd yr amser yr oedd y troseddau'n cael eu cofnodi ac er mwyn cefnogi mesurau diogelu.